Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 12fed Mawrth, 2024 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Aml Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Sion<br><br>01286 679490 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Cynghorydd Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Trenholme | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | **Eitem** | **Cyflwynir gan** | **Swyddog** | **Tud.** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 CHWEFROR 2024 | | | 3 - 13 |
| 6 | CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-28 | Cyng. Menna Trenholme | Delyth G Williams | 14 - 114 |
| 7 | CYLLIDO PROSIECTAU Y CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dafydd Gibbard | 115 - 119 |
| 8 | BIDIAU UN TRO / CRONFA TRAWSFFURFIO 2024/25 | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dafydd Gibbard | 120 - 129 |
| 9 | PRYNIANT SWYDDFEYDD Y GORON, PENRALLT, CAERNARFON | Cyng. Craig ab Iago | Carys Fôn Williams | 130 - 134 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 20 CHWEFROR 2024**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Beca Brown, Menna Trenholme, Berwyn Parry Jones, Craig ab Iago, Dilwyn Morgan, Elin Walker Jones a Ioan Thomas.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

| | |
|---|---|
| Eitem 7: | Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd) a Heledd Fflur Jones (Arweinydd Tim Polisi Cynllunio) |
| Eitem 8: | Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) |
| Eitem 9: | Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd) a Rob Williams (Rheolwr Gwasanaeth Dwr ac Amgylchedd |
| Eitem 11: | Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |
| Eitem 13: | Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) |
| Eitem 14: | Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned) |
| Eitem 15: | Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol) |

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Dafydd Meurig.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 IONAWR 2024**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 fel rhai cywir

## 6. ADOLYGIAD POLISI DIOGELU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu'r 'Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu plant ac Oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod' diwygiedig ynghyd a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Strategol Diogelu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ofyn i'r Cabinet fabwysiadu Polisi a chanllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod diwygiedig ynghyd a'r cylch gorchwyl ar gyfer y Panel y Strategol Diogelu. Mynegwyd fod y polisi yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldeb statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Eglurwyd fod y fersiwn bresennol yn addasiad o bolisi a grëwyd yn 2013, ac felly roedd yn amserol i baratoi polisi o'r newydd yn hytrach na diweddaru'r ddogfen yn unol â'r drefn arferol.

Amlygwyd fod gweithdy wedi ei gynnal yn ôl ym mis Hydref, ble mynychodd cynrychiolaeth o swyddogion ar draws y Cyngor i drafod y Polisi newydd a chryfhau trefniadau adrodd a monitro. Nodwyd camau nesaf sef y bydd copi yn mynd gerbron y Cyngor Llawn ac yna gwaith pellach er mwyn hyrwyddo'r Polisi diwygiedig ymysg holl staff y Cyngor.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y polisi wir angen ei ddiwygio bellach yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng diogelu ac amddiffyn, ac mae'r diffiniadau wedi eu nodi yn y polisi. Mynegwyd fod newidiadau wedi eu gwneud i'r Cylch Gorchwyl y Panel gan amlygu rôl ac aelodaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd y polisi newydd gan bwysleisio ei bod yn holl bwysig fod pobl yn ymwybodol fod gan bawb o fewn y Cyngor rôl i sicrhau diogelwch plant ac oedolion sy'n wynebu risg.
- Nodwyd pwysigrwydd fod y polisi yn mynd o flaen y Cyngor Llawn i amlygu pwysigrwydd y rôl sydd gan Gynghorwyr.

## 7. CYTUNDEB CYFLAWNI, CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - YMATEB I'R CYFNOD YMGYNGHORI CYHOEDDUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet gytuno i:

i. Gyflwyno'r cytundeb Cyflawni Drafft diwygiedig i'r Cyngor Llawn ar gyfer eu cymeradwyaeth
ii. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran wneud addasiadau golygyddol er mwyn sicrhau cywirdeb yn ôl yr angen.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai paratoi a derbyn cymeradwyaeth o'r Cynllun Cyflawni yw'r cam cyntaf statudol yn gysylltiedig â'r broses o baratôi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mynegwyd fod y Cabinet wedi penderfynu mynd i ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl mis Hydref  a nodwyd fod yr adroddiad yn nodi canlyniadau'r cyfnod ymgynghori hwn. Nodwyd fod 14 o unigolion / sefydliadau wedi ymateb i'r ymgynghoriad gyda chyfanswm o 37 sylw.

Eglurwyd nad oedd unrhyw faterion sylweddol yn codi o'r sylwadau a dderbyniwyd, a bod rhai o'r sylwadau ac awgrymiadau o ran sut i ddiwygio'r ddogfen a nodwyd fod y diwygiadau yn ychwanegu gwerth ac eglurdeb i'r Cytundeb Cyflawni.

Mynegwyd fod y Cytundeb Cyflawni wedi ei gyflwyno i gyfarfod y Gweithgor Polisi Cynllunio ym mis Ionawr. Amlygwyd fod y gweithgor wedi holi os oes modd diwygio'r profion cadernid wrth ystyried yr iaith. Nodwyd nad oes angen gan fod y gofyn yn cael ei gyfarch yn y profion ar ei ffurf bresennol a thrwy ofynion statudol sydd ar y Cyngor. Eglurwyd y bydd y Cytundeb Cyflawni bellach yn mynd i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth ac yna bydd modd dechrau ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol yn ffurfiol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod niferoedd ymateb yn ymddangos yn isel ond nodwydd fod nifer yr ymatebwyr yn amlygu'r cam hwn – sef sefydlu'r broses yn hytrach 'na datblygu'r polisi ei hun.

## 8. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU; 'PAPUR GWYN AR ROI DIWEDD AR DDIGARTREFEDD YNG NGHYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd cynnwys yr ymateb drafft i ymgynghoriad y Llywodraeth ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod pawb eisiau rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Ond amlygwyd os eisiau rhoi diwedd arno fod angen ei dorri yn ddau ran, sef sut i ddelio a digartrefedd a beth sydd yn achosi digartrefedd. Felly er bod y ddogfen

hon yn uchelgeisiol nodwyd fod Llywodraeth San Steffan wedi cynyddu digartrefedd drwy Brexit, cyfnod o lymder ac o'i ganlyniad wedi cynyddu tlodi a digartrefedd. Cytunwyd a sut i ddelio a'r broblem ond amlygwyd fod angen delio a gwraidd y broblem.

Ychwanegodd Pennaeth Adran Tai ac Eiddo fod Llywodraeth Cymru wedi lansio'r ymgynghoriad yma yn ôl ym mis Hydref, gyda'r bwriad o basio'r ddeddf cyn diwedd tymor y Senedd hon yn 2026. Mynegwyd yn gyffredinol fod yr adran yn hapus gyda'r argymhellion ond fod gweithredu am fod yn anodd o ganlyniad i'r angen am adnoddau ychwanegol. Amlygwyd yr angen i gael sêl bendith y Cabinet o ganlyniad y sgil effaith posib y gall y papur gwyn yma ei gael ar adnoddau a chyllidebau'r Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am ymatebion y Cyngor sydd yn nodi pryder am ddileu'r elfen cysylltiad lleol.
- Mynegwyd fod angen gwneud mwy o waith er mwyn edrych ar y rhesymau dros ddigartrefedd, a bod gweithredu yn peri pryder yn enwedig o ganlyniad i'r sefyllfa ariannol sydd ohoni a beth fydd yn wynebu'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

**9. CYMERADWYO CYNLLUN CYDWEITHIO - CANOLFAN MONITRO ARFORDIROL CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Berwyn Parry Jones

**PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet gytuno i:

i. Wynedd barhau i gyd-weithio gyda'r Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru a neilltuo adnoddau ar gyfer hynny
ii. Dirprwyo'r awdurdod i Bennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC mewn ymgynghoriad â Phennaeth Adran Gyfreithiol i gymeradwyo'r Cytundeb Cydweithio.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn gofyn i ffurfioli'r drefn sydd yn ei le yn barod ar yn o bryd. Nodwyd y bydd y cynllun cydweithio yn gyfle i ddenu incwm i Ymgynghoriath Gwynedd (YGC) i'r dyfodol gan na fuasai angen cystadlu am waith.

Ychwanegodd Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd fod sêl bendith wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i ailsefydlu Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn ôl yn 2018. Nodwyd fod y Cyngor wedi bod yn rhan o'r Ganolfan ers 2018, a nodwyd os na fydd angen i YGC gystadlu am y gwaith y bydd yn defnyddio arbenigedd sydd o fewn y Cyngor. Eglurwyd fod y data sydd yn cael ei gasglu yn rhan o gynllun hir dymor sydd wedi bod yn bwydo i mewn i strategaethau cenedlaethol. Ategwyd fod gan y ganolfan rôl holl bwysig

o ran cynlluniau newid hinsawdd.

## 10. DIWYGIO’R DREFN TRETH CYNGOR - YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: TRETH GYNGOR DECACH: CAM 2

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd cynnwys yr ymateb drafft i ymgynghoriad y Llywodraeth ar ddiwygio Treth Cyngor yng Nghymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno’r papur i ymgynghoriad gan nodi opsiynau o ran a mor bell a pa mor gyflym y bydd newid o ran diwygio’r drefn dreth Cyngor. Nodwyd o ran cyflymder y newid ei fod yn amrywio o’i gwblhau erbyn Ebrill 2025 i Ebrill 2028, a bod pa mor bell y bydd y diwygio yn ei fynd yn mynd o raddfa fach iawn i fod yn ddiwygiad ehangach.

Amlygwyd ar gyfartaledd fod pris eiddo yng Nghymru wedi cynyddu oddeutu 150% rhwng 2003 a 2022, fodd bynnag nid yw’r cynnydd ar draws Cymru wedi bod yn gyson. Eglurwyd fod Gwynedd wedi gweld y cynnydd 7fed uchaf drwy Gymru yn ystod y cyfnod, ac o ganlyniad y gall nifer uwch na’r cyfartalog symud i fyny o leiaf un band yng Ngwynedd.

Eglurwyd ei bod yn ymddangos y bydd mwy o drethdalwyr Gwynedd yn colli nac a fyddai’n ennill dan unrhyw un o’r diwygiadau a gynigir, yn gyffredinol nodwyd fod posibilrwydd cryf y buasai oddeutu 40% o bobl Gwynedd yn talu rhai cannoedd o bunnoedd yn fwy o drethi fel canlyniad i’r diwygiadau. Mynegwyd o ran diwygio fe ellir dadlau fod prisiau tai wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd ond fod cyflogau unigolion heb wneud a all arwain at nifer o bobl yn methu fforddio talu eu bil Treth Cyngor.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Nodwyd fod opsiwn 3 sef diwygiad ehangach yn arwain at greu system decach, gyda mwy o fandiau ar gael.
- Amlygwyd y bydd unrhyw gynnydd ar y cyfan yn sylfaen drethiannol y Cyngor yn golygu gostyngiad yn y grant a dderbynnir gan y Llywodraeth. Ond pwysleisiwyd nad bwriad y diwygiadau yw codi mwy o dreth gan y bydd y cyfanswm cenedlaethol yn parhau'r un peth ond ei fod yn decach.

## 11. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 - ADOLYGIAD 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Bu i’r Cabinet gymeradwyo Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 – Adolygiad 2024/25 (y Cynllun) i’w gyflwyno i’r Cyngor ar y 7fed o Fawrth 2024.

**TRAFODAETH**
Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gofyniad i gynnal adolygiad o Gynllun Cyngor Gwynedd er mai dim ond blwyddyn sydd wedi bod ers ei basio. Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu’r diwygiadau sydd i’w gweld.

Bu i Reolwr Gwasanaeth Busnes y Cyngor amlygu bod adolygiad ysgafn wedi ei gynnal er mwyn sicrhau fod y cynllun yn parhau i fod yn gyfredol. Pwysleisiwyd fod y meysydd blaenoriaethau, a oedd yn cyd-fynd a’r amcanion llesiant o ganlyniad i’r ddeddf a rhestr uchelgeisiau’r Cyngor yn parhau fel ac y mae hi.

Amlygwyd fod addasiadau wedi ei gwneud i brosiectau megis Cinio am Ddim yn yr Adran Addysg gan fod y cynllun hwn bellach yn rhan o waith dydd i ddydd yr adran. Cynllun arall sydd wedi ei dynnu allan yw adolygu’r Polisi Iaith gan ei bod wedi ei derbyn gan y Cyngor Llawn yn ei chyfarfod cyn y Nadolig. Nodwyd fod gwaith wedi ei wneud i ail becynnu prosiect Gofal Oedolion er mwyn symleiddio’r disgrifiad ac i gyfuno prosiectau.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Nodwyd fod addasu ac adolygu’r ddogfen yn amlygu fod hon yn ddogfen fyw ac wedi bod yn ymarferiad da iawn i weld beth sydd wedi ei gyflawni.
- Pwysleisiwyd nad oes dim newid wedi bod i’r amcanion y cynlluniau sydd wedi eu hail becynnu yn yr adran Oedolion, ond yn hytrach ei gwneud yn haws i allu creu cerrig milltir ac o ganlyniad bydd modd adrodd ar hynny.

## 12. CYNLLUN ARBEDION 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad Dafydd Gibbard.

**PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet gytuno i:

a) Cymeradwyo’r arbedion a thoriadau a restrir yn Atodiad A (£4.4M) i’w defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2024/25, a chomisiynu’r Adrannau i symud ymlaen i weithredu'r cynlluniau gan ddal sylw at y materion a amlygwyd yn yr adroddiad.
b) Gosod cyllideb gytbwys yn 2024/25, cymeradwyo gwerth y toriadau ac arbedion a restrir yn Atodiad B (£0.8M) a nodi y bydd angen camau pellach cyn gallu dod i benderfyniad terfynol i’w gweithredu, fel amlinellir yn 2.13, gan ddefnyddio arian wrth gefn i bontio'r arbedion na fydd yn cael eu cyflawni yn 24/25.

c) Gwneud darpariaeth o £0.52M i gyfarch y lefel risg sydd yn ynghlwm â gwireddu'r cynllun toriadau hwn.
d) Dirprwyo’r hawl i’r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a’r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i’r Cynllun Arbedion hwn o fewn y cyfansymiau Adrannol wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A a B ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi tristwch ei bod bellach yn arferol i orfod trafod eitem am arbedion cyn bod modd mynd i osod y gyllideb. Pwysleisiwyd o ganlyniad i’r argyfwng ariannol sydd yn wynebu awdurdodau lleol, mae’n eitem angenrheidiol. Eglurwyd fod y Cyngor yn derbyn cynnydd o 2.3% o Grant Llywodraeth Leol, ond ei fod yn sylweddol is na lefel chwyddiant ac islaw yn hyn fydd ei angen i gynnal lefel gwasanaethau presennol. Eglurwyd o ganlyniad bydd angen i’r Cyngor ymdopi a bwlch ariannol o bron i £15m.

Mynegwyd er mwyn gwneud hyn bydd angen i’r gyllideb gynnwys cyfuniad o orfod cynyddu’r dreth Cyngor a chyflawni toriadau mewn cyllidebau ar draws y Cyngor. Eglurwyd yn ôl ym mis Hydref cynhaliwyd gweithdai i holl aelodau etholedig er mwyn blaenoriaethu cynlluniau arbedion ar gyfer 2024/25. Nodwyd fod y cynigon a chyfanswm gwerth o oddeutu £8m. Cynhaliwyd asesiad effaith ar bob cynnig ynghyd ac asesiad cyfreithiol ac ariannol i sicrhau eu bod yn gynlluniau oedd posib eu cyflawni.

Casgliadau’r gweithdai oedd bod posib gweithredu oddeutu £5m o gynlluniau, a chyflwynwyd y rhestr o doriadau ac arbedion yn ddwy ran. Eglurwyd fod rhestr A yn cynnwys cynlluniau gellir symud ymlaen i'w gweithredu gan yr Adran. Amlygwyd y cynlluniau o dan y penawdau megis arbedion effeithlonrwydd, cynyddu incwm a defnyddio ffynonellau eraill i ariannu.

Nodwyd fod y rhestr B yn adlewyrchu cynlluniau sydd yn ddarostyngedig i gamau statudol neu benderfyniadau pellach cyn gellir eu cadarnhau. Amlygwyd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi craffu'r broses, ond wedi codi pryder am y lefel arian wrth gefn ar gyfer cynlluniau arbedion gan ei fod wedi gostwng o 20% i 10%. Er hyn nodwyd eu bod yn fodlon a bod y broses yn gynhwysfawr a thrylwyr.

Eglurwyd fod y grant gan y Llywodraeth am fod yn lleihau dros y blynyddoedd i ddod, a bydd angen mynd ati yn syth i gychwyn cylch newydd o arbedion, gan edrych ar sut i ymdopi ac o bosib i ail ddiffinio beth fydd y Cyngor yn gallu ei gynnig.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at yr asesiad effaith cydraddoldeb gan nodi ei fod yn edrych ar yr arbedion yn eu cyfanrwydd. Awgrymwyd efallai fod angen adroddiad pellach er mwyn gwneud yn siŵr fod cynlluniau yn eu creu gan y bydd grwpiau bregus yn cael eu taro.

## 13. CYLLIDEB 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

### PENDERFYNIAD

1) Sefydlu cyllideb o £330,590,040 ynghyd ag unrhyw arian ychwanegol a dderbynnir yn y setliad terfynol ar gyfer 2024/25 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £232,092,110, gan ychwanegu unrhyw gynnydd yn y grant a dderbynnir yn y setliad terfynol, a £98,497,930 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 9.54%).
2) Sefydlu rhaglen gyfalaf o £85,224,800 yn 2024/25 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.
3) Fod y Grant Llywodraeth ychwanegol derfynol a dderbynnir uwchlaw y £232,092,110 - a amcangyfrifir i fod oddeutu £969,000 - yn cael ei ddefnyddio i leihau'r bwlch o £2M sydd heb ei gyfarch yn ein cynlluniau ariannol yn 2024/25 ac yn gorfod cael ei gyfarch o gronfeydd am eleni fel y cyfeirir ato ym mharagraff 5.4

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi rhoi addewid o arian ychwanegol i awdurdodau Cymru o ganlyniad i arian ychwanegol sydd wedi ei ddyrannu i gynghorau Lloegr yn ddiweddar. Amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn derbyn ffigwr ychwanegol oddeutu £969,000. Yn ogystal â hyn, nodwyd fod yr adran wedi eu hysbysu ddiwedd wythnos ddiwethaf o grantiau penodol fydd yn cael eu trosglwyddo i'r setliad, a sydd hefyd yn cael effaith ar y ffigyrau terfynol. Eglurwyd y bydd y ffigyrau yn derfynol erbyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth.

Nodwyd fod y penderfyniad a geisir yn argymell i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024 y dylid sefydlu cyllideb o £331 miliwn ynghyd ag unrhyw arian ychwanegol a dderbynnir yn y setliad terfynol ar gyfer 2024/25 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £232 miliwn gan ychwanegu unrhyw gynnydd yn y grant a dderbynnir yn y setliad terfynol a £98 miliwn o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 9.54% ar dreth anheddau unigol). Yn ogystal i sefydlu rhaglen gyfalaf o £85 miliwn yn 2024/25 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

Ychwanegwyd yr amcangyfrif byddai'r Grant Llywodraeth ychwanegol derfynol oddeutu £969k yn uwch na'r hyn oedd yn y setliad drafft a bydd cyllid ychwanegol (yn y terfynol uwchlaw'r setliad drafft) yn cael ei ddefnyddio i leihau'r defnyddio o £2m o gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Pwysleisiwyd fod y gyllideb yn cael ei argymell mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu heriau ariannol sylweddol. Amlygwyd fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant ar gyfer 2024/25 a oedd ymysg yr isaf yng Nghymru. Eglurwyd nad yw'r swm yma yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, heb sôn am bwysau ychwanegol ar wasanaethau.

Tynnwyd sylw at ddarpariaeth chwyddiant cyflogau o £15.1m. Mynegwyd fod y

ffigwr hwn yn unol â'r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill. Nodwyd fod y Cyngor wedi cynllunio yn ddarbodus yn 2023/24 ar gyfer cynnydd o 6%, ond roedd y cytundeb terfynol yn uwch, ac felly o ganlyniad bydd chwyddiant cyflogau yng nghyllideb 2024/25 yn cynnwys elfen i gywiro'r bwlch yma yn ogystal ag ystyried chwyddiant tybiannol o 5% ar gyfer yr holl weithlu. Amlygwyd fod y gyllideb yn darparu ar gyfer chwyddiant arall o £6.8m, eglurwyd fod wn yn swm net sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau yn ddibynnol ar raddfa chwyddiant meysydd penodol, megis £4m yn y maes gofal.

Nodwyd fod gofyn i argymell cymeradwyo bidiau gwrth £5.1m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan yr adrannau i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau. Eglurwyd fod yr eitemau wedi eu herio yn drylwyr cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet.

I grynhoi, mynegwyd fod anghenion gwario'r Cyngor cyn tynnu arbedion ar gyfer 2024/25 yn £340m, a bod grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod oddeutu £232m. Amlyga hyn fod bwlch gweddilliol angen ei lenwi ac mae'r eitem flaenorol yn amlygu'r arbedion fydd angen ei gwneud. Nodwyd y bydd angen argymell cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor, ac i'w gynyddu o 9.54%.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid fod atodiad 10 yn amlygu fod asesiadau risg wedi ei gwneud a bod gwaith caled wedi ei wneud gan yr adran i sicrhau fod cadernid yn yr amcangyfrifon. Pwysleisiwyd fod y flwyddyn am fod yn heriol tu hwnt, ac yr her fwyaf fydd i sicrhau fod arbedion yn cael eu gwireddu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd nad oes un Cynghorydd eisiau codi treth Cyngor ond nad oes unrhyw opsiwn arall ar gael. Nodwyd fod nifer o unigolion yn barod i farnu ond hynny heb ddeall sut mae llawer o'r Cyngor yn gweithio, ac nad yw'r arian sydd yn cael ei dderbyn yn ddigonol.
- Mynegwyd mai dim ond dau opsiwn sydd ar gyfer cael cyllideb gytbwys sef i godi treth cyngor neu dorri mwy o wasanaethau, ategwyd fod y ceisio cael y balans yma yn anodd iawn.

## 14. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ECONOMI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi balchder yn gweld cynnydd mewn cynlluniau ar draws yr adran, ac yr ystod eang o wasanaethau mae'r adran yn ei gynnig. Ychwanegwyd fod y gwasanaethau yma yn holl bwysig i bobl Gwynedd a diolchwyd i'r staff am eu gwaith.

Amlygodd y Pennaeth Adran brif faterion yr adran a oedd yn cynnwys grantiau mae'r Cyngor yn gynnig i fusnesau ar draws Gwynedd fel rhan o flaenoriaeth y Cyngor - Gwynedd Lewyrchus. Eglurwyd drwy raglen ARFOR, Cronfa Trawsffurfio Trefi Llywodraeth Cymru a Chronfa Ffyniant Cyffredin gan Lywodraeth Prydain fod pecyn o wahanol gronfeydd wedi ei sefydlu. Mynegwyd fod ymateb sylweddol wedi bod i'r cronfeydd gyda gwerth ceisiadau yn £13.26m a dim ond £3.46m oedd y gyllideb. Mae'r adran yn parhau i weithio gyda'r busnesau a oedd yn aflwyddiannus i gynnig adborth a chyngor pellach.

Mynegwyd fod adferiad yn parhau i Gwmni Byw'n Iach gyda'r niferoedd sy'n ymweld yn Rhagfyr 2023 yn uwch na'r nifer ymweliadau mis Rhagfyr 2019. Eglurwyd fod y gwaith yn parhau i annog defnydd o'r canolfannau ac e bod yn gobeithio adfer y sefyllfa yn llwyr. Yn y Gwasanaeth Morwrol nodwyd fod y gwaith o uwchraddio maes parcio Dinas Dinlle yn parhau a'u bod yn gobeithio y bydd yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2024. Mynegwyd fod cynnydd o 4% yn nifer cwsmeriaid a chytundeb angorfa yn harborau'r sir a bod rhagolygon ar gyfer 2024 yn galonogol iawn. Er hyn amlygwyd fod gostyngiad yn niferoedd Hafan Pwllheli o ganlyniad i gynnydd mewn costau byw. Er hyn nodwyd fod y rhestr aros yn parhau i fod yn gryf ar hyn o bryd.

Mynegwyd fod y gwaith i uwchraddio Amgueddfa Lloyd George yn parhau a byddant yn adrodd ymhellach ar y prosiect i'r dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at gynllun Symbolau Lluniau Cyfathrebu 'Boardmaker', sy'n adnodd i deuluoedd plant nad ydynt yn gallu cyfathrebu'n llafar, ar gael bellach mewn tair llyfrgell yng Ngwynedd.

## 15. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH GORFFORAETHOL A'R GWASANAETH CYFREITHIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod am gychwyn gydag adroddiad perfformiad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Mynegwyd fod yr adroddiad yn amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd. Tynnwyd sylw at rai cynlluniau yn benodol megis Merched mewn Arweinyddiaeth. Nodwyd fod dros 40 o ferched bellach wedi bod yn dilyn y rhaglen ddatblygol gyda 33% o'r mynychwyr wedi derbyn swydd uwch ers cwblhau'r Rhaglen. Ychwanegwyd fod cynllun peilot ar droed i osgoi rhagfarn ddiarwybod a sicrhau cydraddoldeb drwy gyflwyno ffurflenni cais dienw ar gyfer swyddi lefel Arweinyddion Timau ac uwch.

Fel rhan o raglen Iaith y Cyngor amlygwyd fod y Strategaeth Iaith wedi ei fabwysiadu yn ôl ym mis Rhagfyr. Nodwyd yn sgil y gwaith ymchwil pellach ar newid enwau strydoedd mewn dwy ardal beilot, mae nifer o gymhlethdodau wedi eu hamlygu ac felly yn nid yw'n ymarferol bwrw ymlaen gyda'r agwedd yma ar hyn o bryd. O ganlyniad, eglurwyd fod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar y cynllun gosod arwyddion ar dreflannau, pontydd a ffiniau ardaloedd er mwyn cynyddu gweledEdd y prosiect.

Amlygwyd fod yr adran yn rhagweld y byddant yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Eglurwyd fod cyfuniad o resymau dros y gorwariant tebygol, megis pwysau cynyddol ar gyllideb benodol, e.e. cynnydd mewn galw ar gwnsela a diffyg cyrraedd targed incwm ar gyfer amryw o wasanaethau.

O ran y Gwasanaeth Cyfreithiol nodwyd fod yr Aelod Cabinet yn fodlon â pherfformiad yr adran o ddydd i ddydd. Pwysleisiwyd fod y sefyllfa recriwtio bellach mewn lle iach gyda staff wedi eu penodi. Eglurwyd o ran Priodoldeb fod rhaglen o seminarau am gael ei chynnal a chyff yn esbonio hanfodion penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus ynghyd a'r fframwaith cyfansoddiadol a rheoleiddio.

Nodwyd fod yr adran wedi bod yn gweithio i gefnogi Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadau er mwyn ymateb i ffiniau newydd i'r etholaethau etholiadau DU, Deddf Etholiadau 2022 a pharatoi ar gyfer newidiadau Etholiadol Senedd Cymru. Eglurwyd fod trefniadau ar gyfer etholiadau yn lle bellach gyda Chyngor Conwy a Chyngor Dinbych ble mae ffiniau etholaethau yn croesi ffiniau sirol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod gwaith wedi cychwyn i ailddechrau ar gyfer ceisio gael ardystiad lefel 2 y cynllun Hyderus o ran Anabledd, a bod gobaith y bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024. Eglurwyd fod yr adran yn uchelgeisiol ac yn awyddus i gyrraedd lefel 3.
- Amlygwyd fod Prosiect 15, sydd yn rhan o gynllun Hybu Defnydd o'r Gymraeg, fod gwaith arbennig o dda wedi ei wneud, a diolchwyd i'r unigolyn ifanc a oedd yn datblygu a creu cynnwys gwreiddio Cymraeg ar gyfer cyfryngau cymdeithasol.
- Amlygwyd fod gwaith Merched mewn Arweinyddiaeth yn arloesol ac yn cael ei amlygu yn allanol yn ogystal.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.05 y.h.

**CADEIRYDD**

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **Swyddog perthnasol:** | Delyth G Williams, Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 12fed Mawrth 2023 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Derbyn a mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn ei weithredu dros y pedair mlynedd nesaf (2024-28).

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Yn ôl y ddyletswydd penodol sydd ar fudiadau cyhoeddus Cymru fel rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, mae angen creu Cynllun Cydraddoldeb Statudol bob pedair blynedd. Fel rhan o hyn mae angen diwygio ein Amcanion Cydraddoldeb.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/Cyflwyniad**

Mae'r Cabinet eisoes wedi adnabod Sicrhau Tegwch i Bawb, sef y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fel un o flaenoriaethau'r Cyngor drwy Gynllun y Cyngor. Gan fod y Ddeddf yn gofyn am weithrediad ar gylch 4 blynedd, mae cyfnod y Cynllun presennol yn dod i ben ac mae angen un newydd.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Rydym wedi cynnal cyfnod estynedig o gasglu barn ar yr amcanion gydag amrywiaeth o bobl. Adroddwyd i chi eisoes am y cyfnod ymgysylltu rhwng Ebrill ac Awst 2023, a roddodd ystod o wybodaeth i ni ar gyfer addasu ein amcanion cydraddoldeb er mwyn creu Dogfen Ymgynghorol Amcanion Cydraddoldeb. Ar ôl i'r Cabinet gytuno i'r ddogfen gael ei ryddhau, cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori ar yr amcanion drafft. Roedd hyn yn cynnwys holiadur mewn fformatau amrywiol, gyda'r swyddogion cydraddoldeb eto'n cyfarfod gydag grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad i'w weld fel atodiad.

Yn sgil yr ymgynghoriad rydym wedi addasu'r amcanion. Mae hyn yn cynnwys symleiddio a thynhau'r geiriad. Rydym hefyd wedi ychwanegu rhai pwyntiau gweithredu ac wedi rhannu un o'r Amcanion yn ddau.

Fel y disgwylir o ddogfen o’r fath, mae’r Asesiad Effaith, sydd wedi ei ddiwygio yn sgil yr ymgynghoriad, yn dangos fod yr Amcanion yn cael effaith bositif ar bobl â nodweddion cydraddoldeb a thri nod y ddyletswydd cydraddoldeb.

Mae hefyd yn cael effaith bositif ar anfantais economaidd-gymdeithasol, rhywbeth sy’n ofynnol i ni edrych arno dan Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 2021. Mae data yn dangos fod pobl hefo rhai nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ariannol neu gael eu heffeithio’n fwy aml neu’n fwy llym gan ffactorau fel tlodi digidol neu fyw ymhell o wasanaethau. Mae’r ffaith fod yr Amcanion yn cael effaith bositif ar bobl â’r nodweddion yna felly’n golygu ein bod yn lleihau’r bwlch economaidd-gymdeithasol.

Gwelir hefyd fod yr Amcanion yn gyffredinol yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg, a bod camau penodol yn cael eu cynnig ar gyfer dileu unrhyw effaith negyddol posib.

Mae’r Asesiad Effaith hefyd yn edrych ar Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’n dangos fod yr Amcanion, a’r ffordd rydym wedi gweithredu, yn cydymffurfio gyda’r Ddyletswydd Datblygiad Cynaliadwy dan y ddeddf, gan gyfarch y 5 ffordd o weithio.

Gellir gweld mwy am y rhain i gyd yn yr Asesiad Effaith sydd wedi ei atodi.

### 3.3 Camau nesaf

Petai’r Cabinet yn derbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 byddwn yn creu Cynllun Gweithredu cynhwysfawr ar gyfer pob pwynt gweithredu o fewn yr amcanion er mwyn cychwyn ar y gwaith cyn gynted â phosib.

Byddwn yn adrodd ar y gwaith fel un o brosiectau’r Cyngor ac yn gwneud Adroddiadau Blynyddol fydd yn dod i'r Cabinet.

Mae’r asesiad effaith yn ddogfen fyw, a byddwn yn ei newid yn ôl yr angen, gyda rhai penodol yn cael eu gwneud ar bob amcan.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn cefnogi’r penderfyniad a geisir i fabwysiadu’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028. Rwyf yn gyfforddus mai cymharol isel fydd cost y cynlluniau gweithredu. Disgwyliaf y bydd modd cwrdd â’r costau hyn o fewn cyllidebau refeniw cyfredol ond os ddim, bydd angen gwneud cais am gyllid ychwanegol trwy’r trefniadau arferol.

### 4.2 Swyddog Monitro

Yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb mae angen i’r Cyngor greu Cynllun Cydraddoldeb Strategol a drwy hynny adolygu ei Amcanion Cydraddoldeb. Mae cynnal proses ymgysylltu yn cyfarch gofynion ac egwyddorion statudol ynglŷn a chynnal adolygiad . Mae’n

bwysig fod y Cabinet yn bodloni ei hyn fod yr hyn a argymhellir yn cynrychioli ymateb priodol i'r ymgynghoriad. Nid oes unrhyw beth pellach i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Rhestr Atodiadau**

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28
Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ardrawiad Economaidd-Gymdeithasol
Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

**Rhestr Dogfennau Cefndir**

Microsoft Word - 2023 Adroddiad Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb Gogledd Cymru.docx (llyw.cymru)
Microsoft Word - Dadansoddiad o'r Ymgysylltiad.docx (llyw.cymru)

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# 2024-28

## Rhagair

Mae’n bleser gen i gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2024-28.

Mae’r Cynllun yma yn cynnwys 5 Amcan Cydraddoldeb, sef y gwaith penodol fydd Cyngor Gwynedd yn ei wneud ar gyfer gwella tegwch o fewn ein mudiad. Mae’r amcanion yma’n cyffwrdd ar bob maes o fewn y Cyngor gan ein bod yn sôn am bethau fel hyfforddiant i staff ar sut i sicrhau tegwch i ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Byddwn hefyd yn edrych ar pa mor hawdd ydi hi i bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau ac yn gweithio i leihau unrhyw broblemau. Yn wir, prif fwriad y Cynllun ydi gwella ein gwasanaethau, fel eu bod yn addas ar gyfer pawb sydd yn eu defnyddio.

Rydym ni’n anelu hefyd i weithio i fod yn gyflogwr sy’n arwain ym maes cyfle cyfartal, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflogi ac yn cadw’r aelodau staff gorau ar gyfer eu swyddi.

Er mwyn creu’r Amcanion sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb yma mae gwaith trylwyr wedi ei wneud i sicrhau ein bod wedi clywed, a gwrando ar, farn y cyhoedd. Mae hyn wedi cynnwys, yn arbennig, grwpiau sydd â phrofiad bywyd o fwy gyda nodweddion cydraddoldeb ac yn ymwybodol o rwystrau sy’n codi. Bu’n bosib gwella’r amcanion yn sgil yr wybodaeth rydym wedi ei dderbyn, a hoffwn ddiolch i bawb wnaeth roi’r amser i rannu eu barn gyda ni.



M M Trenholme

Menna Trenholme
Aelod Cabinet a Chyfrifoldeb am Gydraddoldeb

# Cyflwyniad

## Beth ydi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus iawn i sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd. Pwrpas y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (y Cynllun) yma di rhoi fframwaith i ni i wella tegwch o fewn y Cyngor, a sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl eu anghenion. Cydraddoldeb ydi'r term sydd yn y ddeddf (gweler isod), ond byddai hefyd yn bosib defnyddio'r gair ecwiti. Mae'r diffiniad yma o gydraddoldeb yn golygu cydnabod bod gan bob unigolyn amgylchiadau gwahanol a dylem rannu'r union adnoddau a chyfleoedd sydd eu hangen arnyn nhw i gyrraedd canlyniad cyfartal.

Rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb yma yw'r Amcanion Cydraddoldeb. Rydym ni wedi bod yn gofyn am farn y cyhoedd dros gyfnod o rai misoedd, gan gynnwys grwpiau amrywiol ac unigolion, er mwyn gweld beth yw'r amcanion gorau allwn ni wneud ar gyfer pobl Gwynedd. Mae'r Amcanion yma wedi eu selio ar yr hyn sydd wedi ei ddweud wrthym, ond hefyd ar nifer o ffactorau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys data o ffynonellau gwahanol, cynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru a'r hyn sy'n bosib o fewn y Cyngor.

## Oes yna reswm arall i wneud Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Mae'r Cynllun yn sicrhau ein bod yn gwneud ein dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf). Bwriad y Ddeddf ydi leihau anghydraddoldeb drwy ofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i 3 nod dyletswydd cydraddoldeb y sector gyhoeddus, sef:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r ddeddf yn gwarchod pobl sydd ag un neu fwy o'r nodweddion yma (nodweddion gwarchodedig):

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

Mae'r Cynllun yn un o'r disgwyliadau dan ddyletswydd penodol y Ddeddf fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru. Mae disgwyl hefyd i ni adrodd ar ein cynnydd yn flynyddol.

Mae Ddeddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn cynnwys y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol ers 2021. Y disgwyl yw i gyrff cyhoeddus ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae mwy am hyn i'w weld yn y ddogfen yma a hefyd yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb sy'n mynd gyda fo.

**At bwy mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi ei anelu?**

Mae'r Cynllun, a'r Ddeddf, yn bwysig i bawb. Wrth siarad gyda pobl dros y misoedd diwethaf rydym ni wedi gweld fod rhai pobl heb deall fod y Ddeddf yn diogelu pawb. Mae nhw'n meddwl mai rhywbeth i bobl eraill ydi o. Ond mae'r ddeddf yn diogelu pawb gan fod gan pawb nodweddion gwarchodedig.

Wrth gwrs, mae pobl gyda rhai nodweddion yn profi mwy o rwystrau nag eraill, ac felly angen mwy o ystyriaeth wrth ddatblygu'r Cynllun ac yng ngwaith y Cyngor yn gyffredinol. Hefyd mae pobl sydd a mwy nad un o'r nodweddion yma yn cael eu heffeithio yn fwy eto (croesdoriadaeth) e.e. person ifanc anabl.

**Sut fath o sir ydi Gwynedd?**

Mae Gwynedd yn sir yng Ngogledd Cymru. Gwynedd yw’r sir mwyaf yng Nghymru heb law am Powys ond mae yn yr hanner isaf o ran poblogaeth. Mae’r 3 canolfan boblogaeth mwyaf yng Ngwynedd (Bangor, Caernarfon a Bethesda) yng ngogledd orllewin y sir, felly mae gweddill yr ardal yn wledig. Mae hyn yn ffactor sydd angen ei ystyried wrth ddarparu gwasanaethau

Yn ddiweddar, mae ein Gwasanaeth Data a Gwybodaeth wedi gwneud dogfen ddata o’r enw “Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Dogfen Ddata a Thystiolaeth” am 6 sir y Gogledd (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Dinbych Fflint a Wrecsam) ac mae’n nodi nifer o ffeithiau diddorol am boblogaeth Gwynedd.

Mae dros 51% o bobl Gwynedd yn fenywod.

Mae mwy o unigolion dan 25 yng Ngwynedd nag unrhyw sir arall yn y gogledd (28.7%). Mae'r nifer o bobl dros 65 ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer gogledd Cymru ond mae’r ganran o bobl yn yr oedran yma yn cynyddu, gyda chynnydd os 8.6% rhwng cyfrifiad 2011 a 2021, tra mae’r boblogaeth yn gyffredinol wedi lleihau (yn wahanol i ran fwyaf o Gymru).

Mae llai o bobl Gwynedd yn adnabod eu hunain fel Gwyn (96.2%) na gweddill siroedd y gogledd heb law am Wrecsam (96%). Roedd 66.6% yn nodi eu bod wedi eu geni yng Nghymru (mwy na’r siroedd eraill heb law am Wrecsam ac yn debyg i Ynys Môn). Mae 59% yn nodi eu bod yn uniaethu fel person Cymraeg, rhai pwyntiau canran yn uwch na gweddill y siroedd.

Mae 46.2% o bobl Gwynedd yn adnabod eu hunain fel Cristnogion, ac mae hynny'r canran isaf yng Ngogledd Cymru. Dywedodd 44.2% fod ganddyn nhw ddim crefydd, sef y canran uchaf yn y gogledd. Roedd y canran wnaeth ddim ateb hefyd yr uchaf yn y rhanbarth, sef 7.5%. Mae 1% o'r boblogaeth yn Foslemiaid.

Mae llai o bobl yng Ngwynedd yn adnabod eu hunain fel heterorywiol neu strêt nag unrhyw un o siroedd y Gogledd (87.3% - cyfartaledd y gogledd 89.4%). Mae yna fwy o bobl gyda'r hunaniaeth Deurywiol (1.6% - canran y gogledd 1%) a heb ateb y cwestiwn (9.4%) nag yn unrhyw sir arall yn y rhanbarth. Mae'r nifer sydd wedi adnabod eu hunain yn Hoyw neu Lesbiaidd yn debyg i’r chanran yn y gogledd (1.3%).

Mae bron i 1 person ym mhob 5 (19%) yn adnabod eu hunain fel person anabl ac mae bron i 10% yn fwy o ferched na dynion yn anabl.  Mae 74% o bobl Gwynedd sydd ddim yn anabl mewn gwaith o'i gymharu â 43% o bobl anabl, ffigwr tebyg i weddill Cymru.

Mae 91.7% o bobl yng Ngwynedd yn dweud fod eu hunaniaeth rhywedd yr un rhyw a'r un gofrestrwyd ar eu genedigaeth.  Mae hyn yn llai nag unrhyw sir yng ngogledd Cymru (92.8% yw canran y gogledd). Mae yna fwy heb ateb y cwestiwn (8% - canran y gogledd 6.9%) ac mae'r cyfradd sydd â hunaniaeth dyn traws, dynes traws a bob rhyw arall yr un faint â'r gogledd (0.1% yr un).

Mae canran uwch o bobl yng Ngwynedd sydd erioed wedi priodi neu fod mewn partneriaeth sifil (40%) nag yng ngweddill siroedd y gogledd.  Felly mae yna lai o bobl sy'n briod (41.5%), wedi gwahanu (1.7%) neu wedi ysgaru neu â phartneriaeth sifil wedi ei ddiddymu (9.2%).

Roedd 977 genedigaeth byw yng Ngwynedd yn 2022, i lawr o 1039 yn 2021

Mae 64.5% o bobl Gwynedd (tair mlynedd oed neu hŷn) yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg, sef 73,600.  Mae hynny yr uchaf yng Nghymru o ran nifer a chanran.

Roedd 13% o bobl yn byw mewn aelwyd mewn amddifadedd materol yn 2021/22, tra roedd y ffigwr yng Nghymru yn 11%.

## Ein Amcanion Cydraddoldeb

Mae'n ofynnol i ni fel Cyngor i addasu ein amcanion bob 4 blynedd. Rydym yn adnabod fod gwaith cydraddoldeb yn waith hir-dymor ac felly rydym ni'n adeiladu ar y gwaith yn Nghynllun 2020-24. Ein tasg oedd ystyried ein amcanon ar gyfer 2020-24 a'r cynnydd rydym wedi ei wneud arnynt er mwyn creu amcanion 2024-28, fydd yn gam arall ar y daith.

Rydym ni hefyd wedi gwneud ymarferiad casglu barn dros nifer o fisoedd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried barn pobl Gwynedd. Mae mwy ar hyn yn y dogfennau Dadansoddiad ar yr Ymgysylltiad[1] a Dadansoddiad ar yr Ymgynghoriad

Yn ogystal rydym ni wedi defnyddio data i benderfynu ar yr hyn sydd angen ein wneud. Mae'r data wedi dod yn bennaf o'r ddogfen "Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Dogfen Ddata a Thystiolaeth"[2] gan ein Gwasanaeth Data a Gwybodaeth. Mae'r ddogfen yma yn casglu data o ffynonellau amrywiol. Daeth gwybodaeth bellach o Gynlluniau Gweithredu Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi defnyddio gwybodaeth mewnol y Cyngor i adnabod beth sydd angen ei wneud a beth sy'n bosib.

Mae mwy o wybodaeth am pam rydym ni wedi penderfynu ar yr amcanion i'w gweld ar dudalen 21.

Mae gennym ni 5 amcan ar gyfer 2024-28 Mae un o'r amcanion yna, sef Amcan 1, ar gyflogaeth ac yn cynnwys pwyntiau gweithredu ar y bwlch tâl, fel mae'r ddyletswydd benodol yn gofyn i ni ei wneud.

Mae'r ddyletswydd benodol hefyd yn gofyn i ni gael amcanion ar bob nodwedd warchodedig. Ein penderfyniad ni yw gwneud amcanion thematig, ac mae pob amcan yn gweithio tuag at gydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn atal dyblygu ac yn ei gwneud yn haws i adnabod ffactorau sy'n dod o groesdoriadaeth (sef y rhwystrau ychwanegol mae pobl hefo mwy nag un nodwedd yn ei wynebu).

---

[1] Microsoft Word - Dadansoddiad o'r Ymgysylltiad.docx (llyw.cymru)

[2] Microsoft Word - 2023 Adroddiad Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb Gogledd Cymru.docx (llyw.cymru)

## Amcan 1 - Cyflogaeth: Gweithredu i wella cydraddoldeb y gweithle

| | Pwyntiau Gweithredu | Deilliant | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Sefydlu fforwm / fforymau staff sydd er mwyn trafod materion cydraddoldeb, fel fod ein gweithwyr yn gallu cyfrannu i'r maes o fewn y Cyngor. | Staff wedi cychwyn cyfrannu i ddatblygiadau.<br><br>Staff yn parhau i gyfrannu | Mawrth 2025<br><br>Parhaol |
| 1.2 | Adolygu sut rydym yn cyfathrebu â staff fel bod gwybodaeth yn hygyrch ac yn ddealladwy i bawb; derbyniwyd adborth gan gorff allanol fod ein dogfennau yn rhy drwsgl a swyddogol. | Gwybodaeth, gan gynnwys polisïau cyflogaeth, sydd yn hawdd eu deall a'u cyrraedd. | 2024/26 |
| 1.3 | Gosod y nod o weithio tuag at fod yn gyflogwr blaenllaw yn y maes hwn, gan gynnwys rhoi sylw i'r meysydd canlynol:<br>• Peidio rhoi gofynion sydd ddim yn angenrheidiol yn ein swydd ddisgrifiadau wrth hysbysebu swyddi er mwyn rhoi cyfle i gymaint o bobl â phosib i ymgeisio.<br>• Sut a ble rydym yn hysbysebu swyddi.<br>• Ein delwedd fel cyflogwr yn ein cymunedau – bod yn rhagweithiol wrth geisio denu pobl o bob rhan o gymdeithas i weithio i Gyngor Gwynedd.<br><br>Mae cyswllt cryf rhwng ein cynlluniau yn y cam hwn ag un arall o flaenoriaethau | Parhau i fod yn aelod o gynllun Hyderus o ran Anabledd, gan weithio i gyrraedd y lefel uchaf (Lefel 3) yn y fframwaith.<br><br>Gweithio i gael ein cydnabod fel cyflogwr blaenllaw yn y maes eang hwn, ar gyfer pob nodwedd cydraddoldeb. | Mawrth 2026<br><br>Parhaus – dros gyfnod y cynllun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | corfforaethol y Cyngor, sef ein prosiect ar Gynllunio'r Gweithlu. | | |
| 1.4 | Parhau i gymryd camau i ddatblygu ymwybyddiaeth rheolwyr a staff o'r maes hwn yn llawn, gan gynnwys cydraddoldeb, cynhwysiant, niwroamrywiaeth, aflonyddu rhywiol, parch ac urddas yn y gweithle. | Rheolwyr a staff yn ymwybodol o faterion cydraddoldeb a chynhwysiant, yn gwybod lle i gael mynediad i gyngor ar wahanol agweddau ac yn defnyddio'r wybodaeth honno yn eu timau fel bo'r angen. | Parhaus – dros gyfnod y cynllun |
| 1.5 | Edrych ar y ffordd rydym yn esbonio ac yn cyfathrebu yr anghenion ieithyddol wrth hysbysebu swyddi. Mae hyn er mwyn gwella dealltwriaeth darpar ymgeiswyr a'r cyhoedd am yr angen am sgiliau yn y Gymraeg ac am gyfrifoldebau statudol y Cyngor i baratoi gwasanaethau dwyieithog. | Llai o gwynion am y polisi recriwtio a gwahaniaethu a gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o'r anghenion ieithyddol ar gyfer swyddi. | 2024/27 |
| 1.6 | Cynnal archwiliad bwlch tâl yn flynyddol, gan ystyried pa gamau i'w cymryd i geisio cau'r bwlch. Cyrraedd sefyllfa lle rydym yn gallu cynnal archwiliad bwlch tâl ar sail anabledd a hil hefyd. | Archwiliad wedi ei gwblhau ac yn bwydo i drafodaeth ar gamau gweithredu. | Blynyddol |
| 1.7 | Cynnal archwiliad cyflog cyfartal pob tair mlynedd | Archwiliad wedi ei gwblhau | 2025/26 |
| 1.8 | Parhau i geisio gwella'r data am nodweddion gwarchodedig sydd yn cael ei rannu â ni gan ein staff, fel sail wedyn i gymryd | Y nifer o staff sydd yn rhannu gwybodaeth â ni yn cynyddu, gan felly gryfhau'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu. | Cynnydd blynyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | penderfyniadau yn y maes pwysig hwn. | | |

**Be ydi'r gwahaniaeth rydym ni'n disgwyl ei wneud erbyn diwedd y cyfnod?**

Byddwn wedi sefydlu camau lle y gall staff gymryd rhan a chynnig syniadau ar sut y gall Cyngor Gwynedd fel cyflogwr wella pethau ar gyfer pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn cymryd camau ymarferol i ddatblygu ein delwedd fel cyflogwr i bobl sydd â nodweddion cydraddoldeb, ac yn anelu i fod yn flaenllaw yn y maes. Byddwn hefyd yn sicrhau fod gan ein rheolwyr a staff fynediad at wybodaeth i'w cynorthwyo wrth ymdrin â materion cyflogaeth sydd yn gysylltiedig â'r maes.

## Amcan 2 - Gwybodaeth: Gwella ein data am bobl â nodweddion cydraddoldeb

| | Pwyntiau Gweithredu | Deilliant | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Diweddaru ein trefn ymgysylltu er mwyn osgoi dyblygu, drwy greu ffordd gwell o weithio a rhannu canlyniadau.<br>Hefyd cryfhau amrywiaeth o fewn y Panel Trigolion. | Grwp Ymgysylltu Cyngor Gwynedd i edrych ar y drefn Gweithredu fel sydd angen<br>Gwella amrywiaeth ein Panel Trigolion | 2024-25<br><br>Parhaol<br>2024-25 |
| 2.2 | Creu trefn haws a mwy hygyrch o gadw ein data cydraddoldeb. Y bwriad yw ei wneud yn haws i'w ddefnyddio wrth newid polisïau a chreu cynlluniau. | Cael trefn electroneg yn ei le<br>Cadw'r wybodaeth yn gyfredol | 2024-26<br>Parhaol |
| 2.3 | Gwella a diweddaru'r data sydd gennym ar Wynedd yn y ddogfen Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru, gan lenwi unrhyw fylchau os yw hynny yn bosib. | Diweddaru'r data fel sy'n addas | Parhaol |
| 2.4 | Adnabod unrhyw fylchau yn yr wybodaeth rydym ni yn ei gasglu am ddefnyddwyr gwasanaethau gofal ac yna gweithio i'w llenwi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn casglu data mor gyflawn â phosib | System gofnodi addas wedi ei osod yn ei le i'w gwneud yn haws i lenwi data cydraddoldeb pan fo'r unigolyn yn hapus i'w rannu.<br><br>Casglu a llenwi data cydraddoldeb yr achosion hynny sydd eisoes ar ein system gofnodi, lle'n bosib a gyda chaniatâd y defnyddiwr | Medi 2024<br><br><br><br>Parhaol |

**Be ydi'r gwahaniaeth ryda ni'n bwriadu ei wneud erbyn diwedd y cyfnod?**

Rydym ni'n bwriadu gwella'r data sydd gennym er mwyn ei ddefnyddio wrth greu neu newid polisi neu ffordd o weithio, a rhoi gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd gennym ni fewnbwn addas gan bobl â nodweddion cydraddoldeb heb eu llethu drwy eu holi'n aml. Mae'n bwysig bod â throsolwg a dealltwriaeth glir o'r prif broblemau sy'n wynebu'r bobl â nodwedd warchodedig wahanol.

## Amcan 3: Systemau: Sicrhau fod y Cyngor yn fudiad wrth-wahaniaethol trwy wella ein trefniadau mewnol

| | Pwyntiau Gweithredu | Deilliant | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Parhau gyda'r fframwaith hyfforddiant i rhoi'r adnoddau a'r hyder i'n staff ar bob lefel o ferwn y Cyngor i barchu amrywiaeth a delio ag ystod o anghenion yn addas. Sicrhau fod y fframwaith hyfforddiant yn cael ei ymestyn i gynnwys amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb / pynciau eang. | Hyfforddiant ar Anabledd, Parch ac Urddas, a Gwrth-hiliaeth.<br><br>Symud i edrych ar faterion nodweddion cydraddoldeb eraill a phenderfynu a threfnu'r pynciau angenrheidiol. | 2024-2025<br><br>Parhaol |
| 3.2 | Codi ymwybyddiaeth staff ar bob lefel yn y Cyngor o'r drefn Asesiad Effaith Cydraddoldeb newydd (gweler tud 27) a rhoi cefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant i sicrhau safon y gwaith. | Hyfforddiant mewn lle<br><br>Codi ymwybyddiaeth a rhoi cymorth | 2024-2025<br><br>Parhaol |
| 3.3 | Gwneud ein gwefan yn fwy hygyrch drwy greu cynllun gweithredu a gweithredu arno. Bydd hyn yn cynnwys gweithio tuag at gael gwared ar y defnydd o ddogfennau PDF. | Cynllun gweithredu yn ei le<br><br>Gweithredu | 2024-25<br><br>Parhaol |
| 3.4 | Parhau i weithio i leihau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Parhau i weithredu yn unol â'n cynllun gweithredu ar gyfer y cynllun Rhuban Gwyn | Parhaol |

**Be ydi'r gwahaniaeth ryda ni'n ei wneud?**

Ein bwriad yma yw sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn ystyried pob nodwedd cydraddoldeb a fod ein staff yn deall ac yn derbyn eu cyfrifoldebau yn y maes. Byddwn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o hawliau ac anghenion pobl ag amrywiol nodweddion drwy greu amrywiaeth o deitlau hyfforddiant. Yn ogystal, fod ystyriaeth o nodweddion cydraddoldeb yn cael y lle mae'n haeddu wrth greu a newid polisïau a ffyrdd o weithio trwy ein trefn Asesu Effaith Cydraddoldeb. Byddwn yn sicrhau fod pobl yn derbyn yr wybodaeth mae nhw ei angen drwy wneud ein gwefan yn haws i'w ddefnyddio. Bydd hyrwyddo'r cynllun Rhuban Gwyn hefyd yn rhoi cymorth i staff ddeall eu cyfrifoldeb yn y maes.

## Amcan 4 - Gwasanaethau: Sicrhau cydraddoldeb o fewn ein gwaith bob dydd

| | Pwyntiau Gweithredu | Deilliant | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Archwilio pa mor hygyrch ydi gwasanaethu'r Cyngor, wedyn creu cynllun gweithredu a gweithredu arno | Archwilio a chynllun gweithredu<br><br>Gweithredu | 2024-26<br><br>Cyfnod y cynllun |
| 4.2 | Bydd Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn cefnogi cymunedau Gwynedd:<br><br>• Drwy ddarparu rhaglenni cynhwysol ar gyfer ein cymunedau amrywiol, boed yn arddangosfa, gweithgaredd, digwyddiadau, cyfleoedd hyrwyddo, prosiect a grantiau | Cynllunio rhaglenni gwaith gydag amcanion yn rhan ohonynt .<br><br>Adrodd ar y niferoedd o gyfleoedd ac ar yr adborth ohonynt<br><br>Creu system i gofnodi y gwelliannau | Parhaol<br><br>Parhaol<br><br>Mawrth 2024 |
| | • Sicrhau fod y naratif yn ein amgueddfeydd yn addas (gwrth-hiliol ayb) a fod straeon pobl a nodweddion penodol yn cael eu clywed | Sicrhau bod cynllunio arddangosfeydd newydd a diweddaru eraill mewn modd cynhwysol; derbyn hyfforddiant a mentora; gwaith ymgynghori ac ymchwil. (Rhai elfennau efo dyddiad targed penodol fel cynllun Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i ail ddehongli stori. Angen grant i wireddu rhai eraill). | Parhaol ac wedi integreiddio i'r rhaglen waith.<br><br>Amgueddfa Lloyd George - Rhagfyr 2024<br><br>Storiel - 2028. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Gweithio gyda chymunedau pobl â nodweddion cydraddoldeb i gael gwared ar rwystrau i ddefnyddio ein hamgueddfeydd ac orielau | Adborth drwy ymgysylltu, boddhad cwsmer, ymateb i gwynion, hyfforddiant staff gan gofnodi, adnabod a lleihau rhwystrau. Angen system i gasglu'r adborth.<br><br>Ymgysylltu penodol gyda cynllun ail ddehongli Amgueddfa Lloyd George<br><br>Camau gweithredu i godi o'r adborth a gosod amserlen Bydd angen ymgysylltu pellach gydag ail ddehongli orielau hanes Storiel<br><br>Asesiadau pellach i'w trefnu | Trefniadau casglu adborth erbyn Mawrth 2024<br><br>Parhaol ac wedi integreiddio i'r rhaglen waith<br><br>Erbyn Rhagfyr 2024<br><br>Rhwng 2024-2028 |
| 4.3 | Parhau i weithio i sicrhau fod trafnidiaeth cyhoeddus yn fwy hygyrch | Casglu gwybodaeth am anghenion gwahanol grwpiau<br><br>Cydweithio gyda rhan-ddeiliad eraill fel gweithredwyr, Trafnidiaeth i Gymru a Llywodraeth Cymru. | Parhaol<br><br>Parhaol |
| 4.4 | Gwasanaethau yr Adran Tai ac Eiddo.<br>• Cyflawni gweithgareddau'r Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd sydd gyda'r nod o "Sicrhau bod gan bobl | • Cynyddu'r cyfleoedd i holl drigolion y sir gael mynediad at llety addas. Gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n nadu pobl Gwynedd rhag darganfod a | Rhwng 2024-2028 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". | byw mewn llety sy'n cwrdd â'u hanghenion.<br>• Ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu y gwir alw am wahanol fathau o gartrefi er mwyn hwyluso'r broses o gomisiynu cynlluniau newydd.<br>• Gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gynyddu'r nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael yng Ngwynedd drwy gynlluniau adeiladu, atgyweirio tai a mynediad i dai rhent.<br>• Sicrhau fod tai Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd ac yn cynnig manteision effeithlonrwydd ynni i breswylwyr. | |
| | • Sefydlu Siop Un Stop a fydd yn gyfundrefn newydd sydd yn gallu ymateb i anghenion trigolion wrth gyflwyno ceisiadau yn ymwneud â thai mewn un lle canolog. | • Swyddogion y Cyngor yn gallu asesu anghenion y cwsmer gan gyfeirio un ymholiad at nifer o unedau gwahanol yn ddibynnol ar ba gymorth gall y Cyngor ei gynnig.<br>• Hwyluso'r broses o gyflwyno ceisiadau ar gyfer Tai Cymdeithasol a gwella mynediad at y gwasanaeth.<br>• Sefydlu SPOA (un pwynt cyswllt) i symleiddio'r broses Grant Cymorth Tai gan gyfeirio unigolion i'r gwasanaethau a | 2024 ymlaen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddarparwyr sydd yn cyfarch eu hanghenion. | |

**Be ydi'r gwahaniaeth ryda ni'n ei wneud?**

Byddwn yn edrych ar ba mor hygyrch yw ein gwasanaethau i bawb ac yn gweithio i leihau unrhyw rwystrau.  Yn ogystal bydd ein Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn adeiladau ar hyn sydd yn ei le yn barod i ddarparu i gymunedau gael cyfrannu eu lleisiau i'r naratif yn ein amgueddfeydd, yn cael mwy o gyfleoedd, llai o rwystrau ac yn gallu cyfranogi fwy fwy yn eu diwylliant gan gael mwynhad, dysgu a gwelliannau iechyd a llesiant.  Mae pobl wedi dweud wrthym pa mor bwysig yw tai a thrafnidiaeth ar gyfer pobl gyda nodweddion cydraddoldeb penodol a'r rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae gennym ni bwyntiau gweithredu yn y meysydd yma hefyd er mwyn gwella safonau byw pobl.

## Amcan 5:  Ysgolion: Gwella cydraddoldeb o fewn maes addysg

| | Pwyntiau Gweithredu | Deilliant | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Casglu, dadansoddi a gweithredu ar ddata yn ymwneud ag achosion o fwlio a throseddau casineb:<br><br>• Adnabod anghenion hyfforddiant i staff ysgolion drwy ddadansoddi data/tueddiadau o fwlio sydd yn cael eu hadrodd gan ysgolion.<br>• Cydweithio gyda swyddogion lles, gwasanaeth ieuenctid, yr heddlu ac asiantaethau eraill i ymateb i ganfyddiadau / tueddiadau o fwlio trwy ddarparu hyfforddiant a gwaith ataliol i staff yr ysgolion. | • Ysgolion Gwynedd yn adrodd yn electroneg yn dymhorol (3 gwaith y flwyddyn) ar achosion yn ymwneud â bwlio.<br>• Adran addysg yn dadansoddi'r data yn dymhorol gan ddefnyddio canfyddiadau i lunio cynllun / arlwy hyfforddiant. | Sefydlu yn Ionawr 2024 ac yn weithredol yn dymhorol |
| 5.2 | Adnabod y gwir gost ariannol ac emosiynol o fynychu'r ysgol i blant Gwynedd gan leihau costau a rhwystrau at addysg a gweithredu ystod o ymyraethau Iechyd Meddwl a Llesiant<br>er  mwyn cefnogi dysgwyr, beth bynnag eu cefndir a nodweddion gwarchodedig. | • Creu a rhannu holiaduron gyda, Penaethiaid, Llywodraethwyr, Staff a disgyblion ysgolion i adnabod y gwir gost o fynychu ysgol.<br>• Ysgolion yn derbyn adroddiad am ganfyddiadau eu hysgol er mwyn iddynt addasu polisïau a gweithdrefnau i gefnogi teuluoedd.<br>• Adran Addysg yn cefnogi ysgolion i addasu trefniadau a gweithdrefnau ysgolion drwy greu adnodd | Tachwedd 2023<br><br>Ionawr 2024<br><br>2024 ymlaen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | i gefnogi teuluoedd yn y gymuned. | |
| 5.3 | Adnabod, monitro a gweithredu i wella presenoldeb, prydlondeb a chyrhaeddiad grwpiau o ddisgyblion megis; plant sy’n gymwys am ginio am ddim, plant mewn gofal, absenoldebau parhaus, anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau amrywiol eraill fel mae’r data yn ei amlygu. | • Presenoldeb yn cael ei hyrwyddo a’i fonitro ar draws ysgolion Gwynedd yn wythnosol.<br>• Targed 95% yn cael ei weithredu ar draws ysgolion Gwynedd.<br>• Data presenoldeb (gan gynnwys grwpiau amrywiol) yn cael ei ddadansoddi er mwyn adnabod a gweithredu ar agweddau i’w datblygu. | Tachwedd 2023 ac yn barhaol<br><br>Yn barhaus<br><br>Yn barhaus |
| 5.4 | Sefydlu trefniadau effeithiol i dderbyn mewnbwn plant a phobl ifanc, drwy gynghorau a fforymau ysgol, gan sicrhau gweithredu ar lais y disgybl, beth bynnag ei nodweddion gwarchodedig a’i anghenion. | • Fforwm Ieuenctid Gwynedd wedi ei sefydlu er mwyn derbyn mewnbwn plant a phobl ifanc ar draws ysgolion Gwynedd, beth bynnag eu nodweddion gwarchodedig ai anghenion gael ei ystyried ar lefel wleidyddol a chorfforaethol yr awdurdod | 2024 ymlaen |

**Be ydi’r gwahaniaeth ryda ni’n ei wneud?**

Ein bwriad yw sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i’r holl ddisgyblion, staff rhieni a gofalwyr sy’n derbyn gwasanaethau o’n hysgolion, waeth beth bynnag ei nodweddion gwarchodedig a’u anghenion. Wrth wella cydraddoldeb o fewn addysg byddwn yn datblygu diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth lle mae pob disgybl sy’n gysylltiedig ag ysgolion Gwynedd yn teimlo’n falch o’u hunaniaeth ac yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd ysgol. Bydd cyflawniad disgyblion yn cael ei fonitro a byddwn yn defnyddio’r data i gefnogi’r disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hwyluso a chefnogi ysgolion i hyrwyddo

cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio a stereoteipiau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yng Ngwynedd credwn fod amrywiaeth yn gryfder, a ddylai gael ei barchu a'i ddathlu gan bawb o fewn a thu allan i'r ysgolion.

## Pam wnaethom ni ddewis yr Amcanion yma?

Yn yr wybodaeth isod rydym yn siarad am ddau gyfnod o ganfod barn. Digwyddodd yr ymgysylltiad[3] rhwng Ebrill a Gorffennaf, cyn i ni wneud unrhyw benderfyniad. Roedd yr ymgynghoriad (o ddiwedd Hydref i ganol Chwefror) yn canfod barn y cyhoedd ar yr amcanion drafft â ffurfiwyd ar ôl yr ymgysylltiad a gallwch weld mwy o wybodaeth yma. Mae'r data sy'n cael ei ddefnyddio wedi dod o'r ddogfen "Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Dogfen Ddata a Thystiolaeth"[4] sydd wedi casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau. Ceir dadansoddiad pellach o'r effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn yr Asesiad Effaith.

### Amcan 1: Cyflogaeth

Roedd dwy amcan yng Nghynllun 2020-24 am gyflogaeth, sef gwella amrywiaeth ein gweithlu a lleihau bylchau tâl. Tro hyn rydym ni wedi penderfynu dod a hwy at eu gilydd gan fod gwaith wedi digwydd arnynt eisoes.

Yn yr ymgysylltiad wnaethom ni ddim gofyn i bobl fynegi barn ar yr angen i gynnwys yr amcan ar bylchau tâl oherwydd fod o'n bwnc sy'n rhaid i ni ei gynnwys. Ond wrth siarad gyda phobl yn y cyfarfodydd roedd yn amlwg fod cefnogaeth i'r amcan. Felly hefyd yr amcan ar amrywiaeth ein gweithlu gyda 62.1% o blaid ei gynnwys yn 2024-28.

Yn yr ymgynghoriad roedd cefnogaeth dda i'r amcan yma gydag 85% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol gyda'r amcan. Roedd rhai yn bryderus gyda'r pwyntiau'n ymwneud â gwella amrywiaeth ein gweithlu gan feddwl y bydd yn ymarfer ticio bocsys ac na fyddwn yn dewis y person gorau i'r swydd. Mae'r gwrthwyneb yn wir. Ein bwriad ydi denu mwy o bobl i geisio am unrhyw swydd, er mwyn cael y dewis gorau o ymgeiswyr. Nid oes unrhyw fwriad i osod targedau na penodi pobl ar sail eu nodweddion cydraddoldeb.

Mae ein data mewnol yn annigonol ar hyn o bryd i ddangos bylchau tâl, heblaw am yr un rhwng y rhywiau, ac mae gwella'r data yna yn pwyntiau gweithredu. Wrth siarad am Gymru yn ei gyfanrwydd, nid oes data wedi ei ganfod ar bob nodwedd, ond mae'n dangos fod bylchau tâl yn bodoli ar sail rhyw ac anabledd. Mae data hefyd yn dangos fod rhai carfannau o bobl yn llai tebygol

[3] Microsoft Word - Dadansoddiad o'r Ymgysylltiad.docx (llyw.cymru)

[4] Microsoft Word - 2023 Adroddiad Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb Gogledd Cymru.docx (llyw.cymru)

o fod mewn gwaith e.e. pobl anabl a phobl o rai grwpiau lleiafrif ethnig ac mae'r amcan yma yn gweithio tuag at gael gwared â rhwystrau.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol a'r Cynllun Gweithredu LGDTC+ Llywodraeth Cymru yn nodi'r angen am weithredu ar gyflogaeth ond ein penderfyniad oedd gweithredu ar bob nodwedd.

Mae'r Amcan yma'n gweithredu'n bositif ar anfantais Economaidd Cymdeithasol drwy sicrhau fod grwpiau sy'n cael tal is, neu yn cael hi'n anodd i gael gwaith, yn cael eu hannog i ymgeisio ac i gadw swyddi.

Mae'r amcan lleol yma yn bwydo i mewn i "Amcan 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn lleihau bylchau cyflog", amcanion cydraddoldeb Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSGGC).

**Amcan 2: Gwybodaeth**

Roedd 61.3% o bobl yn teimlo fod ymgysylltu yn faes pwysig yn ôl yr ymgysylltiad.

Yn yr ymgynghoriad roedd cefnogaeth i'r Amcan yma , gyda 76% yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol. Roedd gan rai bryder am breifatrwydd a chyfrinachedd. Mae'r rhan fwyaf o'r data rydym yn gasglu yn dod o ffynonellau eraill ac felly'n ystadegol ei natur ac mae'r rhan fwyaf o'n ymgynghoriadau yn ddi-enw. Nid ydym yn mynnu fod unrhyw un yn datgelu manylion eu nodweddion gwarchodedig a pan rydym yn ei dderbyn yr wybodaeth yna mae'n cael ei gadw mewn modd cyfrinachol gyda mesurau diogelwch priodol a mynediad wedi ei gyfyngu'n gaeth.

Wrth gasglu data roedd yn amlwg fod diffyg gwybodaeth lleol am nifer o nodweddion gwarchodedig. Mae'n debyg fod hyn yn rhannol oherwydd y niferoedd isel. Mae'n amlwg hefyd fod llawer o ymgynghoriadau'n digwydd a fod angen gwella ein ffyrdd o weithredu. Rydym ni'n awyddus i wneud yn siŵr ein bod yn rhannu unrhyw negeseuon rydym yn gael am faterion cydraddoldeb fel ein bod yn gweithredu ar rwystrau ac yn lleihau dyblygu

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol a'r Cynllun Gweithredu LGDTC+ yn nodi'r angen am weithredu yn y maes yma hefyd ac mae'r llywodraeth wedi sefydlu trefniadau ar gyfer gwneud hynny. Mae'r cynlluniau yn gofyn i ni fel mudiadau cyhoeddus i sicrhau ein bod yn casglu data, yn arbennig ym meysydd

Addysg, Gofal Cymdeithasol, a Chyflogaeth. Mae ein amcanion eraill hefyd yn cynnwys materion sy'n berthnasol i'r cynlluniau gweithredu yma.

Mae'r Amcan yma hefyd yn cyd-fynd ag Amcan 6 RhCSGGC sef Cynyddu mynediad i ymgynghori a gwella amrywiaeth o fewn penderfyniadau.

**Amcan 3: Systemau**

Roedd 67.3% yn teimlo fod angen cadw hyfforddiant yn y cynllun yn ôl yr ymgysylltiad. Roedd 57.6%o bobl yn teimlo fod asesu effaith yn bwysig.

Roedd hwn ac amcan 4 yn un amcan yn yr ymgynghoriad. Roedd cefnogaeth gref iddynt gyda 84% yn cytuno neu gytuno yn rhannol. Roedd rhai yn pryderu y byddai rhoi hyfforddiant yn rhy gostus yn ariannol ac mewn amser staff. Rydym yn teimlo fod hyfforddiant yn greiddiol er mwyn i aelodau staff gael dealltwriaeth lawn o anghenion gwahanol grwpiau.

Rydym yn cytuno fod yr rhain yn faterion sydd angen sylw, ond gan eu bod wedi cael ystyriaeth yn ystod cyfnod y Cynllun presennol, rydym wedi penderfynu eu cynnwys fel pwyntiau gweithredu o fewn yr amcan yma y tro hyn.

Mae gwella hygyrchedd y wefan yn deillio yn rhannol o'r Cynllun Cydraddoldeb Cymru Gwrth-Hiliol ond rydym ni wedi penderfynu eu ehangu i gynnwys nodweddion eraill gan fod hyn am fod yn bwysig i garfannau eraill hefyd, ac yn rhoi gwell mynediad at wybodaeth.

Mae'r Amcan yma hefyd yn cynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ein prif resymau am gynnwys y rhain ydi ein bod wedi adnabod fod hyn yn faes pwysig ac yn gweithredu ar y cynllun Rhuban Gwyn yn barod, a hefyd ei fod yn fater wedi ei godi yn yr ymgynghoriad.

Wrth wella ein trefniadau mewnol rydym ni'n gwella pethau ar gyfer pobl â nodweddion cydraddoldeb ac felly mae'n cyd-fynd ag Amcan 3 RhCSGGC – Byddwn yn gweithredu i wella Safonau Byw pobl sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig. Hefyd Amcan 6 sef Cynyddu mynediad i ymgynghori a gwella amrywiaeth o fewn penderfyniadau ac Amcan 5 – Byddwn yn wella Diogelwch Personol a Mynediad at Gyfiawnder.

**Amcan 4:**

Roedd galw cryf i ni edrych ar faterion hygyrchedd, yn arbennig ar gyfer pobl anabl, yn yr atebion i'r ymgysylltiad, gyda chefnogaeth pellach yn y ymgynghoriad. Roedd Amcan 3 a’r amcan yma yn un amcan yn yr ymgynghoriad – rydym erbyn hyn wedi penderfynu eu rhannu. Fel y nodwyd yn Amcan 3 roedd cefnogaeth gref i’r amcan yma gyda 84% yn cytuno neu gytuno yn rhannol.

Mae’r pwyntiau gweithredu yma’n edrych ar hygyrchedd yn y ffordd mwyaf eang posib, gan gynnwys materion fel mynediad at wybodaeth, a godwyd yn yr ymarferiadau casglu barn. Bydd hefyd yn cynnwys gwasanaethau eraill oedd wedi eu crybwyll, fel casglu sbwriel a thoiledau.

Mae’r pwynt gweithredu ar amgueddfeydd yn deillio o wybodaeth yng Nghynllun Cydraddoldeb Cymru Gwrth-Hiliol ond rydym ni wedi penderfynu eu ehangu i gynnwys nodweddion eraill hefyd. Roedd rhai pobl yn bryderus am y pwynt gweithredu yma, rhag ofn ein bod am geisio newid hanes a dileu yr hyn oedd wedi digwydd. Ond ein bwriad yma yw rhoi darlun llawnach o hanes, gan gynnwys straeon pobl sydd heb eu clywed eisoes.

Yn sgil yr ymgynghoriad rydym hefyd wedi ychwanegu dau bwynt gweithredu am Drafnidiaeth ac am Dai. Mae’r cyntaf yn bwysig oherwydd ei fod yn greiddiol i safonau byw pobl, yn enwedig rhai yn byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol, ac i nifer o garfannau eraill sydd ddim â mynediad at gar. Bwriad y ail hefyd yw gweithredu ar yr anfantais economaidd-gymdeithasol y mae ystadegau’n dangos fod pobl â rhai nodweddion gwarchodedig yn eu profi.

Mae’r Amcan yma yn ymateb i bwyntiau gweithredu amcanion RhCSGGC sef Amcan 3 – Byddwn yn gweithredu i wella Safonau Byw pobl sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig ac Amcan 4 – Byddwn yn gwella deilliannau Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol

**Amcan 5: Ysgolion**

Mae’r amcan yma yn un newydd y tro hyn. Mae’n ddyletswydd ar bob ysgol i ddiweddaru eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob 4 blynedd, fel sy’n rhaid i’r Cyngor ei wneud. Credwn byddai’n fanteisiol i gael perthynas rhwng Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor a rhai’r ysgolion unigol. Mae’r Awdurdod felly wedi cynnig 4 Amcan i’r ysgolion, sydd yn ymddangos yma fel pwyntiau gweithredu.

Mi fydd bob ysgol wedyn yn penderfynu os ydi'r amcanion yn addas iddyn nhw ac yn gweld beth fydd angen iddyn nhw ei wneud i ymateb i'r angen yn lleol. Mae croeso iddynt ychwanegu Amcanion lleol eraill hefyd.

Mae'r data sydd ar gael, er wedi dyddio braidd erbyn hyn, yn dangos fod problemau bwlio yn parhau, hefyd fod rhai carfannau yn tan-gyflawni o fewn y gyfundrefn addysg. Mae data mwy diweddar yn dangos fod plant a phobl ifanc yn cael problemau gyda llesiant a chyflyrau iechyd meddwl yn sgil Covid-19.

Mae rhai o'r pwyntiau gweithredu hefyd yn deillio o wybodaeth yng Nghynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol. Ond rydym ni wedi penderfynu edrych ar y maes yn ei gyfanrwydd yn hytrach nag ar un nodwedd yn benodol.

Roedd ymateb gref i'r Amcan yma yn yr ymgynghoriad, gydag 86% yn cytuno neu gytuno yn rhannol. Roedd llawer o sylwadau wedi eu gwneud yn yr holiadur ac yn y cyfarfod, yn enwedig ynglŷn â bwlio. Mae newidiadau wedi eu gwneud yn sgil y sylwadau hynny a bydd eraill yn cael eu pasio ymlaen i'r ysgolion er mwyn gweithredu'n lleol.

Mae'r Amcan yma yn cyd-fynd ag Amcan 1 RhCSGGC, Gwella Canlyniadau mewn Cyrhaeddiad Addysg a Lles mewn Ysgolion.

## Ydi'r Amcanion yn bodloni'r ddyletswydd gyffredinol?

Credwn fod yr amcanion yn rhoi sylw dyledus i dri nod y ddyletswydd gyffredinol.

**Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.**

Mae Amcan 1 yn sicrhau ein bod yn holi aelodau staff ynglŷn â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac yn gweithredu yn unol ag unrhyw broblemau fydd yn cael eu amlygu. Mae Amcan 2 yn casglu gwybodaeth fydd yn ein helpu i dileu achos unrhyw wahaniaethu. Mae Amcan 3 a 4 yn sicrhau ein bod yn deg gyda bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a 5 yn gwneud hynny'n benodol o fewn ysgolion.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a’r rhai nad ydynt.**

Mae hyrwyddo cyfle cyfartal yn golygu:

- Dileu neu leihau’r anfantais y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn ei hwynebu
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion penodol pobl â nodweddion gwarchodedig
- Annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan lawn ym mhob gweithgaredd, yn enwedig lle nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n ddigonol

Pwrpas Amcan 1 yw dileu anfantais a denu ymgeiswyr â nodweddion gwarchodedig er mwyn iddynt gael cyfle cyfartal i geisio am swyddi, a wedyn i ffynnu o fewn ein gweithlu.  Bydd y fforymau hefyd yn annog pobl i gymryd rhan yn natblygiad y sefydliad.  Dim ond wrth gasglu gwybodaeth ddigonol fyddwn ni’n gwybod beth sydd angen i ni weithredu arno yn gyntaf.  Bydd yn rhoi  ffocws ar y materion allweddol sy’n effeithio ar y gwahanol nodweddion a’n caniatau i adnabod camau pellach allai ymdrin yn fwyaf effeithiol ag unrhyw anfantais.  Mae Amcanion 3, 4  5 yn sicrhau ein bod yn trin defnyddwyr gwasanaeth yn unol â’u hanghenion er mwyn rhoi’r siawns i bawb brofi’r un canlyniadau a’u hannog i gymryd rhan

**Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.**

Mae meithrin perthynas dda yn golygu cymryd camau i leihau rhagfarn a chynyddu dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

Dylai bob un o’n amcanion wneud hyn, trwy sicrhau tegwch.  Yn benodol, bydd sicrhau gwell cynrychiolaeth o’r gymdeithas o fewn ein gweithlu yn ei gwneud yn haws i bobl uniaethu â’r Cyngor (Amcan 1).  Bydd Amcanion 3, 4 a 5 yn sicrhau fod pobl yn cael gwasanaethau sy’n eu siwtio, ac yn addas iddynt eu defnyddio.

Gweler hefyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol.

## Sut ydym ni am fonitro cynnydd ar yr amcanion?

Ein bwriad ar ôl cyhoeddi'r Cynllun fydd creu Cynllun Gweithredu cynhwysfawr er mwyn adnabod yr union waith fydd angen i ni ei wneud i gyflawni'r Amcanion.  Bydd y Cynllun Gweithredu yma'n hyblyg a byddwn yn ei addasu wrth symud ymlaen er mwyn ateb i unrhyw faterion sy'n codi.  Felly hefyd yr asesiadau effaith Amcan unigol fydd yn cyd-fynd ag o.

Y drefn monitro yn fewnol fydd adrodd i'r Aelod sy'n gyfrifol am gydraddoldeb fel rhan o'r drefn Adrodd ar Berfformiad fel un o brosiectau Cynllun y Cyngor. Byddwn hefyd yn creu Adroddiad Blynyddol fydd yn mynd i sylw Cabinet y Cyngor ac yn gael ei gyhoeddi ar gyfer y cyhoedd.

Byddwn yn addasu'r Asesiad Effaith yn ôl yr angen hefyd.

Fel rydym wedi sôn eisoes, cam ar y daith ydi'r amcanion yma ac mae'n debygol iawn y bydd y themâu sydd yma yn parhau i'r cyfnod nesaf, gan ei fod yn waith hir-dymor.

## Materion ychwanegol

Mae canllawiau'r ddyletswydd benodol yn gofyn i ni sôn yn benodol am rai materion eraill o fewn y Cynllun Cydraddoldeb. Mae yna ystyriaethau pellach o dan ddeddfwriaeth arall hefyd.

## Oes gennym ni drefniadau i nodi a chasglu gwybodaeth am gydraddoldeb?

Er fod casglu gwybodaeth, yn enwedig o ymgysylltu, wedi bod yn rhan o Gynllun 2020-24, rydym wedi penderfynu ei roi fel amcan yn yr un presennol hefyd gan fod gwaith pellach i'w wneud. Rydym eisiau sicrhau fod digon o wybodaeth ar gael yn hawdd i swyddogion pan yn gwneud asesiadau effaith, er mwyn sicrhau fod sylw dyledus yn cael ei roi i 3 nod y ddyletswydd gyffredinol (gweler uchod). Rydym hefyd eisiau sicrhau fod defnydd da yn cael ei wneud o'r wybodaeth a gesglir.

Rydym eisoes yn casglu gwybodaeth am wahaniaethau tâl yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig ac yn ei gyhoeddi'n flynyddol. Rydym hefyd yn gwneud awdit ar fwlch tâl ar sail rhyw bob tair blynedd.

Fel rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru rydym wedi comisiynu'r ddogfen "Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Dogfen Ddata a Thystiolaeth" Linc gan ein Gwasanaeth Data a Gwybodaeth, sy'n dod a gwybodaeth eang at ei gilydd.

## Sut ydym ni'n asesu effaith a monitro effaith wirioneddol a pharhaus ein polisïau a ffyrdd o weithio?

Roedd Amcan penodol ar asesu effaith yng Nghynllun 2020-24. Yn ystod y cyfnod yna mae RhCSGGC, sef grŵp swyddogion cydraddoldeb Gogledd Cymru, wedi creu ffurflen gynhwysfawr yn cynnwys yr effaith ar faterion cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig a nodau'r ddyletswydd gyffredinol), yr iaith Gymraeg a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Rydym ni wedi mabwysiadau'r ffurflen hwnnw, gyda newidiadau lleol, fel ein templed asesu effaith ni. Mae cryn waith wedi ei wneud i'w roi ar ffurf electroneg ac ar ddiwedd y cyfnod roedd y ffurflen newydd yn cael ei peilota. Byddwn yn ei

rowlio allan ar draws y Cyngor ar ddechrau cyfnod y Cynllun yma gan ei hyrwyddo drwy amrywiol ffyrdd, gan gynnwys hyfforddiant.

Rhan bwysig o'r ffurflen yma yw'r cynllun gweithredu ar gyfer monitro sydd ar y diwedd y ffurflen. Mae'n bosib tybio effaith, a, trwy ofyn i bobl â phrofiad bywyd mi allwn wneud ein hynny'n eithaf fanwl gywir ar adegau, ond dim ond pan mae'r polisi neu ffordd o weithio yn ei le fyddwn ni'n gweld pob effaith. Mae felly'n sylfaenol i wirio fod yr effaith fel roeddem ni wedi tybio.

## Sut fyddwn ni'n hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg y gweithlu?

Mae hyfforddiant yn bwynt gweithredu o fewn dau o'r amcanion, sef Amcan 1 ac Amcan 3. Bydd wrth gwrs yn cynnwys dealltwriaeth o'r dyletswyddau.

## Beth yw'r effaith ar yr iaith Gymraeg?

Mae'n ofynnol arnom, dan Rhan 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ystyried effeithiau'r Amcanion ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg,. Mae'r gwaith sydd wedi ei nodi yn Amcan 1 i edrych ar y gofynion mewn swyddi ac i greu fforwm staff yn cynnwys elfennau ieithyddol, ac yn golygu gwell dealltwriaeth o fewn y Cyngor a'r gymuned yn fwy eang am ofynion ieithyddol wrth recriwtio a chyfrifoldebau statudol y Cyngor dan y Safonau. Hefyd y gwaith i wella ein gwefan yn Amcan 3. Am fwy o wybodaeth gweler yr Asesiad Effaith

## Ydi'r Amcanion yma yn cydymffurfio gyda dyletswyddau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Y nod llesiant dan sylw yma yw "Cymru Sy'n Fwy Cyfartal" gan mai dyma bwrpas y gwaith yma. Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at Cymru lewyrchus, oherwydd y bydd yn gwella sefyllfa pobl â nodweddion cydraddoldeb; a Cymru o gymunedau cydlynnus, ble mae pobl a gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael gwell tegwch. Mae'r 5 ffordd o weithio yn cael eu diwallu yma hefyd. Am fwy o wybodaeth gweler yr Asesiad Effaith.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-28

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

**Awdur:** Delyth Williams. Ymgynghorydd Cydraddoldeb

**Fersiwn:** 2

## CAM 1

**1. Beth sy'n cael ei asesu?**

- Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth Iaith Gymraeg)
- Cynigion prosiect newydd sydd yn effeithio ar staff, cymunedau neu ar hygyrchedd i'r amgylchedd adeiledig, e.e. gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol, symud i wasanaethau ar-lein, hunanwasanaeth, newid lleoliad, ayb

**2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

Bwriad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw bod yn fframwaith ar gyfer y prif waith y byddwn yn wneud ym maes cydraddoldeb yn ystod y cyfnod dan sylw (2024-28) i sicrhau tegwch i bawb. Dylai'r Cyngor gymryd sylw o faterion cydraddoldeb ym mhopeth mae'n wneud, ond yr amcanion sydd yn y Cynllun fydd ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod. Dylent wella ein gwasanaethau ar gyfer pobl â'r naw nodwedd gwarchodedig

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Pobl Gwynedd - mae gan bob person o leiaf 5 nodwedd warchodedig (cydraddoldeb) ac felly mae'n bwysig fod pawb yn gallu cymryd rhan.

Fodd bynnag, rydym wedi targedu grwpiau a chynrychiolwyr pobl â nodweddion gwahanol i wneud yn siŵr ein bod yn cael ystod eang o atebion. Rydym wedi ymgysylltu â Grŵp Craidd Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd, sef grŵp o gynrychiolwyr sefydliadau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig.

Yn ogystal, mae rhai grwpiau nad ydynt bob amser yn cael y cyfle i ymgysylltu, oherwydd nid yw sefydliadau'n paratoi'n iawn ar eu cyfer ac felly anaml y cânt eu clywed. Rydym felly wedi sicrhau bod gennym ystod o ffyrdd o ymgysylltu ac wedi trafod gyda gwahanol grwpiau ac unigolion fel rhan o'r gwaith (gweler cwestiwn 4).

## CAM 2

**4. Ydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac a ydych wedi derbyn digon o wybodaeth i fynd ymlaen?**

Do

**Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Ymgynghori / Ymgysylltu | Dyddiad | Cyfrifoldeb | Dull |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltiad Ebrill i Awst** | | | |
| Gofynnwyd i'r Centre for Sign Sight Sound am y ffordd orau i ymgysylltu a dywedwyd y byddent yn helpu pobl i wneud wrth wneud eu gwaith arferol | Mai 2023 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Y mudiad i weithredu |
| Gofyn i'r Grwp Hunan-adfocatiaeth roi eu barn ar y ddogfen hawdd ei ddarllen | Mai Mehefin 2023 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Derbyn barn |
| Gofyn i'r swyddogion ffoaduriaid am y ffordd gorau i ymgysylltu | Mawrth 2023 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Derbyn barn |
| Cyfarfod Te am Tri (Grwp adfocatiaeth) | 12/05/23 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Wedi defnyddio sleidiau a sgwrs i ymgysylltu |
| Ymweliad a siop Galwch Acw | 18/05/23 | swyddogion cydraddoldeb | Rhoi cymorth i dderbynnydd gwasanaeth i lenwi holiadur hawdd ei ddarllen |
| Ymweld â Grŵp LHDTC+ GISDA, Caernarfon | 03/07/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Defnyddio offer gweledol i ymgysylltu gyda'r pobl ifanc |
| Grwp Gofalwyr Ifanc Arfon | 11/07/23 | Swyddogion Cydraddoldeb | Defnyddio offer gweledol i ymgysylltu gyda'r pobl ifanc |
| Grwp Mynediad Arfon | 12/07/23 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Trafodaeth am yr holiadur |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grwp Gofalwyr Ifan Arfon (11 - 18 oed) | 18/07/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Defnyddio offer gweledol i ymgysylltu |
| Ymweld â Unique Transgender Network | 03/08/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Sgwrs i ymgysylltu |
| Mynd i Balchder Gogledd Cymru, Caernarfon | 24/06/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Rhoi allan codau QR, gofyn i bobl lenwi holiadur byr |
| Ymweld a digwyddiad Boccia ym Mhorthmadog | 04/09/23 | swyddogion cydraddoldeb | rhoi'r siawns i fynychwyr ag amrywiol amhariadau i lenwi holiadur byr |
| Grŵp Craidd Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd | 18/04/23 & 05/07/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Holi am yr amcanion yn gyffredinol |
| Holiadur ar ffurf electroneg a phapur | Ebrill - Awst 2023 | Swyddogion cydraddoldeb, Swyddog Ymgysylltu | Ar gael mewn fersiynau hawdd ei ddarllen, Wcrainaidd a Dari. Hysbysebu drwy wefannau cymdeithasol, papurau, Newyddion Gwynedd, taflenni hefo codau QR, ar y wefan a thrwy'r amrywiol fudiadau gan gynnwys y Grwp Craidd Cydraddoldeb |
| **Ymgynghoriad diwedd Hydref i Chwefror** | | | |
| Cysylltu gyda nifer o fudiadau cyn ac yn ystod y cyfnod yma ond wedi methu gwneud trefniadau i fynd i nifer | | Swyddogion cydraddoldeb | |
| Holiadur ar ffurf electroneg a papur (gan gynnwys hawdd ei ddarllen) | Diwedd Chwefror i ddiwedd Ionawr | Swyddogion cydraddoldeb a Swyddog Ymgysylltu | Wedi ei hyrwyddo drwy wefannau cymdeithasol, “pop-up” ar wefan y Cyngor, e-byst i fudiadau, ar y radio |
| Copïau papur o’r holiadur yn cael eu hanfon Mosg, gan gynnwys rhai hawdd ei ddarllen ar gyfer pobl sydd ddim yn iaith gyntaf Cymraeg na Saesneg. Hefyd i Siop Galwch Acw. | Mis Rhagfyr | Hyfforddai Cydraddoldeb | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grwp Craidd Cydraddoldeb | 14 Rhagfyr | Swyddogion Cydraddoldeb | Trafod yr amcanion drafft mewn cyfarfod hybrid |
| Oed Cymru Gwynedd a Môn, Canolfan yn Bontnewydd | 9 Ionawr | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Trafodaeth gan ddefnyddio holiadur wedi ei symleiddio |
| Cyfarfod Te am 3 (hunan-adfocatiaeth) | 12 Ionawr | Hyfforddai Cydraddoldeb | Cyfarfod Zoom yn trafod yr amcanion drafft gan ddefnyddio amcanion hawdd eu darllen. |
| Postio holiaduron hawdd eu darllen i aelodau Te am 3 ar eu cais | Wythnos 15 Ionawr | Hyfforddai Cydraddoldeb | |
| Ymweliad â Chartref Gofal Bryn Rhodyn | 17 Ionawr | Swyddogion cydraddoldeb | Sgwrsio gyda rhai o'r preswylwyr a gofyn am yr amcanion drafft |
| Grwp Mynediad Arfon | 17 Ionawr | Swyddogion cydraddoldeb | Trafodaeth am yr amcanion drafft |
| Pwyllgor Craffu | 25 Ionawr | Yr Aelod Etholedig, Rheolwyr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Trafodaeth am yr amcanion drafft |
| Unique Transgender Network | 2 Chwefror | Swyddogion cydraddoldeb | Trafodaeth am yr amcanion drafft gan ddefnyddio'r holiadur syml |
| Prentisiaid Cyngor Gwynedd | Wythnos 5 Chwefror | Hyfforddai Cydraddoldeb | Sgwrs gyda'r prentisiaid a llenwi yr holiadur syml |

**5. Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith**

| Nodwedd cydraddoldeb | Tystiolaeth | Effaith |
|---|---|---|
| **Cyffredinol** | **YMGYSYLLTIAD:**<br>Gellir canfod mwy o wybodaeth am yr ymgysylltiad yn y Dadansoddiad o'r Ymgysylltiad. Er ein bod eisiau i bobl roi pob math o wybodaeth i ni, rydym hefyd yn ymwybodol pa mor anodd i'w cychwyn gyda dalen lân. Felly mi wnaethom ni gychwyn trwy ofyn i bobl am ein amcanion ar gyfer 2020-24. Roedd mwy o bobl o blaid nag yn erbyn pob un o'r amcanion ac roedd nifer yn ansicr. Roedd rhywfaint o amrywiad yn ôl nodwedd, a nodir isod.<br><br>Mi wnaethom ni wedyn ofyn pa amcanion roedden nhw eisiau i ni ystyried. Cynigwyd amrywiaeth o syniadau ychwanegol.<br><br>Anfonwyd e-bost at bob un o'r sefydliadau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion cydraddoldeb ar ein cronfa ddata i hysbysebu a hyrwyddo'r holiadur ac i gynnig ymweliad.<br><br>**DATA:**<br><br>Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi ariannu dogfen ddata, wedi ei gomisiynu gan Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru. Mae'r ddogfen yma, *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Data a Thystiolaeth*, yn dilyn dogfen gomisiynwyd yn 2020 a oedd wedi ei seilio ar ddogfen *A yw Cymru'n Decach?* 2018 gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Daeth | Gan mai amcanion thematig sydd gennym roedd rhai pobl yn awyddus i gael mwy o wybodaeth am yr effaith ar nodweddion penodol. Ein bwriad yw addasu'r asesiad yma'n barhaus dros y misoedd nesaf wrth ddatblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr gan wneud asesiadau penodol ar yr amcanion unigol hefyd. Bydd hyn yn ein caniatáu i adnabod effaith benodol ar y gwahanol nodweddion.<br><br>Gweler y dadansoddiad ar yr ymgynghoriad am fwy o wybodaeth am, gan gynnwys rhai ar faterion cydraddoldeb cyffredinol. Y materion â godwyd yn ymatebion i'r holiadur ac yn y cyfarfodydd ydi:<br><br>Amcan 1<br>• Gwrando ar staff pan mae nhw'n cwyno am wahaniaethu<br>• Peidio rhoi pethau di-angen mewn manylion swydd<br>• Fod angen gwylio nad ydi hyfforddiant ddim fod ag agenda cryf |

| | | |
|---|---|---|
| | dogfen 2023 allan yn rhy hwyr i ni allu ei ddefnyddio. Mae’r ddogfen gogledd Cymru yma yn casglu’r wybodaeth ddiweddaraf o ffynonellau amrywiol ac felly’n ddefnyddiol iawn ar gyfer creu’r Amcanion diwygiedig.<br><br>**YMGYNGHORIAD:**<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr amcanion drafft rhwng diwedd Hydref 2023 a Chwefror 2024. Mae manylion llawn i'w gweld yn y ddogfen Dadansoddiad yr Ymgynghoriad. Roedd cefnogaeth gref i'r amcanion drafft. Rhoddwyd syniadau am faterion oedd angen ystyried eu cynnwys hefyd. | • Roedd pobl o blaid ac yn erbyn cynnal fforymau<br>• Angen amddiffyniad i grwpiau lleiafrifol<br>• Gwella polisïau<br>• Dylai negeseuon am gydraddoldeb gael eu rhoi gan uwch reolwyr<br>• Gwastraff amser ac adnoddau<br><br>Amcan 2<br>• Pryderon am gasglu data oherwydd cyfrinachedd a cham-ddefnyddio<br>• Nad ydi pawb eisiau rhannu eu data<br>• Felly gall data fod yn gamarweiniol<br>• Data yn greiddiol i greu gwasanaethau a polisïau gwell<br>• Angen defnyddio dulliau amgen i rannu data gyda’r cyhoedd<br>• Angen gwella amrywiaeth y Panel Trigolion<br>• Gwastraff amser ac adnoddau<br><br>Amcan 3<br>• Teimlo fod y Cyngor yn gwahaniaethu ar sail daliadau gwleidyddol<br>• Yr angen i swyddogion uwch wneud hyfforddiant.<br>• Pwysigrwydd hyfforddiant |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Dim angen hyfforddiant achos dylai gweithwyr wybod popeth yn barod.<br>• Gwastraff arian ac adnoddau<br>• Angen gwneud asesiadau effaith cryf a chyson i safon da<br><br>Amcan 4<br>• Rhai pobl yn cefnogi y gwaith yn yr amgueddfeydd ac eisiau iddo fynd ymhellach<br>• Rhai pobl yn pryderu fod newid y naratif yn ceisio newid hanes.<br>• Gwastraff arian ac adnoddau<br><br>Amcan 5<br>• Angen cynnwys bob math o fwlio, nid jyst bwlio oherwydd nodweddion cydraddoldeb<br>• Eisiau cynnwys troseddau casineb yn ogystal â bwlio<br><br>Cyffredinol<br>• Pryder fydd y Cyngor ddim yn cyflawni'r gwaith<br>• Nifer o syniadau am bynciau eraill – trafnidiaeth, tai, toiledau, biniau<br>• Rhifo pwyntiau gweithredu<br>• Angen edrych ar eiriad yr amcanion |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Yr angen i gadw'r amcanion yn realistig i allu gweithredu<br>• Angen cofio am effaith croesdoriadaeth |
| **Hil** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Mae rhai grwpiau lleiafrif ethnig wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb: Mudiad Indiaid a Ffrindiau, Mudiad Affrica Gogledd Cymru. Grwpiau Ffoaduriaid. Mae eraill wedi eu gwahodd ond heb dderbyn.<br><br>Crëwyd holiadur Hawdd ei Ddarllen (defnyddiol ar gyfer pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf), ynghyd â chopïau Dari ac Wcreineg i'r grwpiau ffoaduriaid. Rhoddwyd neges am ddarparu iaith neu fformat arall yn ôl yr angen ar yr holiaduron a'r negeseuon hysbysebu.<br><br>Addawodd cynrychiolydd Mudiad Affrica Gogledd Cymru i roi gwybodaeth ar eu tudalen Facebook.<br><br>**Canlyniad**:<br><br>Roedd 43.2% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn Gymreig, 23.5% yn Brydeinig a 15.6 yn Seisnig. Roedd 82.6% o'r rhai gwblhaodd yr holiadur yn Wyn, dipyn llai na'r canran sirol (gweler isod). Mae llai o bobl o ethnigrwydd Asiaidd wedi ei lenwi hefyd, gyda mwy o bobl o gefndiroedd Du ac unrhyw ethnigrwydd arall na'r canrannau yng | Mae'r data yn dangos yn glir fod yna rwystrau yn wynebu pobl o grwpiau lleiafrif ethnig, a hynny'n amrywio yn ôl y grŵp dan sylw.<br><br>Nododd rhai pobl yr angen i ystyried iaith ar gyfer pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith cyntaf.<br><br>Mae nifer o pobl wedi sôn am wahaniaethu yn erbyn pobl Saesneg eu iaith.<br><br>**Amcan 1**<br><br>Bydd yn cael effaith bositif i bobl o wahanol gefndiroedd ethnig gan y bydd yn gwella amrywiaeth ein gweithlu a denu mwy o bobl o leiafrifoedd ethnig i ymgeisio am swyddi. Mae bwriad hefyd i edrych ar, ac esbonio, y sgiliau sy'n ddisgwyliedig wrth ymgeisio am swyddi, gan gynnwys yr disgwyliadau o ran iaith.<br><br>Roedd gan rai pobl bryder am y pwynt gweithredu am wella amrywiaeth ein gweithlu, gan ddweud na ddylai pobl gael eu dewis oherwydd eu ethnigrwydd ayb. Fel rydym wedi |

| | | |
|---|---|---|
| | Ngwynedd.  Rhaid bod yn ofalus wrth gwrs gan fod y niferoedd yn eithaf isel.<br><br>Nid oes unrhyw wahaniaethau ystadegol wedi ei adnabod o ran hil wrth lenwi'r holiadur ond mae rhai sylwadau wedi eu gwneud o ran hil. Roedd rhai o'r rhain ynglŷn a'r angen i ystyried y Cynllun Cydraddoldeb Cymru Gwrth Hiliol.  Ond roedd nifer ohonynt ynglŷn â'r teimlad fod y Cyngor yn gwahaniaethu yn erbyn pobl di-Gymraeg, beth bynnag eu tarddiad ethnig.<br><br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos fod llai o bobl Gwynedd yn adnabod eu hunain fel Gwyn (96.2%) na gweddill siroedd y gogledd heb law am Wrecsam (96%).  Roedd 66.6% yn nodi eu bod wedi eu geni yng Nghymru, llai na Wrecsam a tebyg i Ynys Môn.  59% yn nodi eu bod yn Gymraeg, rhai canrannau'n uwch na gweddill y siroedd.<br><br>Mae'r data'n dangos fod cefndir ethnig yn cael effaith ar fywydau pobl yn ystadegol o'r cychwyn -   e.e. mae plant o gefndir Tseiniaidd yn fwy tebygol o gyrraedd y deilliant ddisgwyliedig yn y cyfnod sylfaen na'u cyfoedion, tra mae plant o "unrhyw gefndir ethnig arall" (h.y. sydd ddim yn cael eu hadnabod fel o gefndir Gwyn, Du, Tseiniaidd, Asiaidd neu Gymysg) yn llai tebygol o wneud hynny (ystadegau am Gymru).  Yn sir Gwynedd roedd graddau cyflogaeth pobl Wyn yn 74.% (ffigwr canolig i Ogledd Cymru) tra roedd cyflogaeth pobl o leiafrif ethnig yn 53% (sef y sir isaf ond un).  Ond roedd canran o bobl Gwyn oedd wedi cael gradd neu gymhwyster uwch yn is). | nodi, nid oes bwriad gwneud hynny, ond yn hytrach i ddenu amrywiaeth o ymgeiswyr er mwyn cael y person gorau am y swydd.<br><br>Derbyniwyd dau sylw yn honni fod y disgwyliad i bobl siarad Cymraeg yn nadu pobl o leiafrifoedd ethnig rhag cael swydd.  Sgil yw siarad Cymraeg, fel unrhyw un arall.  Rydym yn credu y gallu unrhyw berson ddysgu'r sgil.<br><br>**Amcan 2**<br><br>Mae'n glir fod diffyg data am hil yn enwedig yn lleol.  Bydd ymgysylltu gyda grwpiau hil yn bwysig.<br><br>**Amcan 3**<br><br>Disgwylir y bydd yn bositif gan y bydd yn sicrhau hyfforddiant gwrth-hiliaeth, fydd yn sicrhau fod anghenion pobl o wahanol gefndiroedd ethnig yn cael eu hystyried.  Bydd asesiadau hefyd yn ystyried hil.<br><br>Bydd gwella hygyrchedd ein gwefan yn gwella mynediad ar gyfer pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf<br><br>**Amcan 4** |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r carfan o bobl Ddu yng Ngwynedd o aelwyd heb gar neu fan yn llawr uwch nag unrhyw grwp ethnig arall, ac yn llawer uwch nag unrhyw sir arall yng Ngogledd Cymru. Grwp ethnig Gwyn sy'n lleiaf tebygol o fyw yn y math yma o aelwyd. Gall bod heb gar neu fan fod yn arwydd o anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Yng Ngwynedd pobl o gefndir Du sy'n lleiaf tebygol o fyw mewn cartrefi gorlawn (1%) tra pobl o grwpiau lleiafrif eraill (h.y. sydd ddim yn uniaethu fel Du, Gwyn, Asiaidd na Cymysg) sy'n fwyaf tebygol o fyw mewn tai gorlawn (12%).<br><br>Mae ymhell dros hanner yr holl droseddau casineb sy'n cael eu cofnodi gan Heddlu Gogledd Cymru yn ymwneud â hil (sy'n cynnwys cenedligrwydd) – sef 58% yn 2021/22.<br><br>Mae'r nifer o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ychydig yn uwch yng Ngwynedd (0.09.5% o'r boblogaeth) na Gogledd Cymru (0.083%). Mae'r nifer o bobl Roma ychydig yn is (0.038% i'w gymharu â 0.039%). Roedd 14 carafán ar safle swyddogol ac 8 ar safle answyddogol ar 21 Gorffennaf 2022 (allan o 271 yng ngogledd Cymru i gyd)<br><br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi fod hi'n debyg fod Covid-19 wedi cael effaith ar blant oedd yn perfformio'n llai da cyn y pandemig e.e. dysgwyr Du, a rhai dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithio. Roedd hefyd wedi cael mwy o effaith o ran gwaeledd a marwolaeth ymysg pobl o leiafrifoedd ethnig.<br><br>**Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol:** | Bydd edrych ar hygyrchedd gwasanaethau yn cynnwys mynediad at wybodaeth, gan gynnwys ar gyfer pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf.<br><br>Byddwn yn edrych ar naratif ein amgueddfeydd o ran hil.<br><br>**Amcan 5**<br><br>Credir y bydd yn bositif gan fod rhai grwpiau, yn arbennig dysgwyr gwrywaidd Du a phlant o gefndir sipsiwn a theithwyr, â chyrhaeddiad is yn y dosbarth na grwpiau eraill. Bydd hefyd yn mynd i'r afael a materion fel bwlio ac yn sicrhau gwell llais i blant. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r Cynllun yma'n rhoi arweiniad i ni ar y materion sydd angen eu cyfarch yn y maes yma. Wrth ystyried ffactorau lleol, rydym ni'n adnabod y meysydd yma yn benodol: addysg, gwaith, casglu data, sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd gwrth-hiliol, hygyrchedd a thai.<br><br>**YMGYNGHORIAD:**<br><br>Jyst dros 75% o ymatebwyr i'r holiadur ddywedodd eu bod yn wyn, 3.4% o dras cymysg, 1.3% yn Asiaidd a llai na 1% yr un yn Sipsiwn / teithwyr Gwyddelig a du / Affricanaidd / Caribiaidd. Roedd 2% wedi nodi arall ond roedd canran gweddol uchel heb neu wedi dewis peidio ymateb, sef bron i 17%. Anfonwyd holiaduron papur, gan gynnwys rhai hawdd eu darllen, i'r Mosg er mwyn cyrraedd y pobl o wahanol gefndiroedd hil sydd yn mynd yno.<br><br>Roedd 14 person (allan o'r 39 wnaeth ddweud fod angen rhoi mwy o sylw i un neu fwy o nodweddion) yn teimlo fod hil ddim yn cael digon o sylw o fewn yr amcanion, sef 36%. | |
| **Anabledd** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Mae grwpiau anabledd wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb: Grŵp Hunan-Adfocatiaeth NWAAA (pobl ag anabledd dysgu), Grwpiau Mynediad (pobl ag amhariad corfforol), Grŵp CoS (pobl F/fyddar). Mae eraill wedi eu gwahodd ond heb ymuno.<br><br>Addawodd COS i'n helpu trwy gynnig cefnogaeth i'r aelodau maent yn cyfarfod â hwy fel rhan o'u gwaith bob dydd i ddeall a llenwi'r holiadur. Ymwelodd y swyddogion cydraddoldeb â: Grŵp Mynediad | Mae'r data yn dangos yn glir fod yna rwystrau yn wynebu person anabl mewn nifer o feysydd, gan gynnwys mynediad at wasanaethau, adeiladau, swyddi a gwybodaeth.<br><br>Dywedodd rhai eu bod yn amau fod dealltwriaeth lawn o anghenion pobl anabl, gan dynnu sylw at yr ystod o fathau o anabledd. Bydd angen sicrhau fod pob math o anabledd yn cael sylw teilwng wrth symud ymlaen i wneud cynllun gweithredu cynhwysfawr ac |

| | | |
|---|---|---|
| | Arfon (ar-lein) i drafod yr holiadur ac annog aelodau i'w lenwi; Grwp Te am Tri (ar-lein) sef grŵp hunan adfocatiaeth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, gan ddefnyddio sleidiau i esbonio'r sefyllfa a gofyn barn; digwyddiad Boccia lle roedd grwpiau â gwahanol amhariadau'n cyfarfod gan ddefnyddio fersiwn byr o'r holiadur; Grwpiau Gofalwyr Ifanc (7-11 oed ac 11-18 oed) ble defnyddiwyd sleidiau a sgwrs.<br><br>**Canlyniad:**<br><br>Mae'r canran o bobl sy'n adnabod eu hunain fel person anabl ac wedi ateb yr holiadur (19.6%) yn debyg iawn i'r ganran yng Ngwynedd (19.2%). Mi wnaethon i hefyd ymgysylltu a grwpiau penodol, gweler uchod.<br><br>Roedd canran uwch o bobl anabl, o'i gymharu â phobl oedd wedi nodi nad oeddynt yn anabl, yn teimlo fod ymgysylltu (Amcan2 ) yn bwysig ar gyfer ei gynnwys y tro hyn. Roedd y canran o bobl anabl a ddywedodd eu bod yn cefnogi amrywiaeth yn y gweithlu (Amcan 5) yn uwch hefyd.<br><br>Wrth ymateb i'r holiadur, ac wrth ymgysylltu gyda grwpiau, dywedodd nifer o bobl fod hyfforddiant yn arbennig o bwysig ym maes anabledd. Nodwyd nifer o bynciau e.e. ymwybyddiaeth o awtistiaeth, Braille, BSL a iechyd meddwl (sôn am gydweithi ag ICAN). Roedd addasiadau o fewn cyflogaeth yn flaenoriaeth hefyd gyda rhai'n sôn am Cam 3 Hyderus o ran Anabledd, cymorth o amgylch cyfweliadau a mentora. Soniwyd yn arbennig hefyd am ddealltwriaeth, anghenion mynediad (at wasanaethau, gwybodaeth, adeiladau a mannau cyhoeddus gan gynnwys parcio addas), a therminoleg, trafnidiaeth a thoiledau addas. Gweler hefyd y sylwadau yn Oedran. | asesiadau effaith I'r Amcanion unigol. Eraill yn tynnu sylw at neuroamrywiaeth, sydd yn rywbeth rydym yn sôn amdano yn yr Amcanion. Nodwyd pwysigrwydd iechyd meddwl.<br><br>**Amcan 1**<br><br>Disgwylir y bydd yn bositif ar gyfer pobl anabl gan ein bod yn anelu i weithio tuag at lefel 3, Hyderus o ran Anabledd. Rhagwelir y bydd y gwaith arall i hybu amrywiaeth ein gweithlu hefyd yn bositif i bobl anabl. Nodwyd yr angen i sicrhau hyfforddiant anabledd.<br><br>**Amcan 2**<br><br>Bydd yn bositif oherwydd byddwn yn casglu mwy o ddata am bob maes ac mae croes-doriadaeth am fod yn bwysig. Bydd hefyd yn cyfarch yr angen i ymgysylltu â phobl anabl a grwpiau mewn ffyrdd addas.<br><br>**Amcan 3**<br><br>Gan ei fod yn cymryd anghenion a hawliau pobl anabl i ystyriaeth wrth newid polisïau a ffyrdd o weithio bydd yn cael effaith bositif. Rydym wedi cychwyn ar y gwaith a bydd ystod o |

| | | |
|---|---|---|
| | **DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Dangosir fod llai o bobl yng Ngwynedd wedi nodi eu bod yn anabl yn Cyfrifiad 2021 nag unrhyw sir arall yng ngogledd Cymru heb law am un. Wedi dweud hynny, mae'r nifer yn 19%, bron iawn i 1 person o bob 5. Mae bron i 10% mwy o ferched yn anabl na dynion. Mae'r canran fwyaf o bobl anabl yn yr oedran 45-69 yng Ngwynedd, gydag ychydig llai yn yr oedran 70+.<br><br>Mae'r data'n dangos fod y nodwedd yma'n cael effaith ar lawer o rannau o fywyd. Yn 2021-22 roedd 74% o bobl sydd ddim yn anabl yn sir Gwynedd mewn gwaith (sy'n union fel y cyfartaledd yng ngogledd Cymru) ond dim ond 43% sy'n gweithio (5% yn is na'r carfan yng Ngogledd Cymru). Yng Nghymru mae'r gwahaniaeth mewn tâl (pay gap) rhwng pobl anabl a phobl sydd ddim yn anabl yn 11.6% (nid oes data mwy lleol). 3% o brentisiaid sy'n nodi anabledd sy'n effeithio eu dysgu.<br><br>Yng Ngwynedd, yn ôl y cyfrifiad, roedd dros 23% o anheddau â phenteulu anabl heb fynediad at gar neu fan. Mae hyn yn cymharu â 10% o deuluoedd gyda phenteulu sydd ddim yn berson anabl. Mae'r ganran sy'n byw ar aelwydydd heb gar neu fan yng Ngogledd Cymru yn ôl statws iechyd ar ei uchaf ar gyfer y rhai mewn iechyd gwael neu wael iawn (29.8%), ac isaf ymhlith y rhai mewn iechyd da iawn neu dda (9.5%). Mae hyn yn gyson gyda'r patrwm yng Ngwynedd hefyd<br><br>Er fod hyn yn cymharu'n ffafriol â'r bwlch yng Ngogledd Cymru, mae o'n bryder mewn sir mor wledig. Yn ystod 2021/22 cwblhawyd 100% o DFG oedd wedi eu cymeradwyo yng Ngwynedd, ond roedd y niferoedd yn isel iawn yma. | hyfforddiant ar feysydd anabledd yn cael eu cynnig yn ystod y 4 blynedd<br><br>**Amcan 4**<br><br>Disgwylir iddo fod yn bositif gan y bydd ystyriaeth o ddarpariaeth amgueddfeydd a hygyrchedd y wefan.<br><br>Nifer o bobl wedi sôn am hygyrchedd ffisegol, eraill wedi sôn am hygyrchedd mwy cyffredinol gan gynnwys BSL. Un person wedi sôn am wrthdaro buddiannol (conflict of interest) rhwng pobl anabl ac adeiladau hanesyddol.<br><br>**Amcan 5**<br><br>Bydd yn delio a bwlio a chyrhaeddiad fydd yn cael effaith bositif. Bwriad y pwynt gweithredu ar lesiant yw gwella iechyd meddwl y dysgwyr.<br><br><br>Disgwylir i'r Amcanion uchod fod yn bositif ar gyfer gofalwyr hefyd am resymau tebyg. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r nifer o bobl sy'n adnabod eu hunain fel gofalwyr yn is yng Ngwynedd na siroedd eraill y gogledd. Mae'n debyg fod niferoedd yn isel yn gyffredinol oherwydd nad yw pob person allai adnabod eu hunain fel gofalwyr yn gwneud hynny. Mae pobl rhwng 50 a 64 mlwydd oed yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr nag unrhyw oedran arall a merched yn fwy tebygol na dynion (13.1% i'w gymharu â 10%). Mae pobl sy'n ofalwyr yn fwy tebygol o adrodd fod eu hiechyd yn weddol neu'n wael nag ydynt i ddweud ei fod yn dda. Mae hyn yn wahanol iawn i ran fwyaf y boblogaeth, ble mae'r mwyafrif yn dweud eu bod mewn iechyd da iawn neu dda.<br><br>Mae pobl anabl yn un o'r grwpiau sy'n fwyaf tebygol o brofi allgau digidol. Cofnodwyd 248 digwyddiad o drosedd casineb ar sail anabledd yn 2021/22, codiad o 359% ers 2016/17.<br><br>Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi fod pobl anabl yn fwy tebygol o farw o Covid-19, ac i brofi caledi ariannol. Hefyd y risg y gallai dysgu o bell fod wedi cynyddu anghydraddoldeb ar gyfer disgyblion na berfformiodd cystal yn yr ysgol cyn Covid-19, gan gynnwys disgyblion sydd angen cymorth mewn addysg.<br><br>**Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19:**<br>Mae'r adroddiad yma yn nodi data a phrofiad bywyd pobl anabl yn ystod argyfwng Covid-19. Mae'r rhan fwyaf o'r hyn sydd ynddo wedi anelu at Llywodraeth Cymru ond mae'r data'n ddefnyddiol ar gyfer awdurdodau lleol hefyd. Mae'r adroddiad yn nodi fod pobl anabl yn dweud fod y model cymdeithasol o anabledd wedi colli tir a'r model meddygol yn cael ei ddefnyddio fwyfwy. Roedd mwy na hanner y bobl fu farw o Covid-19 | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn anabl a dywedir fod y ffactorau cymdeithasol yn reswm mawr dros hyn, e.e. gofal iechyd israddol i bobl anabl (yn enwedig pobl ag anabledd dysgu), diffyg PPE a thai anaddas. Mae hefyd yn nodi fod pobl anabl wedi ei chael yn anodd i gael gwasanaethau addas yn ystod yr argyfwng a roedd trafnidiaeth yn broblemus hefyd.<br><br>**YMGYNGHORIAD:**<br><br>Tua 18% o ymatebwyr oedd yn diffinio eu hunain fel anabl, 66.4% ddim yn diffinio eu hunain fel anabl gyda dros 15% heb neu'n dewis peidio ateb.<br><br>Roedd 16 person (allan o'r 39 wnaeth ddweud fod angen rhoi mwy o sylw i un neu fwy o nodweddion) yn teimlo fod anabledd ddim yn cael digon o sylw o fewn yr amcanion, sef 41%. | |
| **Rhyw** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Er i ni wahodd grwpiau, ac i rai fynychu yn y gorffennol, nid oes yn bresennol unrhyw fudiadau yn cynrychioli dynion na merched ar y Grwp Craidd Cydraddoldeb. Nid oedd unrhyw gyswllt penodol wedi ei wneud hefo mudiadau yn cynrychioli'r nodwedd yma yn ystod yr ymgysylltiad.<br><br>**Canlyniad**:<br>Roedd y nifer o ferched a dynion wnaeth gwblhau'r holiadur yn eithaf hafal. | Mae'r data yn dangos yn glir fod yna rwystrau yn bodoli yn ymwneud â rhyw.<br><br>**Amcan 1**<br><br>Effaith bositif ddisgwylir, yn arbennig ar ferched oherwydd y pwyntiau gweithredu ar y bwlch tâl, ond pwyntiau gweithredu eraill hefyd.<br><br>Roedd gan rai pobl bryder am y pwynt gweithredu i wella amrywiaeth ein gweithlu, gan ddweud na ddylai pobl gael eu dewis |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae canran uwch o ferched, nag unrhyw gategori rhyw arall (dynion, gwell gennyf beidio a dweud a dim ateb), wedi dweud fod Ymgysylltu (Amcan 2), Asesu effaith ( Amcan 3 ), ac Amrywiaeth Gweithlu (Amcan 5) yn bwysig i'w gynnwys tro hyn.<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br><br>Mae 51.09% o boblogaeth Gwynedd yn fenywaidd.<br><br>Yng Nghymru, mae'r canran o enethod sy'n cyrraedd y canlyniad ddisgwyliedig yn y cyfnod sylfaen yn uwch na bechgyn ym mhob blwyddyn rhwng 2017 a 2019. Mae'r nifer sy'n cyrraedd Lefel 2 ym Mlwyddyn 11 yn 2018/19 yng Ngwynedd yn uwch ymysg genethod na bechgyn, er fod yr gwahaniaeth yn isel o'i gymharu â gogledd Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae mwy o ferched yn adrodd iddynt gael eu bwlio (37% i 33%).<br><br>Mae mwy o bobl yng Ngwynedd oed 25-65 gyda gradd na siroedd eraill y gogledd, sef 45.8% a 36.2% o ddynion. Mae mwy o ferched yn derbyn hyfforddiant yn gysylltiedig a swydd yng Ngwynedd yn 2021-22 (23.1% i 15.4% - ffigyrau'r sir nid yr Awdurdod Lleol). Mae 72% o boblogaeth gwrywaidd (16-64 oed) Gwynedd mewn gwaith, a 75% o ferched (gwahaniaeth llai na'r gogledd yn ei gyfanrwydd). Mae mwy o fenywod na dynion yn gweithio fel prentisiaid hefyd. Roedd y bwlch tâl o ran rhywedd (gender pay gap) yn 2022, sef 8.6%, yn llai nag unrhyw sir yn y gogledd heb law am Ynys Môn (ffigyrau y siroedd nid gweithlu'r Awdurdodau Lleol, wedi ei selio ar leoliad cartref, nid man gwaith). Mae canran uwch o fenywod (28.2% i 25.9%) yng Ngwynedd mewn swyddi â | oherwydd eu rhywedd ayb. Fel rydym wedi nodi, nid oes bwriad gwneud hynny, ond yn hytrach i ddenu amrywiaeth o ymgeiswyr er mwyn cael y person gorau am y swydd.<br><br>Bydd hefyd o gymorth i ofalwyr, sydd, yn ystadegol, yn fwy tebygol o fod yn ferched.<br><br>**Amcan 2**<br><br>Dylai fod yn bositif ar gyfer dynion a merched oherwydd mae bob tro'n dda i gael data llawn. Bydd hefyd yn bositif I'r rhai sy'n adnabod eu hunain mewn ffordd gwahanol gan fod data yn anodd I'w gael ar hyn o bryd.<br><br>**Amcan 3**<br><br>Mae'r pwynt gweithredu olaf yn amlwg am wneud gwahaniaeth i ferched oherwydd y gwaith ar y rhuban gwyn. Bydd asesiadau cydraddoldeb a hyfforddiant yn bwysig i bawb, yn enwedig wrth ystyried croesdoriadaeth.<br><br>**Amcan 4**<br><br>Bydd wella gwasanaethau yn bositif i bawb. Bydd yr asesiadau unigol yn rhoi mwy o |

| | | |
|---|---|---|
| | tal uchel.  Ond ar y llaw arall mae 44.8% o fenywod mewn swyddi tal isel o'u cymharu a 21.9% o ddynion.<br><br>Yng Ngwynedd roedd bron i 70% o'r teuluoedd oedd dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael eu harwain gan fenyw - llawer uwch nag unrhyw sir arall yn y gogledd.  Wedi dweud hynny, roedd 70% o deuluoedd oedd yn ddigartref ac angen cymorth yn cael eu arwain gan ddynion (gan gynnwys dynion unigol) - eto yr agendor mwyaf yn y gogledd.<br><br>Mae ystadegau'n dangos fod merched yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr na dynion.  Hefyd mae mwy o ferched yn nodi eu bod yn anabl na dynion. (Gweler Anabledd uchod).  Mae merched ar gyfartaledd yn byw am fwy o flynyddoedd na dynion, ac mae'r gwahaniaeth tua 3 blynedd yng Ngwynedd.<br><br>Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, dangosodd data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fod 84.5% o ddioddefwyr troseddau rhywiol yn fenywod, gyda 90% o ddioddefwyr trais rhywiol a gofnodwyd yn fenywod ac 81.2% o ddioddefwyr troseddau rhywiol eraill hefyd yn fenywod.  Nid oes dadansoddiad o droseddau cam-drin domestig yn ôl nodweddion ar lefel leol, ond yng Nghymru a Lloegr roedd 74.1% o ddioddefwyr a gofnodwyd yn fenywod a 25.9% o ddioddefwyr a gofnodwyd yn ddynion yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2022.  Mae merched yn un o'r grwpiau sydd yn teimlo'n llai diogel yn eu cymuned (yn enwedig wedi iddi dywyllu).<br><br>Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi fod mwy o bwysau a dibyniaeth ar ofalwyr di-dâl yn ystod argyfwng Covid-19, gyda menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr di-dâl, oherwydd pwysau gofal cymdeithasol.  Hefyd fod yr argyfwng wedi achosi mwy o gam-drin | wybodaeth ar sut fydd y gwahanol bwyntiau gweithredu yn cael effaith.<br><br>Dywedodd cwpl o bobl fod eisiau ystyried mannau newid a toiledau un rhyw.<br><br>**Amcan 5**<br><br>Disgwylir iddo fod yn arbennig o bositif ar gyfer carfannau o fechgyn, sydd a chyrhaeddiad is na merched yn gyffredinol, ond ar garfannau sy’n cael eu heffeithio gan groesdoriadaeth (e.e. dynion ifanc du) yn arbennig. |

| | | |
|---|---|---|
| | domestig (sydd yn effeithio mwy o ferched). Yn ogystal y risg y gallai dysgu o bell fod wedi cynyddu anghydraddoldeb ar gyfer disgyblion na berfformiodd cystal yn yr ysgol cyn Covid, gan gynnwys bechgyn.<br><br>**YMGYNGHORIAD**<br><br>Atebodd ychydig mwy o ferched nag o ddynion yr holiadur<br><br>Roedd 6 person (allan o'r 39 wnaeth ddweud fod angen rhoi mwy o sylw i un neu fwy o nodweddion) yn teimlo fod rhyw ddim yn cael digon o sylw o fewn yr amcanion, sef tua 15%. | |
| **Oedran** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Mae rhai grwpiau oedran wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb: Cyngor Pobl Hŷn, Age Cymru Gwynedd a Môn, Grŵp LHDTC+ GISDA, Yr Urdd.<br><br>Ymwelodd y swyddogion cydraddoldeb â 2 grŵp o ofalwyr ifanc, 1 grwp yn 7-11 oed a'r llall yn 7-18 oed. Defnyddiwyd sleidiau a dulliau amgen i feithrin sgwrs. Hefyd bu cyfarfod gyda Grwp LHDTC+ GISDA ble defnyddiwyd dulliau amgen i ymgysylltu. Ymwelwyd hefyd â digwyddiad Boccia lle roedd grwpiau â gwahanol amhariadau, gan gynnwys Dementia, yn cyfarfod. Defnyddiwyd fersiwn byr o'r holiadur i'w holi. E-bostiwyd pob un o'r mudiadau sy'n cynrychioli pobl a nodweddion cydraddoldeb sydd ar ein bas-data i hysbysebu a hyrwyddo'r holiadur a chynnig ymweld â hwy. | Mae'r data yn dangos yn glir fod yna rwystrau yn bodoli yn ymwneud ag oedran.<br><br>**Amcan 1**<br><br>Disgwylir iddo fod yn bositif ar gyfer carfanau oedran gwahanol. Mae wrth gwrs am roi cymorth i bobl oed gwaith, yn arbennig rhai sydd â nodweddion penodol eraill (croesdoriadaeth). Bydd hefyd o gymorth i bobl hŷn a phobl ifanc sy'n chwilio am waith.<br><br>**Amcan 2**<br><br>Rhagwelir y bydd yn bositif i bob oedran. Mae hi bob tro'n ddefnyddiol i gael data llawn (ac |

| | | |
|---|---|---|
| | **Canlyniad:**<br><br>Ychydig o bobl ifanc dan 25 oed gwblhaodd yr holiadur ond gan ein bod wedi ymweld â’r mudiadau uchod, rhoddwyd siawns i fwy ohonynt rannu eu barn.<br><br>Mae canran uwch o’r ymatebwyr 25 - 34 oed wedi nodi ‘ddim yn siŵr’ a canran llai ohonynt wedi nodi ‘ydw’ o gymharu â grwpiau oedran eraill ynglŷn â pharhau gyda’r amcan am hyfforddiant (Amcan 1).<br><br>Mae canran uwch o’r ymatebwyr yn y grŵp oedran 25-34 oed a 35-44 oed wedi dweud fod angen parhau i gynnwys asesiadau effaith (Amcan 3).<br><br>Mae canran uwch o’r ymatebwyr yn y grwpiau oedran 35-44 oed ac 55-64 oed yn nodi ‘ydw’, tra bod canran uwch o’r ymatebwyr yn grŵp oedran 25-34 oed yn nodi ‘nac ydw’.<br><br>Rhai o’r materion a godwyd ynglŷn a phlant a pobl ifanc oedd:<br>• Yr angen i gadw pobl ifanc lleol yn eu cynefin, drwy gynnig cefnogaeth a sicrhau swyddi<br>• Dysgwyr angen mwy o gefnogaeth un i un ac ymyrraeth cynnar<br>• Iechyd meddwl pobl ifanc LHDTC+<br>• Mwy o sylw i anghenion gofalwyr ifanc yn yr ysgol, yn arbennig gallu cadw mewn cyswllt ag adra.<br>• Gwell hygyrchedd ar gyfer dysgwyr ag amhariadau corfforol yn yr ysgol<br>• Llefydd diogel i blant ag anawsterau dysgu a niwroamrywiaeth tu alla i'r ysgol | mae’r gwaith Oedolion yn arbennig am gwella pethau i bobl hŷn).<br><br>**Amcan 3**<br><br>Bydd y gwaith yma’n arbennig o ddefnyddiol mewn achosion o groesdoriadaeth.  Dylai’r gwaith ar y wefan fod yn arbennig o ddefnyddiol i sicrhau hygyrchedd i bobl hŷn, ond gan gofio nad yw bob un ohonynt yn gallu defnyddio’r we.<br><br>**Amcan 4**<br><br>Mae angen cofio nad ydi pobl hŷn bob tro yn defnyddio’r we.  Bydd gwella gwasanaethau yn helpu pobl o wahanol oedrannau.<br><br>**Amcan 5**<br><br>Mae’n amlwg am fod yn bositif i blant a phobl ifanc, eto yn arbennig oherwydd croesdoriadaeth.  Mae’n delio â llesiant fydd yn cynnwys gofalwyr ifanc, dysgwyr â niwroamrywiaeth ac ati.<br><br>Derbyniwyd mwy o adborth am yr amcan yma nag unrhyw un arall.  Defnyddiwyd rhai ohonynt i addasu’r pwyntiau gweithredu a bydd |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhai o’r materion a godwyd ynglŷn a phlant a pobl ifanc oedd:<br>• Anghenion pobl hŷn LHDTC+ sydd yn debygol o fod wedi cuddio eu hunaniaeth yn hanesyddol.<br>• Yr angen i glywed llais pobl hŷn.<br>• Yr angen i gefnogi pobl hŷn drwy gefnogi gofalwyr yn y gweithle<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae mwy o unigolion dan 25 yng Ngwynedd nag unrhyw sir arall yn y gogledd (28.7%). Mae'r nifer o bobl dros 65 ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer gogledd Cymru.<br><br>Roedd cyrhaeddiad plant yng Ngwynedd ym mlwyddyn 11 yn 2018/19 yr uchaf yng ngogledd Cymru. Yn y cyfnod 2019-20 roedd 19% o fechgyn a 12% o enethod yn dweud eu bod wedi bwlio rhywun yn yr ysgol (gogledd Cymru). Mae 35% o blant oed uwchradd (blynyddoedd 7 i 11) yng ngogledd Cymru yn dweud eu bod wedi cael eu bwlio, sy'n is na'r cyfartaledd yn 2017/18 ond yn uwch na Cymru yn ei gyfanrwydd. Mi aeth y nifer o bobl ifanc oedd ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant yng ngogledd Cymru i lawr yn sylweddol am y cyfnod 2020-22 i 12.8% sy’n debyg iawn i'r nifer yng Nghymru gyfan. Mae hyn i'w gymharu a 14% yn 2018-20 (pan roedd cyfartaledd Cymru tua 13.1%).<br><br>Yn ystod Ebrill 21 - Mawrth 22 roedd 51% o bobl 16-24 mewn gwaith, ychydig is na'r cyfartaledd am y gogledd. Roedd 89% o bobl 25-49 mewn gwaith (yn uwch na'r gyfartaledd rhanbarthol) a 66% o bobl 50-64 (is na'r gyfartaledd). | yr adborth i gyd yn cael ei rannu gyda’r ysgolion ar gyfer gweithrediad lleol.<br><br>Roedd diddordeb arbennig yn yr amcan am fwlio, gyda’r rhan fwyaf o’r sylwadau yn gefnogol. Rydym wedi tynhau’r geiriad yn sgil y sylwadau. Roedd rhai sylwadau yn dweud nad oedd bwlio yn bod, ond rydym yn gwrthod y safiad yna. Roedd un grŵp yn teimlo fod angen cynnwys troseddau casineb yn ogystal â bwlio a rydym wedi gwneud hynny. Eraill yn meddwl fod angen cynnwys bob math o fwlio. Er fod yr amcanion yn ymwneud â nodweddion dan y ddeddf mi fydd yr adroddiadau yn delio â bwlio yn ei gyfanrwydd. Nodwyd yr angen am hyfforddiant penodol i athrawon.<br><br>Dywedwyd fod angen mwy o sylw i blant anabl a gyda phroblemau iechyd. Hefyd fod ymyrraeth cynnar yn bwysig |

| | | |
|---|---|---|
| | Yng Ngwynedd, y gyfran uchaf sy'n darparu gofal di-dâl yw'r rhai rhwng 50 a 64 oed (15.4%) ac mae'r isaf yn grŵp oedran 15 oed ac iau (1.1%).  Mae hyn yn debyg i weddill siroedd y gogledd.  Yng Ngwynedd, fel ym mhob sir, mae'r rhai sydd mewn iechyd gwael neu wael iawn yn cynyddu gydag oed, gydag 11.5% o bobl dros 65 yn y categorïau yna.<br><br>Mae’r ganran uchaf sy’n byw ar aelwydydd heb gar neu fan yng Ngogledd Cymru yn ôl oedran yn y grŵp oedran 65 oed a hŷn (17.8%), ac isaf yn y grŵp oedran 50 i 64 (9.1%).  Mae'r patrwm yma'n debyg i weddill y gogledd.  Ond yng Ngwynedd mae'r nifer o bobl 15-24 oed yn yr un sefyllfa (15.9%) yn nodweddiadol uwch na'r siroedd eraill.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn nodi fod pobl hŷn ymysg y grwpiau sy'n debygol o fod yn profi allgau'n ddigidol (er bod defnydd oedolion hŷn o’r rhyngrwyd yn cynyddu).  Maent hefyd yn un o'r grwpiau sy'n teimlo yn anniogel yn eu cymuned.  Mae'r nifer o bobl sy'n mynychu digwyddiadau diwylliant a chelfyddydol yng Ngwynedd yn disgyn gydag oed - gyda jyst dros hanner o bobl 75+ ddim yn mynychu tri digwyddiad y flwyddyn.<br><br>Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi fod pobl hŷn yn debycach o farw o Covid-19, a fod hynny, a'r ynysu a brofwyd yn ystod yr argyfwng, yn debyg o gael effaith hir-dymor ar iechyd corfforol a meddyliol.  Hefyd fod addysg, lefelau cyrhaeddiad a rhagolygon swyddi pobl ifanc wedi eu heffeithio.  Yn ychwanegol mae risg y gallai dysgu o bell fod wedi cynyddu anghydraddoldeb ar gyfer plant a phobl ifanc oedd ddim yn perfformiodd cystal yn yr ysgol cyn Covid-19.<br><br>**YMGYNGHORIAD:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn anffodus, ychydig o bobl dan 35 atebodd yr holiadur. Gan ein bod yn ymwybodol fod pobl ifanc ddim yn dueddol o lenwi holiaduron roeddem yn awyddus i gyfarfod gyda grwpiau. Mi wnaethom ni gysylltu â nifer o fudiadau ieuenctid cyn ac yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, a chael sgyrsiau e-bost, ond cawsom drafferth gwneud trefniadau. Yr unig grwp fu'n bosib ymgynghori â nhw oedd Prentisiaid Cyngor Gwynedd.<br><br>Roedd 5 person (allan o'r 39 wnaeth ddweud fod angen rhoi mwy o sylw i un neu fwy o nodweddion) yn teimlo fod oedran ddim yn cael digon o sylw o fewn yr amcanion, sef tua 13%. | |
| **Crefydd a Chred** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Mae rhai grwpiau crefydd wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb: Canolfan Islamaidd Bangor, Cytûn (Cristnogol). Rydym ni wedi gofyn i grwpiau cred eraill i ymuno ond heb lwyddiant eto.<br><br>**Canlyniad:** .<br>Mae'r canrannau o ran cwblhau'r holiadur yn gymharol â'r canrannau yng Ngwynedd. Wedi dweud hynny, roedd llai o bobl oedd yn adnabod eu hunain fel Cristnogion, heb grefydd neu o grefydd arall, a roedd y nifer oedd wedi nodi Arall yn uwch.<br><br>Mae sylwadau wedi eu gwneud am grefydd yn yr holiadur, sef fod y Cyngor yn wrth-Gristnogol a a fod angen gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer defodau crefyddol. | Mae'r data yn dangos yn glir fod yna faterion i'w cyfarch ynglŷn â chrefydd a chred.<br><br>**Amcan 1**<br><br>Rhagwelir y bydd yn bositif oherwydd bydd yn cymryd i ystyriaeth o anghenion credoau gwahanol.<br><br>**Amcan 2**<br><br>Bydd casglu data o fudd gan fod diffyg data lleol.<br><br>**Amcan 3**<br><br>Bydd yn bositif oherwydd byddwn yn ystyried credoau fel rhan o'r asesiadau effaith |

| | | |
|---|---|---|
| | **DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae 46.2% o bobl Gwynedd yn adnabod eu hunain fel Cristnogion, ac mae hynny'r canran isaf yng Ngogledd Cymru. Dywedodd 44.2% fod ganddynt ddim crefydd, sef y canran uchaf yn y gogledd. Roedd y canran wnaeth ddim ateb hefyd yr uchaf yn y rhanbarth, sef 7.5%. Mae 1% o'r boblogaeth yn Foslem.<br><br>Pobl sydd heb ateb y cwestiwn ar grefydd yw'r rhai lleiaf tebyg i o fod â gradd (38%), a'r rhai heb grefydd wedyn (39%) a Christnogion (42%). Mae'r crefyddau eraill yn eithaf hafal rhwng 55-60%. Mae'r patrwm yma yn debyg i un gogledd Cymru heb law fod y crefyddau yn y canol yn hafal ar tua 45-48%.<br><br>Roedd pobl Iddewig yng Ngwynedd yn llawer mwy tebygol o adnabod eu hunain fel gofalwyr (tua 17%), pobl o "grefyddau eraill" oedd yn ail (16%). Pobl oedd heb ateb y cwestiwn crefydd a chred (jyst o dan 5%) oedd yr isaf, a Moslemiaid (jyst dros 5%). Mae'n amlwg o edrych ar ganlyniadau'r gwahanol siroedd nad oes patrwm amlwg yma, mae'n debyg oherwydd niferoedd isel rhai crefyddau. Mae ffigyrau yn dangos fod pob o'r grefydd Mwslimaidd yn llai tebygol o adrodd fod ganddynt iechyd drwg neu ddrwg iawn yng Ngwynedd (1%), ac yna pobl Hindŵaidd (2%). Pobl o grefyddau eraill oedd yn fwyaf tebygol (11%). Eto rhaid bod yn ofalus oherwydd y ffigyrau isel.<br><br>Roedd 40 digwyddiad o drosedd casineb ar sail crefydd wedi eu cofnodi yng Ngogledd Cymru yn ystod 2021/22, codiad o 150% ers 2016/17.<br><br>**YMGYNGHORIAD:** | **Amcan 4**<br><br>Bydd yn ran o’r ail-ystyriaeth ar naratif ein amgueddfeydd, ac mae materion trefniadaeth a tai yn siŵr o fod yn berthnasol (bydd yr asesiadau unigol yn dangos hyn yn well).<br><br>**Amcan 5**<br><br>Mae plant o rai crefyddau a chyrhaeddiad is na’u gilydd felly bydd) yn bositif. Bydd y pwynt gweithredu am fwlio hefyd yn bositif. |

| | | |
|---|---|---|
| | Y carfan mwyaf o bobl wnaeth lenwi'r holiadur oedd pobl heb grefydd, gyda nifer ychydig yn llai yn dweud eu bod yn Gristnogion.<br><br>Roedd 10 person (allan o'r 39 wnaeth ddweud fod angen rhoi mwy o sylw i un neu fwy o nodweddion) yn teimlo fod crefydd a chred ddim yn cael digon o sylw o fewn yr amcanion, sef tua 25%. | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **YMGYSYLLTU**<br><br>**Dull:**<br>Mae grwpiau LHDTC+ wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb: Grwp LHDTC+ GISDA, Unique Transgender Network ac aelod unigol.<br><br>Ymwelodd y swyddogion cydraddoldeb â Balchder Gogledd Cymru yn Nghaernarfon, gan roi cardiau hefo côd QR arnynt i rhai oedd yn cymryd rhan ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Gofynnwyd i rai unigolion i lenwi fersiwn byr o'r holiadur hefyd. Ymwelwyd hefyd â Grŵp LHDTC+ GISDA ble defnyddiwyd dulliau amgen i ymgysylltu ac Unique Transgender Network be cafwyd sgwrs cyffredinol gan hybu'r holiadur.<br><br>**Canlyniad:**<br><br>Mae canran is o bobl heterorywiol neu strêt wedi llenwi'r holiadur (76.5%), i'w gymharu â phoblogaeth Gwynedd (87.3%) ac mae'r niferoedd o ddynion hoyw, merched hoyw neu lesbiaidd, pobl deurywiol ac o rywioldeb arall wedi ei lenwi yn uwch. | Mae'r data yn dangos yn glir fod yna faterion i'w cyfarch ynglŷn â'r maes<br><br>**Amcan 1**<br><br>Rhagwelir y bydd yn bositif oherwydd ei fod yn ymwneud ag amrywiaeth yn y gweithlu. Mae pobl ifanc LHDTC+ yn arbennig wedi dweud wrthym am yr heriau maent yn wynebu oherwydd cyflyrau iechyd meddwl, a byddai gwneud y gweithle yn le mor groesawgar â phosib yn gam ymlaen.<br><br>Roedd gan rai pobl bryder am y pwynt gweithredu i wella amrywiaeth ein gweithlu, gan ddweud na ddylai pobl gael eu dewis oherwydd eu ethnigrwydd ayb. Fel rydym wedi nodi, nid oes bwriad gwneud hynny, ond yn hytrach i ddenu amrywiaeth o ymgeiswyr er mwyn cael y person gorau am y swydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd canran uwch o ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn ddyn hoyw neu'n ddynes hoyw / lesbaidd yn cefnogi parhau gydag ymgysylltiad (Amcan 2). Ynglŷn ag Amcan 3 (Asesu effaith) roedd canran uwch o'r ymatebwyr deurywiol, hoyw neu lesbaidd yn nodi 'ydw', gyda canran uwch o'r ymatebwyr heterorywiol / strêt yn nodi 'ddim yn siŵr'. Roedd canran uwch o'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn deurywiol, hoyw neu lesbaidd yn nodi fod amrywiaeth y gweithlu'n bwysig.<br><br>Yn ystod yr ymgysylltiad y prif thema a gododd am y nodwedd oedd iechyd meddwl yn enwedig ymysg pobl ifanc LHDTC+. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd hyfforddiant. Materion eraill a godwyd oedd parch, cefnogaeth o fewn y Cyngor, data a therminoleg. Dywedodd un grŵp fod gwaith ymgysylltu yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gymunedau LHDTC+ gan ei fod yn dangos fod y Cyngor yn barod i ddysgu a gwella. Mae angen cofio anghenion pobl hŷn LHDTC+ hefyd, mae nifer wedi arfer cuddio eu hunaniaeth.<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae llai o bobl yng Ngwynedd yn adnabod eu hunain fel hetrorywiol neu strêt nag unrhyw un o siroedd y Gogledd (87.3% - cyfartaledd y gogledd 89.4%). Mae yna fwy o bobl gyda'r hunaniaeth Deurywiol (1.6% - canran y gogledd 1%) a heb ateb y cwestiwn (9.4%) nag yn unrhyw sir arall yn y rhanbarth. Mae'r nifer sydd wedi adnabod eu hunain yn Hoyw neu Lesbiaidd yn hafal â chanran y gogledd (1.3%).<br><br>Roedd dros 334 o droseddau casineb wedi eu cofnodi yng ngogledd Cymru ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn 2021/22, codiad o 430% ers | **Amcan 2**<br><br>Mae data yn brin am bobl LHDTC+, yn enwedig yn lleol, felly bydd Amcan 2 yn fuddiol.<br><br>**Amcan 3**<br><br>Bydd y gwaith asesu effaith a hyfforddiant yn gamau positif. Byddwn yn sicrhau fod y camau sydd wedi eu gwneud eisoes o fewn hyfforddiant yn parhau.<br><br>**Amcan 4**<br><br>Positif fydd y gwaith ail-ddehongli.<br><br>Mae data yn dangos fod digartrefedd yn uchel ymysg pobl ifanc LHDTC+.<br><br>**Amcan 5**<br><br>Gan fod pobl ifanc LHDTC+ wedi dweud wrthym am yr heriau iechyd meddwl maent yn wynebu, mi fydd y pwyntiau gweithredu ar fwlio a llesiant yn arbennig o bwysig.<br><br>Rhoddodd cwpl o bobl wybod am eu amheuon ynglŷn a'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. |

| | | |
|---|---|---|
| | 2016/17. Mae pobl sydd ddim yn uniaethu fel hetrorywiol yn teimlo'n llai diogel yn eu cymunedau.<br><br>**Cynllun Gweithredu LHDTC+, Llywodraeth Cymru:**<br>Nid oes llawer o waith wedi ei nodi i Awdurdodau Lleol yn y lle cyntaf yn y Cynllun yma. Maes Tai ydi'r unig un ble mae sôn pendant ond mae hwnnw'n waith tymor hir. Bydd felly angen disgwyl am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y gwaith maent hwy angen ei wneud, er mwyn adnabod ein dyletswyddau yn iawn. Yn y cyfamser wrth gwrs bydda angen ymateb i ffactorau lleol.<br><br>YMGYNGHORIAD:<br><br>Roedd 73% o ymatebwyr yn hetrorywiol, 4.7% yn ddeurywiol, 2.7% yn ddynion hoyw, 1.3% yn fenywod hoyw / lesbiaidd, ac 1.3% yn adnabod eu hunain mewn ffordd arall. Roedd y gweddill (27.1%) wedi dewis peidio neu heb ymateb.<br><br>Roedd 9 person (allan o'r 39 wnaeth ddweud fod angen rhoi mwy o sylw i un neu fwy o nodweddion) yn teimlo fod cyfeiriadedd rhywiol ddim yn cael digon o sylw o fewn yr amcanion, sef tua 23%. | |
| **Ail-bennu rhywedd** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Mae rhai mudiadau sy'n cynrychioli pobl traws wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb sef Grŵp LHDTC+ GISDA, Unique Transgender Network. | Mae'r data yn dangos yn glir fod yna faterion i'w cyfarch ynglŷn ag ail-bennu rhywedd.<br><br>**Amcan 1**<br><br>Rhagwelir y bydd yn bositif oherwydd ei fod yn ymwneud ag amrywiaeth yn y gweithlu. Mae |

| | | |
|---|---|---|
| | Ymwelodd y swyddogion cydraddoldeb â Balchder Gogledd Cymru yn Nghaernarfon, gan roi cardiau hefo cod QR arnynt i rhai oedd yn cymryd rhan ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Gofynnwyd i rai unigolion i lenwi fersiwn byr o'r holiadur hefyd. Ymwelwyd hefyd â Grŵp LHDTC+ GISDA ble defnyddiwyd dulliau amgen i ymgysylltu, ac Unique Transgender Network ble cafwyd sgwrs cyffredinol gan hybu'r holiadur.<br><br>**Canlyniad:**<br>Mae’r canran o bobl sydd wedi ateb ydw i'r cwestiwn “Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu traws ayyb)” yn 1.3%, sy’n uwch na’r nifer o bobl sy’n dweud eu bod yn ddyn traws, dynes traws neu’n unrhyw ryw arall (0.3% gyda’u gilydd, weler isod) yn y cyfrifiad.<br><br>Yn ystod yr ymgysylltiad y prif thema a gododd am y nodwedd oedd iechyd meddwl yn enwedig ymysg pobl ifanc LHDTC+. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd hyfforddiant. Materion eraill a godwyd oedd parch, cefnogaeth o fewn y Cyngor, toiledau cyhoeddus, data a therminoleg. Dywedodd un grŵp fod gwaith ymgysylltu yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gymunedau LHDTC+ gan ei fod yn dangos fod y Cyngor yn barod i ddysgu a gwella. Mae angen cofio anghenion pobl LHDTC+ hefyd, mae nifer wedi arfer cuddio eu hunaniaeth ac yn nerfus am adael i bobl wybod.<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae na lai o bobl yng Ngwynedd yn dweud fod eu hunaniaeth rhywedd (91.7%) yr un rhyw a'r un gofrestrwyd ar eu genedigaeth nag unrhyw sir yng ngogledd Cymru (92.8% yw canran y gogledd) ond mae yna fwy heb | pobl ifanc LHDTC+ yn arbennig wedi dweud wrthym am yr heriau maent yn wynebu oherwydd cyflyrau iechyd meddwl a byddai gwneud y gweithle yn le mor groesawgar â phosib yn gam ymlaen.<br><br>**Amcan 2**<br><br>Mae data yn brin am bobl LHDTC+, yn enwedig yn lleol, felly bydd yn fuddiol.<br><br>**Amcan 3**<br><br>Bydd y gwaith asesu effaith a hyfforddiant yn gamau positif hefyd. Byddwn yn sicrhau fod y camau sydd wedi eu gwneud eisoes o fewn hyfforddiant yn parhau.<br><br>**Amcan 4**<br><br>Bydd y gwaith o edrych ar naratif ein amgueddfeydd yn bositif iawn i'r nodwedd yma.<br><br>Mae data’n dangos fod digartrefedd yn uchel ymysg pobl ifanc LHDTC+.<br><br>**Amcan 5** |

| | | |
|---|---|---|
| | ateb y cwestiwn (8% - canran y gogledd 6.9%). Mae'r cyfradd sydd â hunaniaeth dyn traws, dynes traws a bob rhyw arall yr un faint â'r gogledd (0.1% yr un).<br><br>Roedd 50 o droseddau casineb adroddwyd yng ngogledd Cymru yn 2021/22 ar sail trawsrywedd. Mae hyn yn godiad o 525% ers 2016/17. Canfu ymchwil gan Stonewall yn 2017, a nodwyd yn eu adroddiad "LHDT ym Mhrydain: Adroddiad Traws", nad yw'r mwyafrif o bobl draws yn adrodd am ddigwyddiadau i'r heddlu, ac felly nid yw hyn yn cael ei adrodd yn ddigonol. Felly mae'r ffigurau troseddau casineb uchod yn annhebygol o ddangos yn llawn yr achosion o droseddau casineb yng Ngogledd Cymru.<br><br>**Cynllun Gweithredu LHDTC+:**<br>Nid oes llawer o waith wedi ei nodi i Awdurdodau Lleol yn y lle cyntaf yn y Cynllun yma. Maes Tai ydi'r unig un ble mae sôn pendant ond mae hwnnw'n waith tymor hir. Bydd felly angen disgwyl am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y gwaith maent hwy angen ei wneud, er mwyn adnabod ein dyletswyddau yn iawn. Yn y cyfamser wrth gwrs bydd angen ymateb i ffactorau lleol.<br><br>**YMGYNGHORIAD:**<br><br>Dwedodd bron i 82% o ymatebwyr nad oedd eu hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eu geni, ac 1.3 yn dweud ei fod. Roedd bron i 17% o bobl heb neu wedi dewis peidio ymateb.<br><br>Roedd 5 person (allan o'r 39 wnaeth ddweud fod angen rhoi mwy o sylw i un neu fwy o nodweddion) yn teimlo fod ailbennu rhywedd ddim yn cael digon o sylw o fewn yr amcanion, sef tua 13%. | Gan fod pobl ifanc LHDTC+ wedi dweud wrthym am yr heriau maent yn wynebu oherwydd cyflyrau iechyd meddwl, mi fydd y pwyntiau gweithredu ar fwlio a llesiant yn arbennig o bwysig.<br><br>Rhoddodd cwpl o bobl wybod am eu amheuon ynglŷn a'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Soniwyd hefyd fod angen toiledau ac ystafelloedd newid un rhyw. |

| | | |
|---|---|---|
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | **YMGYSYLLTU:**<br>Ni wnaed unrhyw waith ychwanegol i gyrraedd y grwp yma gan nad oedd dim wedi ei adnabod fyddai'n eu hatal rhag cymryd rhan.<br><br>Mae canran uwch o bobl yng Ngwynedd sydd erioed wedi priodi neu fod mewn partneriaeth sifil (40%) nag yng ngweddill siroedd y gogledd. Felly mae yna lai o bobl sy'n briod (41.5%), wedi gwahanu (1.7%) neu wedi ysgaru neu â phartneriaeth sifil wedi ei ddiddymu (9.2%). Mae'r nifer o bobl sydd yn weddw neu'n barner sydd wedi goroesi o bartneriaeth sifil yn ganolig i'r rhanbarth (7.5%).<br><br>**YMGYNGHORIAD:**<br><br>Yn yr ymgynghoriad oedd 3 person (allan o'r 39 wnaeth ddweud fod angen rhoi mwy o sylw i un neu fwy o nodweddion) yn teimlo fod y nodwedd yma heb gael digon o sylw o fewn yr amcanion, sef tua 8%. Nid oedd unrhyw sylwadau am y nodwedd yma. | Nid ydym wedi adnabod y bydd y gwaith rydym yn wneud yn cael effaith negyddol ar unrhyw ganran ond byddwn yn monitro hyn wrth symud ymlaen. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim anghenion wedi ei adnabod ynglŷn ag ymgysylltu, oherwydd doedd dim rhwystr yn atal pobl hefo'r nodwedd yma i gymryd rhan. Nid ydym wedi adnabod y bydd y gwaith rydym yn wneud yn cael effaith negyddol ar unrhyw garfan ond byddwn yn monitro hyn wrth symud ymlaen.<br><br>Roedd 977 genedigaeth byw yng Ngwynedd yn 2022, i lawr o 1039 yn 2021. | Bydd Amcan 1 yn arbennig o bositif oherwydd mae'n rhoi llais i wahanol nodweddion o fewn y gweithle. Soniodd unigolyn am bolisïau a gweithio'n hyblyg o amgylch mamolaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn yr ymgynghoriad roedd oedd 5 person (allan o'r 39 wnaeth ddweud fod angen rhoi mwy o sylw i un neu fwy o nodweddion) yn teimlo fod anabledd ddim yn cael digon o sylw o fewn yr amcanion, sef tua 13%. Nid oedd unrhyw sylwadau am y nodwedd yma. | |
| **Yr Iaith Gymraeg** | **YMGYSYLLTU**:<br><br>Roedd 33.8% o'r rhai ymatebodd yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, 11.6% yn gallu'r iaith ond ddim yn hyderus ac 13.9% yn ddysgwyr. Roedd 25% yn dweud eu bod yn siarad yr iaith yn unig gyda 15.2% yn dweud nad oeddynt yn gallu siarad na deall yr iaith. Nid oedd bron i 10% yn dymuno ateb y cwestiwn.<br><br>Gofynnwyd cwestiwn penodol ar y Gymraeg yn yr holiadur sef:<br><br>Oes yna unrhyw faterion y dylem eu hystyried o ran yr iaith Gymraeg?<br><br>Y prif sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn oedd:<br><br>Ffactorau positif i'r iaith<br>• Pwysleisiwyd yr angen i warchod y Gymraeg<br>• Fod cefnogaeth i'r iaith o fewn yr economi yn cadw pobl ifanc yn yr ardal<br>• Pwysigrwydd addysg Gymraeg<br>• Yr angen i warchod arwyddion ac enwau Cymraeg<br>• Yr angen i ddefnyddio'r iaith yn gyntaf<br>• Yr angen am weithlu Cymraeg a hawliau pobl i gael gwasanaeth yn yr iaith | Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i'r iaith Gymraeg sydd yn rhai o'r sylwadau ac yn credu fod y Cyngor yn gweithredu ar y ffactorau positif â godwyd yn yr ymgysylltiad yn barod.<br><br>Nid ydym yn derbyn nifer o'r gosodiadau sydd yn cael eu gwneud yn y ffactorau negyddol yn yr ymgysylltiad, ac yn cael eu hategu yn yr ymgynghoriad. Sgil yw'r Gymraeg, fel unrhyw sgil arall o fewn manyldeb swydd ac mae'n sgil y gallu bron unrhyw berson ei ddysgu. Mae'n hollol anghywir, er enghraifft, i ddweud nad yw pobl o gefndir lleiafrif ethnig yn gallu siarad yr iaith. Wedi dweud hynny, rydym ni'n adnabod fod gennym fwy o waith i'w wneud i sicrhau fod pobl yn ymwybodol o'r ffaith fod swyddi gwahanol yn gofyn am wahanol lefelau o allu yn y Gymraeg. Bydd y gwaith ar edrych ar y gofynion mewn swyddi yn Amcan 1 yn cyfarch hyn.<br><br>Nid ydym yn derbyn fod ein defnydd o'r iaith Gymraeg yn effeithio effeithlonrwydd ein gwaith. I'r gwrthwyneb, mae'n sicrhau fod pobl |

| | | |
|---|---|---|
| | Ffactorau negyddol<br>• Honiadau fod gofyn am sgiliau yn y Gymraeg o fewn cyflogaeth yn hiliol, yn ac yn achos anfantais i bobl di-Gymraeg a lleiafrifoedd ethnig. Un person yn dweud fod neb o leiafrif ethnig yn gallu siarad y Gymraeg.<br>• Mae angen penodi'r person gorau i'r swydd, beth bynnag eu gallu ieithyddol<br>• Honiadau fod y defnydd o'r Gymraeg hefyd yn wahaniaethol ac yn dieithrio'n fwy cyffredinol, o fewn y gymuned a thwristiaeth.<br>• Rhai pobl anabl, yn arbennig ag anabledd dysgu, yn cael hi'n fwy anodd i ddysgu'r iaith<br>• Fod y Gymraeg yn ddrwg i'r economi gan nad yw pobl proffesiynol allai ddod i'r ardal i weithio yn awyddus i'w plant gael addysg Gymraeg<br>• Ni ddylai'r defnydd o'r Gymraeg fod ar draul gwasanaethau ac effeithlonrwydd, oherwydd y gost o ddefnyddio dwy iaith.<br><br>Awgrymiadau<br>• Rhoi cyfleoedd dysgu a chefnogaeth i bobl di-Gymraeg i ddysgu'r iaith, gyda galwadau am wersi am ddim o fewn y Cyngor a'r gymuned<br>• Esbonio pwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant i'r rhai sydd ddim yn gwybod.<br>• Ddefnyddio iaith hawdd ei ddeall, wrth gyfathrebu ac o fewn gwersi, a defnyddio dulliau fel fideo ar gyfer rhai sy'n methu darllen yr iaith yn hawdd.<br>• Parchu ieithoedd a diwylliannau eraill.<br><br>**DATA**: | Gwynedd yn cael gwasanaethau yn yr iaith mae nhw ei angen.<br><br>Ynglŷn â'r awgrymiadau, rydym eisoes yn darparu gwersi Cymraeg ar nifer o lefelau ar gyfer staff. Rydym hefyd yn gweithio gyda mudiadau fel Menter Iaith Gwynedd i sicrhau fod gwersi ar gael yn y cymunedau.<br><br>Bydd esbonio pwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant yn ran o'r gwaith yn Amcan 1 sydd wedi ei grybwyll yn barod.<br><br>Mae symleiddio'r iaith yn rywbeth sy'n cael ei grybwyll eisoes ac yn rhan o'r gwaith ar ein gwefan yn Amcan 3<br><br>Mae'r Cyngor yn parchu ieithoedd a diwylliannau eraill a rydym yn gobeithio y daw mwy o syniadau am hyn o'r gwaith amrywiaeth ein gweithlu, yn arbennig y fforwm staff.<br><br>Felly yr effaith mwyaf rydym ni'n rhagweld fydd yr amcanion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg fydd yn y meysydd uchod. Bydd y gwaith ar ledaenu'r neges am y rheswm dros gyflogi pobl gyda sgiliau yn y Gymraeg yn bositif, o fewn y Cyngor ac yn y gymuned yng Ngwynedd, trwy sicrhau gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae 64.5% o bobl Gwynedd (tair mlynedd oed neu hŷn) yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg, sef 73,600. Mae hynny yr uchaf yng Nghymru o ran nifer a chanran.<br><br>Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor, dan Safonau'r Gymraeg, i osod gofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd a hysbysebir. Mae hyn yn golygu bod sgiliau iaith yn cael ei nodi fel sgil hanfodol ar gyfer pob swydd, a'r union lefel o sgiliau sydd ei angen yn cael ei bennu yn dibynnu ar natur y swydd. Mae'n debyg bod camddealltwriaeth am y gofynion hyn, a thuedd i feddwl bod hanfodol yn golygu angen gallu siarad yn rhugl, yn arwain at y farn bod y Cyngor yn gwahaniaethu.<br><br>**YMGYNGHORIAD:**<br><br>Roedd 57.7% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg i ryw lefel.<br><br>Gofynnwyd y cwestiwn "Yn eich barn chi, a yw cyflwyno'r amcanion yma yn debygol o gael effaith ar gyfleodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a statws y Gymraeg yn y gymuned?"<br><br>Roedd 22 o ymatebwyr yn meddwl y byddai'n cael effaith, dywedodd rhai y byddai'n cael effaith positif a cwpl yn dweud y byddai'n cael effaith negyddol. Roedd 40 yn meddwl na fyddai'n cael effaith, y rhan fwyaf heb ymhelaethu ond rhai yn nodi ei fod yn fater ar wahân ac eraill yn dweud fod angen gwersi Cymraeg.<br><br>Yn ychwanegol, roedd 24 yn teimlo fod y Gymraeg yn cael gormod o sylw, gyda sylwadau am fod ag obsesiwn am yr iaith a'i fod yn rwystr i ddatblygiad a chydraddoldeb. Ar y llaw arall roedd 10 yn teimlo nad | digwydd. Bydd defnyddio iaith haws i'w ddeall yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Byddwn yn ystyried y sylwadau i gyd wrth wneud cynllun gweithredu manwl ac asesiadau effaith Amcan unigol. |

| | | |
|---|---|---|
| | oedd yr iaith yn cael digon o sylw, fod angen gwarchod pobl Cymraeg rhag hiliaeth a dylai'r iaith gael amcan ei hun ac eisiau gwersi Cymraeg.<br><br>Ymhellach roedd 6 yn sôn am beidio cyflogi pobl di-Gymraeg a 5 yn teimlo fod gormod o wariant ar y Gymraeg. Roedd 17 ddim yn ffitio i'r categorïau yma, e.e. roedd cwpl yn meddwl efallai y byddai'n cael effaith ar yr iaith, gydag eraill yn sôn am bwysigrwydd cymuned, hawliau pobl i siarad yr iaith mae nhw'n ddymuno, a materion tu allan i sgôp yr amcanion.<br><br>Ategwyd nifer o'r materion uchod yn yr ymatebion i'r cwestiynau yng ngweddill yr ymgynghoriad hefyd. | |
| **Ystyriaethau Economaidd-Gymdeithasol** | **YMGYSYLLTIAD**:<br><br>Rydym yn credu fod y bobl sy'n byw mewn sefyllfa o anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu cyfarch drwy'r nodweddion cydraddoldeb. Mae hynny oherwydd fod ystadegau'n dangos fod pobl â nodweddion penodol yn fwy tebygol o brofi anfantais o'r fath (gweler uchod). Gan ein bod yn ceisio cyfarfod ystod o bobl mewn cyfarfodydd y byddent yn mynychu'n arferol, gobeithiwn gyrraedd y rhai na fyddai'n llenwi ein holiaduron yn arferol. Bydd hyn yn ein helpu i gyrraedd pobl sydd ddim yn defnyddio cyfrifiadur neu yn cael problemau trafnidiaeth.<br><br>**Canlyniad:**<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth** | Rhagwelir y bydd effaith yr amcanion yn bositif oherwydd eu bwriad yw sicrhau cydraddoldeb, ac mae data'n dangos fod pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn fwy tueddol o brofi anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae Amcan 1 yn ymwneud â gwella anghydraddoldebau tâl. Mae hefyd yn ymwneud ag annog pobl o amrywiol gefndiroedd i ymgeisio am waith o fewn y Cyngor. Dylai hynny gyfrannu tuag at ddelio ag anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae casglu data'n fuddiol er mwy gallu adnabod ble mae angen gweithredu. Mae hynny'n arbennig o wir wrth ofyn am farn gwahanol grwpiau. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae llawer o ddata wedi ei ddangos dan y nodweddion penodol. Rhai esiamplau yw fod llai o bobl anabl â mynediad at gar neu fan, bwlch tâl o ran rhyw, y ffaith fod rhai carfannau yn fwy ofnus yn eu cymdeithas ayb.<br><br>Mae 54% o ddysgwyr yng Ngwynedd sydd ddim yn gymwys am ginio am ddim yn cyrraedd Lefel 2 ym mlwyddyn 11 (data 2018/19), a 30% o ddysgwyr sydd yn gymwys am ginio am ddim. Mae 1.9% o aelwydydd yng ngogledd Cymru yn orlawn (dim digon o lofftydd), sydd bron iawn yr un canran â gogledd Cymru (2%).<br><br>Mae'r nifer o aelwydydd sydd ar Credyd Cynhwysol wedi codi o 8.4% yn Tachwedd 2021 i 9% yn Nhachwedd 2022, ond Gwynedd sydd â'r nifer lleiaf yng ngogledd Cymru. Mae'r nifer o bobl yng Ngwynedd sy'n byw mewn aelwyd sy'n profi amddifadedd materol yn 13%, yn fwy nag unrhyw sir arall heb law am Wrecsam, sy'n hafal. Mae'r nifer o ferched yn y sefyllfa yma yn 14%, eto'r uchaf o bob sir ac yn hafal a Wrecsam. Yn 2018 roedd Gwynedd â 23% o aelwydydd mewn tlodi tanwydd, llawr uwch na siroedd eraill (yr agosaf oedd ynys Môn ar 17% a'r lleiaf Sir Fflint ond yn 9%). Dyma ydi'r data lleol mwyaf diweddar ac nid yw wrth gwrs yn ystyried y codiadau sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<br><br>Mae pobl yng Ngwynedd yn fwy tebygol o ddweud fod eu iechyd yn dda iawn na siroedd eraill y gogledd, ac yn llai tebygol o ddweud eu bod mewn iechyd gwael iawn.<br><br>Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi gofyn i sampl o bobl ym mhob sir ac wedi canfod fod pobl Gwynedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon gyda'u gallu i gyrraedd gwasanaethau lleol. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn | Bydd Amcan 3 yn cyfrannu tuag at leihau anfantais economaidd gymdeithasol drwy gael gwared ar rwystrau sy'n wynebu pobl wrth geisio canfod gwybodaeth ar wefan y Cyngor. Bydd hyfforddiant yn gwella dealltwriaeth staff o anghenion pobl yn fwy cyffredinol ac asesu effaith yn gwneud hyn o fewn penderfyniadau. Bydd gweithredu yn erbyn trais yn erbyn merched yn sicr o fod o gymorth.<br><br>Drwy wella ein gwasanaethau, Amcan 4, byddwn ym edrych i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn sgil sylwadau, rydym wedi ychwanegu pwynt gweithredu ar tai ac ar drafnidiaeth.<br><br>Mae Amcan 5 yn helpu i unioni unrhyw wahaniaethau o fewn Addysg ac felly'n bwysig yn y maes yma hefyd.<br><br>Byddwn yn ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol wrth symud ymlaen i wneud cynllun gweithredu manwl ac asesiadau effaith unigol. |

fodlon iawn neu'n eithaf bodlon gydag argaeledd y gwasanaethau ar gael.

Mae'r nifer o bobl sy'n byw mewn aelwyd heb fynediad at gar neu fan yn 12.4%, sy’n 0.1% yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer gogledd Cymru. Mae’r canran o aelwydydd â mynediad i'r we yn codi'n araf o 85% yn 2018/19 i 87% yn 2021/22, a Gwynedd sydd a'r nifer isaf yn y Gogledd. Mae'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r we hefyd wedi codi o 87% i 91%, sydd yn gydradd isaf gydag Ynys Môn. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai’r pobl sydd mewn mwy o berygl o gael eu hallgáu’n ddigidol yng Nghymru yw: oedolion hŷn (er bod defnydd oedolion hŷn o’r rhyngrwyd yn cynyddu), pobl anabl neu gyflyrau iechyd hirdymor, pobl â chyrhaeddiad addysgol is, pobl neu deuluoedd ar incwm is, poblogaethau gwledig, siaradwyr Cymraeg, pobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, pobl sy'n ynysig yn gymdeithasol neu'n unig a phobl ddigartref.

Mae'r nifer o bobl sy'n mynd i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth yng Ngwynedd wedi cynyddu o 2017/18 i 2019/20, tra mae pob sir arall wedi gweld gostyngiad. Mae hynny'n golygu fod y siroedd i gyd yn eithaf tebyg. Mae'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol wedi codi o 53% yn 2016/17 i 59% yn 2021/22.

Aeth y nifer o bobl dros 16 oedd yn fodlon gyda'u ardal lleol fel lle i fyw i fyny yng Ngwynedd o 89% yn 2018/19 i 92% yn 2021/22. Yn yr un cyfnod roedd y pobl oedd yn teimlo fod nhw'n perthyn i'r ardal, fod pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod ymlaen yn dda, a fod pobl yn trin eu gilydd â pharch wedi codi o 53% i 73%. Yn 2021/22 roedd 11% o bobl Gwynedd yn dweud eu bod yn teimlo'n unig.

| | | |
|---|---|---|
| | **YMGYNGHORIAD**:<br><br>Mewn atebion i'r cwestiwn “Yn eich barn chi, a yw cyflwyno’r amcanion yma yn debygol o gael effaith ar bobl sy’n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol?”  Roedd 42 person ym meddwl y byddai, neu’n debygol o o fod, yn bositif ac o gymorth i'r gymuned.  Dywedodd nifer y byddai’n dibynnu ar ba mor dda oedd o’n cael ei weithredu.<br><br>Ar y llaw arall, credai 37 na fyddai’n cael effaith bositif, ni roddodd y rhan fwyaf reswm ond dywedodd eraill  nad oeddynt yn credu y byddai’n cael ei weithredu, yr angen i wella’r economi, fod gwaith ar hyn yn cael ei wneud yn barod a thaliadau sy’n rhaid i bobl wneud i'r Cyngor.<br><br>Nododd 9 person bwysigrwydd trafnidiaeth. Dywedodd 8 fod ystyried hyn yn rhy gostus, cododd 5 faterion am iaith, a soniodd 3 am bwysigrwydd cyflogaeth.<br><br>Yn rhai o’r cyfarfodydd, trafodwyd yr angen am dai addas. | |
| **Hawliau Dynol** | Mae Erthygl 14 Gwarchod rhag wahaniaethu yn arbennig o berthnasol ond mae erthyglau eraill yn berthnasol hefyd:<br>Erthygl 5 Yr hawl i ryddid a diogelwch<br>Erthygl 8 Yr hawl i barch i fywyd, teulu, cartref a gohebiaeth breifat<br>Erthygl 9 Yr hawl i ryddid meddwl, cred a chrefydd<br>Erthygl 12 Yr hawl i briodi a sefydlu teulu | Roedd gan yr ymgysylltiad effaith bositif gan fod pobl yn rhoi eu barn er mwyn dylanwadu ar ein amcanion.  Rhagwelir y bydd yr amcanion yn bositif hefyd oherwydd eu bod yn cyd-fynd gyda'r erthyglau. |
| **Arall** | Holwyd dau grŵp o ofalwyr ifanc.  Holwyd gofalwyr sy’n oedolion fel rhan o’r digwyddiad Boccia<br><br>Nid ydym wedi targedu pobl eraill ond roedd yr holiadur yn agored i bawb | Roedd yr ymgysylltiad yn gadarnhaol ar y ofalwyr a dim effaith ar y carfannau eraill.<br><br>Bydd yr amcanion yn bositif ar garfannau fel gofalwyr (gweler hefyd Anabledd uchod). |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'n ofynnol, dan Ddeddf Lluoedd Arfog 2022 i ni roi sylw dyledus i'r effaith ar aelodau a chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd, fel nad ydynt yn cael eu trin yn llai ffafriol nag eraill. Dylai'r cynllun gael effaith gadarnhaol ar rai rhannau o'r gymuned yma oherwydd ei fod yn ystyried anghenion plant mewn ysgolion a pobl anabl. |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut ydych yn bwriadu ymdrin ag hwy?**

Mae'n amlwg fod prinder data ar rai nodweddion cydraddoldeb ac mae un o'n pwyntiau gweithredu yn gweithio ar hyn.

Ein bwriad ydi casglu gymaint o wybodaeth a phosib dros y blynyddoedd nesaf.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Dylai'r gwaith rydym yn wneud ar amcanion gyd-fynd gyda gwaith arall Cyngor Gwynedd er mwyn gwella tegwch. Rydym yn ymwybodol fod posib i'r gwaith yma gael ei effeithio gan y cyllid sydd ar gael dros y 4 blynedd nesaf a byddwn yn cadw golwg ar hynny. Mae llawer iawn o ymgysylltu ac ymgynghori'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau fod yr wybodaeth sydd wedi ei gasglu yma ar gael ar gyfer swyddogion eraill er mwyn osgoi dyblygu.

**8. Beth mae eich cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Pwrpas y cynllun yw sicrhau tegwch felly mae'n gweithredu ar y 3 nod yma. Rydym yn helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth drwy ofyn barn pobl, gwella amrywiaeth ein gweithlu ayb. Mae un amcan yn addo i ddod i'r afael â gwrth-wahaniaethu felly yn greiddiol i'r

nod cyntaf.  Rydym wedi hyrwyddo cyfle cyfartal drwy annog pobl i gymryd rhan yn yr ymgysylltiad â’r ymgynghoriad yn y ffordd gorau iddyn nhw.  Mae hyn yn golygu ein bod yn cael ystod o farn i'n helpu i ffurfio'r amcanion yma.  Bydd sicrhau tegwch drwy'r amcanion hefyd yn hyrwyddo cyfle cyfartal, ac yn sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer pobl yn ddibynnol ar eu hanghenion.  Bydd yr uchod yn golygu gwell berthynas rhwng pobl ag amrywiol nodweddion gan y byddwn yn tu trin yn ôl eu hangen, ac yn sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed.

**9. Sut mae’r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Mae’r rhan ar Anfantais Economaidd-Gymdeithasol yn cwestiwn 5 yn dangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth i anfantais economaidd gymdeithasol ac mae pob un o’r 5 amcan yn gwella pethau yn y maes yma. Rydym ni wedi ychwanegu pwyntiau gweithredu ar dai a thrafnidiaeth yn sgil yr ymgynghoriad.

**10. Sut mae’r cynnig yn dangos eich bod yn gweithio yn unol â  gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â  pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Roedd pob adnodd yn ddwyieithog a sgyrsiau yn digwydd drwy gyfrwng dewis iaith y rhai oedd yn cymryd rhan.  Roedd hyn weithiau’n golygu cael sgyrsiau dwyieithog.

Fel sydd wedi ei ddangos uchod yn cwestiwn 5, rydym wedi gweithredu ar awgrymiadau sydd wedi eu derbyn i greu pwyntiau gweithredu sy’n fanteisiol i'r iaith.  Rydym ni yn edrych ar y ffyrdd rydym ni’n gweithredu o fewn cyflogaeth, a bydd hyn yn cynnwys esbonio pam ein bod angen gweithlu sy’n gallu siarad yr iaith, ond hefyd yn dangos nad oes rhaid bod yn hollol rhugl i gael swydd o fewn y Cyngor.  Gobeithir y bydd hyn yn achosi llai o ddrwg-deimlad yn y dyfodol.  Bydd defnyddio iaith addas i'r gynulleidfa ar ein gwefan yn hybu’r iaith hefyd, gan sicrhau y bydd mwy o bobl yn gallu ei ddefnyddio.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i’r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Y nod llesiant dan sylw yma yw "Cymru Sy'n Fwy Cyfartal" gan mai dyma bwrpas y gwaith yma.  Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at Cymru lewyrchus, oherwydd y bydd yn gwella sefyllfa pobl â nodweddion cydraddoldeb.  Hefyd Cymru o gymunedau cydlynus, ble mae pobl a gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael gwell tegwch.  Mae'r 5 ffordd o weithio yn cael eu diwallu fel hyn:  Hirdymor - mae'r amcanion

fydd yn cael eu creu yn rai 4 blynedd, ond dylent gael effaith ehangach na hynny; Atal - ein bwriad yw gweithio i gael gwared ar rwystrau; Integreiddio - bydd y Cynllun yma yn prosiect o fewn Cynllun y Cyngor ac yn effeithio ar waith y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Cydweithio - rydym yn cydweithio gyda'r cyhoedd drwy eu cynnwys yn yr ymgysylltiad a hefyd gyda mudiadau cyhoeddus eraill y rhanbarth drwy'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Mudiadau Cyhoeddus Gogledd Cymru ac yn bwydo i mewn i ddiwallu Amcanion Gogledd Cymru; Cynnwys - bwriad yr ymgysylltiad ydi caniatáu i bobl rhoi eu barn a dylanwadu ar yr amcanion cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau.

## CAM 3

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Na fydd, er byddwn yn cydweithio fel sydd wedi ei grybwyll uchod.

## CAM 4

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal? (Rhowch y manylion yn fras)**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Bwriad yr Amcanion Cydraddoldeb newydd yw cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Rydym wedi sicrhau fod yna resymeg gref dros eu dewis, gan gynnwys ymgysylltu'n eang.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**

Nac ydi

**14. Pa fesurau neu newidiadau fyddwch chi'n eu cyflwyno i'r polisi neu'r ymarfer yn y drafft terfynol allai leihau neu ddileu unrhyw effaith neu anfantais anghyfreithlon/ negyddol, a/neu wella cyfleoedd cyfartal/gyflwyno newid positif; neu leihau canlyniadau anghyfartal yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Bwriad yr Amcanion yw gwella cyfleoedd cyfartal a lleihau neu gael gwared ar ganlyniadau anghyfartal. Mae'r data sydd wedi ei nodi yn cwestiwn 5 yn dangos yn glir fod bod â rhai nodweddion gwarchodedig penodol, fel bod yn berson anabl, yn ferch sy'n benteulu, neu'n aelod o grwp ethnig penodol yn golygu fod mwy o siawns i chdi brofi anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol. Mae'r amcanion felly yn eu hanfod yn dod i'r afael a hyn.

Rydym hefyd wedi sicrhau ein bod yn gwneud ymgysylltiad eang, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, er mwyn cael barn pobl â phrofiad bywyd o'r nodweddion yma, ac felly o anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol. Mae'r dulliau rydym ni wedi eu defnyddio wedi bod yn amrywiol er mwyn sicrhau fod cymaint o bobl â phosib wedi gallu cymryd rhan.

Rydym wedi gwneud cryn newidiadau i'r amcanion yn sgil ymgynghoriad, e.e. newid y geiriad ac ychwanegu pwyntiau gweithredu ar dai a thrafnidiaeth. Mae hyn er mwyn gwella cyfleodd cyfartal a chyflwyno newid positif. Yn yr un modd mae’r newidiadau yn cyfarch anfantais economaidd-gymdeithasol.

**15. Eglurwch unrhyw effaith negyddol bwriadol a nodwyd gennych ac eglurwch pam eich bod yn credu fod gennych gyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Dim wedi ei adnabod

**16. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Amherthnasol

**Nodwch eich rheswm dros ddweud hynny a’r cyfiawnhad dros barhau**

Amherthnasol

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech chi eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Ein cam cyntaf oedd sicrhau ein bod yn ymgysylltu gyda cymaint o amrywiaeth â phosib.  Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth yma, a data arall, er mwyn ffurfio amcanion drafft.  Bu cyfnod o ymgynghori ar yr amcanion hynny er mwyn cael barn pellach.  Mae hynny wedi arwain at wneud newidiadau fel rydym wedi sôn amdano uchod. Wrth symud ymlaen byddwn yn gwneud cynllun gweithredu gynhwysfawr ac asesiadau effaith ar bob amcan yn unigol er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech chi eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Fel 17

**19. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech chi eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Byddwn yn gwneud cynllun gweithredu cynhwysfawr ac asesiadau effaith ar bob amcan fydd yn edrych ar yr effaith ar yr iaith Gymraeg.

**20. A oes gennych chi ddigon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

**Os Oes, Nodwch eich cyfiawnhad dros hyn:**

Credwn ein bod wedi ffurfio’r amcanion gorau posib drwy ystyried y barn a’r data rydym wedi ei gasglu.  Rydym felly’n argymell gweithredu ar yr amcanion.

## CAM 5

**21. Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, nodwch isod a ydych yn gallu symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Ydw - mae’r polisi neu gynllun yn addas

**CAM 6**

**22.** **Amlinellwch isod unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd yn eich helpu i fonitro eich polisi/ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| **Gweithrediad** | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** |
|---|---|---|
| Gwneud cynllun gweithredu cynhwysfawr ar bob amcan | Ebrill - Mai 2024 | Arweinydd y prosiect |
| Gwneud asesiadau effaith ar bob Amcan | Ebrill – Mai 2024 | Rheolwr prosiect |

**23.** **Amlinellwch isod pa drefniadau fyddwch chi'n eu gwneud i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn yn cynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** |
|---|---|---|
| Adrodd ar y Cynllun | Yn flynyddol | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| Addasu’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb | Yn ôl yr angen | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |

# Dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur

## Cyflwyniad

Roedd yr holiadur ar gael ar lein, a copiau papur hefyd ar gael yn Siopau Gwynedd a Llyfrgelloedd ar draws y sir. Rhannwyd copiau hawdd eu darllen hefyd. Cafodd yr holiadur ei hyrwyddo drwy cyfryngau cymdeithasol Cyngor Gwynedd, gwefan Cyngor Gwynedd fel 'pop-up' pan yn ymweld â'r wefan a thrwy Panel Trigolion Cyngor Gwynedd. Anfonwyd e-byst allan at fudiadau lleol a chenedlaethol sy'n cefnogi pobl gyda nodweddion cydraddoldeb yn yr ardal.

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw rhwng diwedd Hydref a Chwefror. Cafwyd 149 o ymatebion i'r holiadur.

## Canlyniadau

### *Pwy ymatebodd i'r holiadur?*

Cafwyd 149 o ymatebion i'r holiadur. Roedd yr rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymateb fel unigolion (95.3%, N=142).

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Unigolyn | 142 | 95.3% |
| Mudiad | 3 | 2.0% |
| Arall | 2 | 1.3% |
| Dim ateb | 2 | 1.3% |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0%** |

Fel y gwelir o'r tabl isod mae cynrychiolaeth o phob ardal llesiant.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dalgylch Pwllheli | 15 | 10.1 |
| Dalgylch Dolgellau | 12 | 8.1 |
| Dalgylch Bangor | 12 | 8.1 |
| Bro Ogwen | 10 | 6.7 |
| Bro Ardudwy | 8 | 5.4 |
| Bro Peris | 8 | 5.4 |
| Bro Lleu / Nantlle | 7 | 4.7 |
| Bro Dysynni | 7 | 4.7 |
| Ardal Pen Llŷn | 5 | 3.4 |
| Bro Ffestiniog | 5 | 3.4 |
| Ardal Porthmadog / Penryndeudraeth | 4 | 2.7 |
| Dalgylch Bala / Penllyn | 3 | 2.0 |
| Dalgylch Caernarfon | 2 | 1.3 |
| Tu allan i Wynedd | 1 | 0.7 |
| Dim ateb | 31 | 20.8 |
| Cod post ddim yn gyflawn | 19 | 12.8 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

**Rhyw**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dynes / Benyw | 61 | 40.9 |
| Dyn / Gwryw | 56 | 37.6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 17 | 11.4 |
| Dim ateb | 12 | 8.1 |
| Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol | 3 | 2.0 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

**Grŵp Oedran**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 15 oed neu iau | 0 | 0.0 |
| 16 – 24 oed | 2 | 1.3 |
| 25 – 34 oed | 2 | 1.3 |
| 35 – 44 oed | 19 | 12.8 |
| 45 – 54 oed | 19 | 12.8 |
| 55 – 64 oed | 29 | 19.5 |
| 65 – 74 oed | 32 | 21.5 |
| 75 – 84 oed | 20 | 13.4 |
| 85+ oed | 1 | 0.7 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 14 | 9.4 |
| Dim ateb | 11 | 7.4 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

**Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl | 34 | 22.8 |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn | 24 | 16.1 |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu | 20 | 13.4 |
| Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu | 8 | 5.4 |
| Ddim yn gallu siarad na deal Cymraeg | 27 | 18.1 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 16 | 10.7 |
| Arall | 10 | 6.7 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

**Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol?**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Prydeinig | 53 | 35.6 |
| Cymreig | 44 | 29.5 |
| Seisnig | 23 | 15.4 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 6.7 |
| Arall | 7 | 4.7 |
| Albanaidd | 2 | 1.3 |
| Dim ateb | 10 | 6.7 |
| Gwyddelig o Ogledd Iwerddon | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

**Beth yw eich hil?**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 112 | 75.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 15 | 10.1 |
| Dim ateb | 10 | 6.7 |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 5 | 3.4 |
| Arall | 3 | 2.0 |
| Asiaidd | 2 | 1.3 |
| Sipsiwn / Teithiwr Gwyddelig | 1 | 0.7 |
| Du / Affricanaidd / Caribiaidd | 1 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

**Beth yw eich crefydd?**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim crefydd | 54 | 36.2 |
| Cristion | 51 | 34.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 21 | 14.1 |
| Dim ateb | 11 | 7.4 |
| Arall | 7 | 4.7 |
| Bwdhaidd | 4 | 2.7 |
| Mwslim | 1 | 0.7 |
| Hindŵ | 0 | 0.0 |
| Iddewig | 0 | 0.0 |
| Sîc | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

**Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 100 | 73.5 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 21 | 15.4 |
| Dim ateb | 13 | 8.7 |
| Deurywiol (Bisexual) | 7 | 4.7 |
| Dyn hoyw | 4 | 2.7 |
| Dynes hoyw / lesbaidd | 2 | 1.3 |
| Arall | 2 | 1.3 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

**Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb)**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydi | 122 | 81.9 |
| Dim ateb | 13 | 8.7 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 12 | 8.1 |
| Ydi | 2 | 1.3 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os:

a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a


b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 99 | 66.4 |
| Ydw | 27 | 18.1 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 12 | 8.1 |
| Dim ateb | 11 | 7.4 |
| **Cyfanswm** | **149** | **100.0** |

### *Crynodeb o'r ymatebion i'r Amcanion Cydraddoldeb Drafft*

Dengys y graff isod grynodeb o'r ymatebion i'r Amcanon Cydraddoldeb Drafft a'u pwyntiau gweithredu. Gweler fod yr rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno gyda yr amcanion. Bydd dadansoddiad mwy manwl yn dilyn y crynodeb.



## *Amcan 1 – Gwella amrywiaeth ei gweithlu a lleihau bylchau tâl*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno neu cytuno yn rhannol hefo Amcan 1 a'i pwyntiau gweithredu (85.2%, N=127).

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 85 | 57.0 |
| Cytuno yn rhannol | 42 | 28.2 |
| Anghytuno | 18 | 12.1 |
| Dim ateb | 4 | 2.7 |
| **Cyfanwm** | **149** | **100.0** |

**Eglurwch eich ateb ar gyfer Amcan 1**

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i fewn i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

O'r rhai a nodwyd 'anghytuno', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Angen penodi'r person gorau i'r swydd | 8 | 44.4 |
| Yr amcan yn rhy gostus | 3 | 16.7 |
| Anghytuno gyda targedau amrywiaeth | 2 | 11.1 |
| Anodd cydbwyso amrywiaeth gyda'r iaith Gymraeg | 2 | 11.1 |
| Arall | 2 | 11.1 |
| Cytuno efo tâl cyfartal | 1 | 5.6 |
| **Cyfanswm** | **18** | **100.0** |

O'r rhai a nodwyd 'cytuno yn rhannol', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Angen penodi'r person gorau i'r swydd | 10 | 23.8 |
| Anodd cydbwyso amrywiaeth gyda'r iaith Gymraeg | 9 | 21.4 |
| Yr amcan yn rhy gostus | 6 | 14.3 |
| Yr amcan yn dda i'r gweithlu | 6 | 14.3 |
| Cytuno gyda tâl cyfartal | 5 | 11.9 |
| Anghytuno gyda thargedau amrywiaeth | 5 | 11.9 |
| Cytuno bod cael gweithle amrywiol yn bositif ac yn rhoi cyfle i bobl | 3 | 7.1 |
| Arall | 2 | 4.8 |
| **Cyfanswm** | **42** | **100.0** |

O'r rhai a nodwyd 'cytuno', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno bod cael gweithle amrywiol yn bositif ac yn rhoi cyfle i bobl | 19 | 39.6 |
| Cytuno gyda tâl cyfartal | 17 | 35.4 |
| Yr amcan yn dda i'r gweithlu | 16 | 33.3 |
| Anodd cydbwyso amrywiaeth gyda'r iaith Gymraeg | 5 | 10.4 |
| Angen penodi'r person gorau i'r swydd | 4 | 8.3 |
| Anghytuno gyda thargedau amrywiaeth | 2 | 4.2 |
| Arall | 1 | 2.1 |
| **Cyfanswm** | **48** | **100.0** |

## *Amcan 2 – Gwella ein data am bobl â nodweddion gwarchodedig cydraddoldeb*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno neu cytuno'n rhannol hefo Amcan 2 a'u pwyntiau gweithredu (77.2%, N=115)

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 88 | 59.1 |
| Anghytuno | 28 | 18.8 |
| Cytuno yn rhannol | 27 | 18.1 |
| Dim ateb | 6 | 4.0 |
| **Cyfanwm** | **149** | **100.0** |

**Eglurwch eich ateb ar gyfer Amcan 2**

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i fewn i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

O'r rhai a nodwyd 'anghytuno', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Data'n gallu cael ei gamddefnyddio neu gamddehongli | 10 | 35.7 |
| Arall | 9 | 32.1 |
| Yr amcan yn rhy gostus | 8 | 28.6 |
| Ansawdd data yn bwysig | 2 | 7.1 |
| Iaith | 1 | 3.6 |
| **Cyfanswm** | **28** | **100.0** |

O'r rhai a nodwyd 'cytuno yn rhannol', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ansawdd data yn bwysig | 7 | 25.9 |
| Iaith | 4 | 14.8 |
| Arall | 4 | 14.8 |
| Data'n gallu cael ei gamddefnyddio neu gamddehongli | 3 | 11.1 |
| Materion Staff | 2 | 7.4 |
| Yr amcan yn rhy gostus | 1 | 3.7 |
| **Cyfanswm** | **27** | **Canran** |

O'r rhai a nodwyd 'cytuno', y themâu a godwyd oedd:

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Ansawdd data yn bwysig | 29 | 33.0 |
| Materion Staff | 2 | 2.3 |
| Arall | 2 | 2.3 |
| Data'n gallu cael ei gamddefnyddio neu gamddehongli | 1 | 1.1 |
| Iaith | 1 | 1.1 |
| **Cyfanswm** | **88** | **100.0** |

## *Amcan 3 – Sicrhau fod y Cyngor yn fudiad wrth-wahaniaethol*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno neu cytuno'n rhannol hefo Amcan 3 a'u pwyntiau gweithredu (84.6%, N=126)

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 97 | 65.1 |
| Cytuno yn rhannol | 29 | 19.5 |
| Anghytuno | 16 | 10.7 |
| Dim ateb | 7 | 4.7 |
| **Cyfanwm** | **149** | **100.0** |

**Eglurwch eich ateb ar gyfer amcan 3**

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i fewn i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

O'r rhai a nodwyd 'anghytuno', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Pryder am gost ac effeithlonrwydd | 3 | 18.8 |
| Pryder am faterion ieithyddol | 2 | 12.5 |
| Pryder am y pwynt gweithredu amgueddfeydd | 2 | 12.5 |
| Arall | 2 | 12.5 |
| Teimlo fod y Cyngor / prosesau gwaith yn gwahaniaethu | 1 | 6.3 |
| Materion anabledd / hygyrchedd | 1 | 6.3 |
| Materion staff | 1 | 6.3 |
| Angen canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau | 1 | 6.3 |
| Cytuno fod angen yr amcan / bwysig | 1 | 6.3 |
| **Cyfanswm** | **16** | **100.0** |

O'r rhai a nodwyd 'cytuno yn rhannol', y themâu a godwyd oedd:

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Pryder am y pwynt gweithredu amgueddfeydd | 6 | 20.7 |
| Pryder am y pwynt gweithredu hyfforddiant | 5 | 17.2 |
| Pryder am cost ac effeithlonrwydd yr amcan | 5 | 17.2 |
| Materion anabledd / hygyrchedd | 4 | 13.8 |
| Arall | 3 | 10.3 |
| Pryder am faterion ieithyddol | 2 | 6.9 |
| Angen canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau | 2 | 6.9 |
| Cytuno fod angen yr amcan / ei fod yn bwysig | 2 | 6.9 |
| Teimlo fod y Cyngor / prosesau gwaith yn gwahaniaethu | 1 | 3.4 |
| Materion staff | 1 | 3.4 |
| **Cyfanswm** | **29** | **100.0** |

O'r rhai a nodwyd 'cytuno', y themâu a godwyd oedd:

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cytuno fod angen yr amcan / bwysig | 14 | 14.4 |
| Angen canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau | 12 | 12.4 |
| Arall | 6 | 6.2 |
| Pryder am faterion ieithyddol | 4 | 4.1 |
| Materion anabledd / hygyrchedd | 4 | 4.1 |
| Teimlo fod y Cyngor / prosesau gwaith yn gwahaniaethu | 2 | 2.1 |
| Pryder am y pwynt gweithredu hyfforddiant | 2 | 2.1 |
| Materion staff | 2 | 2.1 |
| Pryder am y pwynt gweithredu amgueddfeydd | 1 | 1.0 |
| Pryder am gost ac effeithlonrwydd yr amcan | 1 | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **97** | **100.0** |

## *Amcan 4 – Gwella cydraddoldeb o fewn maes addysg*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno neu cytuno'n rhannol hefo Amcan 4 a'u pwyntiau gweithredu (86.6%, N=129)

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 99 | 66.4 |
| Cytuno yn rhannol | 30 | 20.1 |
| Anghytuno | 11 | 7.4 |
| Dim ateb | 9 | 6.0 |
| **Cyfanwm** | **149** | **100.0** |

**Eglurwch eich ateb ar gyfer amcan 4**

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i fewn i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

O'r rhai a nodwyd 'anghytuno', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Pwysigrwydd delio gyda bwlio | 3 | 27.3 |
| Cytuno yn gyffredinol | 3 | 27.3 |
| Arall | 3 | 27.3 |
| Nodi blaenoriaethau eraill neu ddweud fod yr amcan yn rhy gostus | 1 | 9.1 |
| **Cyfanswm** | **11** | **100.0** |

O'r rhai a nodwyd 'cytuno yn rhannol', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno yn gyffredinol | 11 | 36.7 |
| Arall | 8 | 26.7 |
| Pwysigrwydd delio gyda bwlio | 5 | 16.7 |
| Materion ieithyddol ynglŷn ag addysg | 3 | 10.0 |
| Nodi blaenoriaethau eraill neu ddweud fod yr amcan yn rhy gostus | 1 | 3.3 |
| **Cyfanswm** | **30** | **100.0** |

O'r rhai a nodwyd 'cytuno', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno yn gyffredinol | 35 | 35.4 |
| Pwysigrwydd delio gyda bwlio | 12 | 12.1 |
| Nodi blaenoriaethau eraill neu ddweud fod yr amcan yn rhy gostus | 2 | 2.0 |
| Materion ieithyddol ynglŷn ag addysg | 1 | 1.0 |
| Arall | 1 | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **99** | **100.0** |

## *3. Oes unrhyw nodwedd warchodedig cydraddoldeb sydd ddim wedi derbyn sylw ddigonol yn yr amcanion uchod?*

Mae yna 9 nodwedd warchodedig perthnasol yma sef – oed, rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol (neu rhywioldeb), crefydd neu gred, anabledd, ail-bennu rhywedd (bod yn trans ac ati), priodas neu phartneriaeth sifil a beichiogrwydd neu mamolaeth.

Nododd ychydig dros chwarter o'r ymatebwyr (26.2%, N=39) fod yna nodweddion warchodedig cydraddoldeb ddim wedi cael sylw ddigonol yn yr amcanion uchod.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nag oes | 97 | 65.1 |
| Oes | 39 | 26.2 |
| Dim ateb | 16 | 8.7 |
| **Cyfanwm** | **149** | **100.0** |

**3.1 Nodwch y rhai sydd heb dderbyn sylw ddigonol**

O'r rhai a nododd 'oes', dyma'r nodweddion adnabuwyd fel heb dderbyn sylw ddigonol:

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Anabledd | 16 | 41.0 |
| Hil (gan gynnwys cendligrwydd) | 14 | 35.9 |
| Crefydd a chred | 10 | 25.6 |
| Rhywioldeb | 9 | 23.1 |
| Rhyw | 6 | 15.4 |
| Oedran | 5 | 12.8 |
| Ailbennu rhywedd | 5 | 12.8 |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | 5 | 12.8 |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | 3 | 7.7 |
| **Cyfanswm** | **39** | **100.0** |

**Eglurwch eich dewis**

Derbynnwyd 26 sylw yma. Roeddynt yn cynnwys:

- Mynediad i adeiladau
- Yr ystod o amhariadau gwahanol sy'n cael eu cynnwys o fewn y nodwedd anabledd
- Materion iaith
- Ni ddylai fod yn wefus-wasanaeth yn unig
- Mae angen cynnwys cynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru
- Rhy amwys
- Yn teimlo bod ffocws ar hil, rhyw ac anabledd
- Mae angen gwneud mwy ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn
- Toiledau un rhyw

### *4. Yn eich barn chi, a yw cyflwyno'r amcanion yma yn debygol o gael effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol?*

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu tlodi o bob math – tlodi ariannol, tlodi digidol, byw ymhell o wasanaethau ayb.

Cafwyd 121 o ymatebion i'r cwestiwn yma. Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i fewn i themâu gan y tîm cydraddoldeb. Y themâu a godwyd oedd:

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Bydd o gymorth i'r gymuned | 42 | 34.7 |
| Ni fydd yn cael effaith | 37 | 30.6 |
| Arall | 16 | 13.2 |
| Pwysigrwydd trafnidiaeth | 9 | 7.4 |
| Materion cost neu flaenoriaethu | 8 | 6.6 |
| Materion Iaith | 5 | 4.1 |
| Pwysigrwydd cyflogaeth | 3 | 2.5 |
| **Cyfanswm** | **121** | |

### *5. Yn eich barn chi, a yw cyflwyno'r amcanion yma yn debygol o gael effaith ar gyfleodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a statws y Gymraeg yn y gymuned?*

Cafwyd 119 o ymatebion i'r cwestiwn yma. Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i fewn i themâu gan y tîm cydraddoldeb. Y themâu a godwyd oedd:

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---:|---:|
| Dim effaith | 40 | 33.6 |
| Yr iaith yn cael gormod o sylw | 24 | 20.2 |
| Ydi – yn cael effaith | 22 | 18.5 |
| Arall | 17 | 14.3 |
| Yr iaith ddim yn cael digon o sylw | 10 | 8.4 |
| Materion cyflogaeth | 6 | 5.0 |
| Rhy gostus | 5 | 4.2 |
| **Cyfanswm** | **119** | **100.0** |

## *6. Yn eich barn chi, oes unrhyw fater arall sydd heb gael sylw ddigonol?*

Nodwyd traen yr ymatebwyr (33.6%, N=50) fod yna fater arall sydd heb gael sylw ddigonol.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nag oes | 86 | 57.7 |
| Oes | 50 | 33.6 |
| Dim ateb | 13 | 8.7 |
| **Cyfanwm** | **149** | **100.0** |

O'r rhai a nodwyd 'oes' dyma a nodwyd sydd angen fwy o sylw:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Arall | 12 | 24.0 |
| Materion cydraddoldeb yn gyffredinol | 11 | 22.0 |
| Materion ieithyddol | 10 | 20.0 |
| Yr economi a'r gymdeithas | 6 | 12.0 |
| Hyfforddiant | 3 | 6.0 |
| Trafnidiaeth | 3 | 6.0 |
| Cost | 3 | 6.0 |
| **Cyfanswm** | **50** | **100.0** |

***Asesiad Effaith***

***7. Os ydych yn dymuno, rhowch eich sylwadau ar yr asesiad effaith cydraddoldeb (drafft) ar gyfer yr amcanion yma.***

Nododd 30 o’r ymatebwyr sylw yma. Roedd y sylwadau yn cynnwys:

- Cost y Cynllun
- Ofn tocynistiaeth a diffyg ymrwymiad o'r brig
- Mae angen iddo fod yn fwy nag ymarfer ticio blychau
- Gwastraff o amser
- Dim sylw i'w wneud
- Nod teilwng, mae'n haeddu bod yn llwyddiannus
- Mae angen ei weithredu cyn gynted â phosibl
- Dylai sefydliadau allanol herio
- Anhapus gyda'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddir
- Materion iaith
- Mater bach sy'n effeithio ar leiafrif bach
- Angen clybiau ieuenctid
- Dim yn cytuno â chydraddoldeb
- Sylwadau am nodweddion penodol
- Materion lleol, nid bwriadau gosod y llywodraeth

## Dadansoddiad o'r sylwadau o'r cyfarfodydd

Yn ogystal â'r holiadur, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gydag pobl â nodweddion cydraddoldeb amrywiol. Caniatawyd mwy o amser i bobl lenwi'r holiaduron hawdd eu darllen na'r gwreiddiol, gyda'r dealltwriaeth y byddai'n rhy hwyr i'w dadansoddi gyda'r gweddill, ond y byddent yn cael eu cynnwys yma. Mae sylwadau o 3 ffurflen wedi eu cynnwys felly. Mae'r adroddiad yma hefyd yn cynnwys sylwadau a dderbyniwyd gan aelodau Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd.

Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd gan y swyddogion cydraddoldeb, sydd wedi darparu'r rhan yma o'r adroddiad.

**Amcan 1: Gwella amrywiaeth ei gweithlu a lleihau bylchau tâl**

Roedd y mwyafrif o'r grwpiau yn cytuno fod yr amcan yma yn bwysig ac ynghlwm ag edrych ar ôl staff a'u cefnogi. Sonwyd am rhyw fel enghraifft o fod yn deg yn y gweithle o'r ran bylchau tâl a chytunodd pawb gyda'r pwynt hwn. Mi gododd un grŵp mater hil hefyd fel rhywbeth i fod yn ymwybodol ohono a rhywbeth sydd angen i ni ei gadw dan ystyriaeth mewn lle fel Gwynedd, lle does dim gymaint o amrywiaeth amlwg.

Roedd grŵp yn teimlo fod angen gwneud mwy o ran yr iaith Gymraeg , i godi hyder pobl sydd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu wedi bod drwy addysg yng Ngwynedd. Mae angen i'r Cyngor ddefnyddio Cymraeg cliriach i allu ehangu amrywiaeth o fewn recriwtio.

Dywedodd un grŵp fod yr amcan hwn yn amlygu pwysigrwydd tegwch yn y gweithle er mwyn rhoi mwy o amddiffyniad i grwpiau lleiafrifol. Mae angen gwell polisïau i warchod staff a dylid crybwyll hyn yn yr amcanion. Dywedodd grŵp arall fod cael fforwm staff yn bwysig i grwpiau gyda nodweddion gwahanol e.e. grŵp LHDTC+. Ond codwyd rhai pryderon am ddiogelwch staff fyddai'n cymryd rhan yn y fforymau, a fod cadw staff yn saff yn rhywbeth sydd angen i ni feddwl yn fwy amdano.

Codwyd rhai pryderon y byddai'r amcan yn troi i mewn i ymarfer ticio bocsys a bod rhaid monitro ymddygiad staff tuag at y gymuned ac at aelodau staff eraill. Dywedodd y grŵp fod angen gwneud yn siŵr fod y negeseuon ynglŷn â chydraddoldeb yn dod i lawr o uwch reolwyr a bod rhaid i uwch swyddogion gymryd cyfrifoldeb dros gydraddoldeb llaw yn llaw gyda staff canolog a rheng flaen. Dywedodd y grŵp fod hyfforddiant staff yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yr amcan hwn.
Awgrymodd un grŵp fod angen rhoi ystyriaeth i recriwtio o'r tu allan i ddenu mwy o amrywiaeth ymysg staff newydd.

Rhai materion eraill a godwyd oedd pwysigrwydd materion anabledd o fewn hyfforddiant. Hefyd ystyried newid teitl yr amcan gan fod yna ddau amcan yma mewn un - rhywbeth fel "tegwch yn y gweithle"/ "cyfiawnder yn y gweithle".

**Amcan 2: Gwella ein data am bobl â nodweddion gwarchodedig cydraddoldeb**

Roedd y mwyafrif o'r grwpiau yn cytuno gydag amcan yma i wella ein gwybodaeth a dealltwriaeth yn ehangach. Dwedodd un grŵp y byddai hyn yn cydblethu'n dda gyda'r ddyletswydd sydd ar y cyngor i wneud asesiadau effaith cydraddoldeb, gan y bydd yr wybodaeth yn helpu a chefnogi ansawdd yr asesiadau. Nododd grŵp fod hefyd angen i ni ddarganfod lle mae'r bylchau yn ein data.

Awgrymwyd i ni recordio'r data sydd ar gael a beth mae pobl yn ei ddweud wrthym mewn ffyrdd mwy hygyrch i'r rhai sydd ddim ar lein nag yn darllen. Gallai ffilm helpu pobl i ddeall a chymryd rhan.

Awgrymodd grŵp arall i'r Cyngor fod yn ofalus pan yn defnyddion ddata allanol fel y cyfrifiad gan fod rhai pobl ddim yn teimlo'n saff nag yn gyfforddus yn rhannu gwybodaeth am eu nodweddion ac efallai fod y data ddim bob amser yn gywir.

Nodwyd hefyd yr angen i gael amrywiaeth o fewn y Panel Trigolion, a'r angen i ofyn i fwy ymuno drwy 'pop up' neu ar y dudalen flaen.

Atgoffodd un grŵp ni am groesdoriadaeth, a’r ffaith fod gan pobl fwy nag un nodwedd.

**Amcan 3: Sicrhau fod y Cyngor yn fudiad wrth-wahaniaethol** (ddim yn gwahaniaethu yn erbyn neb)

Roedd y grwpiau’n cytuno fod hwn yn amcan pwysig. Nodwyd yr angen i fod yn wrth wahaniaethol a hybu cyfleoedd cyfartal o fewn y gweithle hefyd, gydag enghraifft o hybu mwy o weithio’n hyblyg pan yn dod at faterion mamolaeth. Un grŵp yn dweud fod angen sicrhau fod pobl hŷn sydd ddim yn gyfarwydd gyda thechnoleg yn cael eu trin yn deg, a fod pethau angen bod yn hygyrch iddynt allu cyrraedd gwasanaethau. Awgrymodd y grŵp i wneud yn siŵr ein bod yn hysbysebu gwybodaeth drwy ffynonellau gwahanol sydd ddim i gyd yn dibynnu ar fod ar lein.

Cynigwyd y dylid cael pamffled yn y llyfrgell i nodi amserlen trafnidiaeth. Roedd trafnidiaeth yn rhywbeth roedd y grwpiau yn ystyried yn bwysig, gan ddeud fod dim digon o drafnidiaeth ar gael iddynt. Noddodd y grŵp hefyd fod angen symleiddio rhai gwasanaethau i rai pobl gan fod prosesau yn gallu bod yn rhy gymhleth.

Ychwanegodd grŵp arall y pwysigrwydd o wneud asesiadau effaith cryf a cyson i safon dda, i allu llwyddo â’r amcan hwn. Dywedodd y grŵp yma fod ail edrych ar amrywiaeth o fewn amgueddfeydd hefyd yn gam yn y cyfeiriad cywir.

Mynegwyd bryder ynghylch sylwadau negyddol yn yr ymgysylltu blaenorol, megis pryder am arian a blaenoriaethau eraill. Nodwyd y dylai’r cyngor ymateb gydag esboniad i frwydro yn erbyn safbwyntiau negyddol megis astudiaethau sy’n profi y gall amrywiaeth yn y gweithle fod yn gost effeithiol yn y tymor hir.

Codwyd pryder y gall rhywfaint o'r iaith a ddefnyddwyd fod yn ddryslyd. Angen gwell esboniad ynghyd ag eglurhad o'r gwahaniaethau a thrin pobl yn gyfartal ac yn unol â'u hanghenion. Mae aelod arall o’r grŵp yn cytuno â’r pwynt a wnaed, gan bwysleisio mai’r gair sydd ei angen yw Ecwiti a bod angen gwell eglurhad ar y gair ecwiti.

Gofynnwyd i gynnwys materion fel y lanyard blodyn haul yn yr hyfforddiant.

Wrth drafod hygyrchedd gwasanaethau nododd un grŵp bwysigrwydd trafnidiaeth, toiledau cyhoeddus a biniau. Hefyd y pwysigrwydd o allu cysylltu'n hawdd gyda gweithwyr cefnogaeth a gofal.

**Amcan 4: Gwella cydraddoldeb o fewn maes addysg**

Codwyd amryw o bwyntiau ynglŷn â bwlio yn benodol, gyda'r mwyafrif yn cytuno ei fod yn rhywbeth pwysig i ni ystyried. Rhannodd unigolyn brofiad personol am fwlio ynglŷn â mater ieithyddol, gan fod nhw ond yn siarad Saesneg ac nid Cymraeg.

Nododd un grŵp eu bod yn cytuno'n gryf gyda gwelliannau o fewn addysg oherwydd ymyrraeth gynnar yw'r ffordd gorau i ddatrys llawer o'r problemau mae pobl ifanc ac oedolion yn wynebu heddiw. Roedd un grŵp yn meddwl fod angen rhoi mwy o bwyslais ar addysg anghenion ychwanegol ond i fod yn ofalus i beidio labelu plant yn rhy ifanc. Roedd rhai eraill or grŵp yn meddwl fod angen dysgu mwy o barch i blant ysgol i alluogi athrawon i wneud eu swydd yn fwy effeithiol. Nodwyd fod ysgolion angen cymryd mwy o gyfrifoldeb am ddigwyddiadau o fwlio ar y bysus ysgol, a pan maent tu allan i diroedd ysgol.

Codwyd fod angen casglu data yn ehangach na jest ar fwlio a chynnwys troseddau casineb hefyd. Dylai hwn gael ei ystyried yn adroddiadau blynyddol ysgolion. Dylai'r Cyngor ystyried yr holl adroddiadau blynyddol i ganolbwyntio ar y tueddiadau. Roedd eisiau newid y geiriad i gynnwys hwn gan fod teimlad fod bwlio ddim yn ei gyfleu ddigon da. Dydi'r heddlu ddim yn casglu'r data ar ysgolion yn benodol. Pwynt gan aelod arall fod ystadegau ysgolion yn gallu adlewyrchu meddylfryd y gymuned yn ehangach. Sylw fod angen swyddog mewn ysgolion i allu delio hefo anghenion arbenigol fel hyn. Nododd y grŵp fod gwaith yn cael i'w neud ar yr amcan yma yn barod gan heddlu a swyddogion lles addysg ond fod angen mwy o ddata ar ysgolion unigol i allu targedu yn well lle sydd angen mwy o gymorth. Dywedodd grŵp arall pa mor bwysig oedd hi i gadw plant yn ddiogel.

Dywedodd un grŵp fod nhw yn teimlo fod angen hyfforddiant penodol i athrawon ar fwlio cyffredinol a throseddau casineb er mwyn iddynt allu eu hadnabod yn well.

Teimlodd un grŵp fod angen hefyd taclo stereoteipio athrawon gan roi enghraifft o'r stereoteip o fwy o ferched yn athrawon ieithoedd.

Roedd grŵp arall yn teimlo fod angen gwell polisïau ar faterion LHDTC+ o fewn ysgolion i ddiogelu plant a phobol ifanc rhag cael eu bwlio.
.
Pwysleisiodd un grŵp fod y pwyntiau gweithredu ar gyfer yr Amcan hwn yn aneglur o ran ystyr a geiriad.

**Materion ychwanegol i'w hystyried**

Rhoddwyd siawns i'r grwpiau i nodi materion ychwanegol ddylid ystyried eu cynnwys. Cododd un grŵp mater parcio yng Ngwynedd, yn enwedig pan mae yn dod at y nodwedd oed. Awgrym i allu parcio am ddim cyn 11 o'r gloch (yn lle 10:00) er mwn i bobl hŷn allu mynd i siopau bach lleol (sydd yn agor yn hwyrach) a chefnogi busnesi lleol yn fwy. Roedd y grŵp yn awyddus i weld meysydd parcio yn parhau i dderbyn taliadau mewn arian parod, a dim angen defnyddio cerdyn ac yn bendant dim ap/technoleg.

Cododd un grŵp y defnydd o wasanaethau'r cyngor, yn benodol siopau Gwynedd. Teimlo fod potensial i beidio sicrhau cyfrinachedd os oes rhywun gyda nam clyw a swyddogion yn gorfod siarad yn uwch nag arfer. Cododd grŵp arall bryder am fynediad corfforol tuag at wasanaethau, gan ofyn i'r cynllun rhoi ystyriaeth i hygyrchedd.

Dywedodd un grŵp fod angen mwy o sylw i hyfforddiant ar asesiadau effaith i'w cael i safon dda, gan fod hyn yn ddyletswydd i'r Cyngor.

Codwyd pwynt ynglŷn â chyllideb ar gyfer addasiadau i bobl anabl a bod angen mwy o ystyried a chyllidebu materion mynediad a materion yn ehangach.

Dywedodd un grŵp fod yn rhaid cael system ddiogel i staff allu codi unrhyw fater o wahaniaethu neu annhegwch yn y gweithle a bod rhaid i uwch rheolwr gymryd cyfrifoldeb dros ddiwylliant y gweithle a hybu tegwch. Awgrymwyd cael uwch reolwr neu uwch swyddogion fel pencampwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth. Pwysleiswyd fod angen y gweithle gymryd cyfrifoldeb dros droseddau casineb a bwlio yn y gweithle.

Trafodwyd materion tai hefyd. Nodwyd fod problemau wedi codi gan fod cymdeithas tai ddim yn rhoi digon o gefnogaeth i denantiaid sydd ag anableddau dysgu sy'n wynebu rhwystrau mewn rhai achosion yn y gymuned. Pwysleiswyd fod angen cael cyswllt hefo cymunedau tai er mwyn cyd weithio. Mae problemau tai yn gallu arwain at fwy o broblemau cymunedol ac aelod o'r grŵp yn awgrymu cysylltu hefo swyddogion cymunedol Tai a gwasanaethau cymdogaeth. Cododd un grŵp yr angen am fwy o ystyriaeth am gartrefi am oes sydd yn gallu cael i'w addasu fel mae pobl yn mynd yn hŷn fel bod pobl ddim yn gorfod symud o'i gymuned i gael tŷ addas a hygyrch. Hefyd nodwyd fod dim digon o lefydd addas ar gael am bris fforddiadwy.

Pwysleisiodd un grŵp yr angen i gadw'r amcanion yn realistig i allu gweithredu.

**Materion Cyffredinol**

Yn ystod yr ymgynghoriad derbyniwyd nifer o bwyntiau cyffredinol am yr amcanion. Roedd y rhain yn cynnwys rhifo'r pwyntiau gweithredu a defnyddio iaith sy'n fwy hygyrch a dealladwy. Dylid hefyd egluro pwysigrwydd yr amcanion yn well. Roedd pryder y gallai rhai datganiadau fod yn gamarweiniol heb esboniad pellach yn y ddogfen gyfan, er enghraifft dweud bod gan bawb bum nodwedd cydraddoldeb.

Atgoffodd un grŵp o'r pwysigrwydd i ystyried croestoriad a sut fod cynlluniau'r llywodraeth am draws blethu.

**Mewnbwn Aelodau Etholedig**

Gofynnwyd hefyd am farn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar yr Amcanion Drafft.

- Pwysigrwydd cael gwared â rhwystrau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes cyflogaeth (Amcan 1)
- Y pwysigrwydd o gasglu data er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at weithlu amrywiol (Amcan 1)
- Gwneud yn siŵr ein bod yn cynnwys barn gwahanol grwpiau er mwyn sicrhau ein bod yn annog pobl â nodweddion gwahanol e.e. merched i

ymgeisio am swyddi uwch o fewn y Cyngor. Nodwyd hefyd fod merched yn cael eu gôr-gynrychioli mewn swyddi sy'n cael eu talu'n is e.e. gofal (Amcan 1)

- Mynegwyd pryder cyffredinol bod gwleidyddiaeth hunaniaeth sy'n canolbwyntio ar grwpiau cymharol fychan mewn cymdeithas sydd yn osgoi'r anghydraddoldeb sylfaenol, sef yr un socio-economaidd, a chroesawyd y ffaith bod yr adroddiad yn rhoi tipyn o gig ar leihau hynny i gau bwlch cyflog, gan mai yno y dylai ein ffocws fod.
- Mynegwyd pryder bod merched yn cael eu gorgynrychioli mewn swyddi cyflogau isel, e.e. yn y maes gofal.
- Nodwyd yr angen i sicrhau fod holiaduron yn gynrychioliadol o'r gymuned e.e. nid oedd nifer cynrychioliadol o siaradwyr Cymraeg na phobl ifanc wedi ei gwblhau. Hefyd roedd mwy wedi ateb o rhai ardaloedd na'u gilydd.
- Mae'r gymuned yn gweithio'n well pan mae pobl yn cael cydraddoldeb
- Croesawu'r ffaith fod amcan ar addysg wedi ei gynnwys ond yn teimlo fod y geiriad yn fwy am fyd addysg nag am gydraddoldeb ac roedd angen esboniad pellach (Amcan 4)

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **12ed Mawrth 2024** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cyllido prosiectau y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

### 1. Y penderfyniad a geisir

1.1 Cymeradwyaeth y Cabinet i flaenoriaethu £1,640,495 o'r gronfa hinsawdd ar gyfer y prosiectau canlynol:

a) Cynllun Fflyd Werdd – £1,048,400
b) Cynllun Peilot Uwchraddio Goleuadau – £416,617
c) Cynllun Pympiau Gwresogi - £175,478

1.2 Dirprwyo'r hawl i flaenoriaethu gwariant gweddill y gronfa cynllun hinsawdd i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.

---

### 2 Y Rheswm Dros yr Angen am Benderfyniad

2.1 I flaenoriaethu'r gronfa hinsawdd er mwyn galluogi'r Cyngor i weithredu prosiectau a fyddai'n arwain at leihad mewn allyriadau carbon a chyfrannu at ein nod o fod yn garbon sero erbyn 2030.

### 3. Cefndir

3.1 Yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2022 fe wnaeth y Cabinet fabwysiadu'r Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) (CAHN) oedd yn datgan ein uchelgais "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."

3.2 Roedd yr adroddiad hwnnw'n datgan, ym mharagraff 5.2:

> 'Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn mesur cost ariannol rhai o'r prosiectau unigol, ac i gadarnhau cyfanswm y gronfa ariannol fydd ar gael ar gyfer cyllido'r cynllun hwn. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud yn y dyfodol agos a byddwn yn cyflwyno adroddiad ariannol pellach at sylw'r Cabinet maes o law er mwyn penderfynu ar flaenoriaeth y prosiectau i'w gweithredu.'

3.3 Rydym wedi bod yn gweithio'n barhaus i ddatblygu a sefydlu cost rhai prosiectau unigol. Mae'r maes, a'r dechnoleg yn bennaf, yn datblygu yn gyflym ac yn gyson a petawn yn ceisio cynllunio pob prosiect a'u prisio cyn dechrau gweithredu, mae peryg i ni arafu cynnydd a pheidio cyflawni fel y byddwn yn dymuno.

3.4 Rydym felly wedi adnabod y prosiectau hynny sydd fwyaf aeddfed, a synhwyrol i'w gweithredu tra'n parhau i ddatblygu cynlluniau eraill.

3.5 Yng nghyfarfod y Cyngor ar 3 Mawrth 2022 fe gytunwyd i greu cronfa 'cynllun hinsawdd' gwerth £3m drwy'r broses bidiau refeniw un-tro, at bwrpas gweithredu'r CAHN.

3.6 Yn ogystal â hynny, fe wnaeth y Cabinet gytuno yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2022 i ddefnyddio £2.8m o'i gronfeydd cyffredinol i ariannu cynllun buddsoddi mewn paneli solar PV ar 54 o'n hadeiladau, gyda'r arbedion refeniw yn cyfrannu at ein cynllun arbedion.

3.7 Hyd at Mawrth 2024 mae £214,928 wedi ei ymrwymo i'w wario allan o'r Gronfa Hinsawdd, ac os yw'r Cabinet yn penderfynu ariannu'r prosiectau yn 1.1 byddai'r swm sy'n weddill yn y gronfa er mwyn ariannu prosiectau i'r dyfodol yn £1,144,577.

3.8 Byddai ariannu'r 3 prosiect yn 1.1 uchod yn cyfrannu at gyflawni'r prosiectau canlynol yn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN):

*7.8 Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl.*

*7.9 Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon*

*7.12 Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni*

*8.1 Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV.*

**4. Prosiectau**

**Cynllun Fflyd Werdd**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2023, bu i'r Cabinet fabwysiadu'r Cynllun Fflyd Werdd 2023-2029, a'i nod yw 'i ddarparu fflyd o gerbydau diogel, effeithiol a di-allyriad i wasanaethau'r Cyngor er mwyn ei galluogi i gyflawni i bobol Gwynedd'.

4.2 Mae Gwasanaeth Fflyd y cyngor wedi bod yn rhan o drefniant pryniant cenedlaethol ble mae nifer o awdurdodau lleol drwy Gymru wedi ymrwymo i gyfuno eu archebion am geir a faniau trydan bach drwy osod un archeb ar y cyd. Bydd gosod un archeb fawr yn lleihau'r gost prynu o'i gymharu â phetai'r cyngor yn gosod archeb ar ei phen ei hun.

4.3 Mae gennym 44 o gerbydau disel a phetrol sydd yn cyrraedd diwedd eu hoes yn 2023/24, a 23 o gerbydau yn 24/25. Un unol â'n Cynllun Fflyd Werdd byddwn yn eu amnewid am gerbydau trydan yn eu lle. Bydd y pryniant yma yn creu arbedion allyriadau o 64 tunnell o CO2.

4.4 Mae arian eisoes wedi ei gronni yn y gronfa fflyd (drwy ddibrisiant ayb) i gyfrannu at gost prynu cerbydau newydd, ond gan fod y gost o brynu cerbyd trydan yn uwch na phris cerbyd disel/petrol, mae bwlch ariannu yn y cyllid sydd wedi ei gronni â'r gwir gost o brynu.

4.5 Mae'r amcanion arbedion refeniw yn nhabl 4.6 isod yn seiliedig ar oes o 5 mlynedd i gerbyd newydd; ar arbedion defnyddio trydan yn hytrach na disel; a chostau cynnal a chadw. Gan na fyddwn yn gwybod beth fydd yr arbedion yn llawn tan ymhen 5 mlynedd ni allwn roi'r arbediad yn erbyn y gost prynu ar hyn o bryd.

| Blwyddyn | Arian wedi ei gronni drwy drefn di-brisio/cronfa fflyd | Gwir bris cerbyd newydd | Bwlch ariannol | Amcan arbedion refeniw (5 mlynedd) | Amcan tCO2e |
|---|---|---|---|---|---|
| 2023/24 | £486,660 | £1,176,594 | £689,934 | £396,000 | 64 |
| 2024/25 | £300,813 | £659,280 | £358,466 | £207,000 | 34 |

4.6 Gwneir cais am £1,048,400 o'r gronfa cynllun hinsawdd i ariannu'r bwlch ariannol i brynu 67 o gerbydau trydan ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

**Cynllun Peilot Uwchraddio Goleuadau**

4.7 Wedi i'r Cyngor fabwysiadu'r CAHN penodwyd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) i asesu'r cyfleoedd pellach i leihau allyriadau carbon o adeiladau'r cyngor. Cynhaliwyd adolygiad pen desg o'r arferion rheoli ynni presennol ynghyd â dadansoddiad meintiol o effeithlonrwydd yr adeiladau.

4.8 Un o'r prosiectau sydd wedi ei adnabod yw i uwchraddio goleuadau wrth symud o diwbiau fflwroleuol i rhai LED.

4.9 Byddai newid goleuadau y rhan fwyaf o'n adeiladau yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol a byddai'n cymryd rhai blynyddoedd i'w gwblhau, felly y bwriad yw yn gyntaf cynnal peilot o 6 adeilad gwahanol eu natur a'u defnydd, gan adolygu'r canlyniadau cyn penderfynu symud ymlaen i'w ehangu ar draws ein hystâd. Bydd y peilot yn cynnwys Cartref Preswyl, Ysgol Gynradd, dwy Ysgol Uwchradd, a dwy Ganolfan Hamdden.

4.10 Ar hyn o bryd, rydym yn amcangyfrif y byddai angen buddsoddiad pellach o £3.3m i gyflawni'r ail gam hwn (prosiect llawn yn y tabl yn 4.13). Byddai'r ffigwr hwn yn cael ei adolygu ar ôl rhedeg y cynllun peilot.

4.11 Mae'r costau a'r arbedion ariannol a charbon ar gyfer y cynllun peilot fel â ganlyn. Amcangyfrif yw costau'r prosiect llawn ar hyn o bryd:

| | Amcan Gost | Amcan Arbedion Ariannol | Amcan Arbedion Carbon tCO2 |
|---|---|---|---|
| Peilot | £416,617 | £53,880 | 56t |
| Prosiect llawn | £3,300,000 | £444,335 | 468t |
| **Cyfanswm** | **£3,716,617** | **£498,215** | **524t** |

4.12 Gydag ansefydlogrwydd y farchnad ynni, mae'n bosib y gall pris uned o drydan gynyddu dros y blynyddoedd i ddod, ac yn hynny o beth mae'r tabl isod yn amlinellu sut byddai newid i bris uned yn

effeithio yr achos fusnes. Blwyddyn yn ôl roedd ein costau trydan yn 16.5c yr uned ond bellach wedi cynyddu i 25c.

| Cost Buddsoddi Peilot | £416,617 | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cost trydan yr uned | **25c** | **34c** | **54c** | **60c** |
| Arbedion Blynyddol | £ 53,880 | £ 73,277 | £ 116,380 | £129,312 |
| Cyfnod ad-dalu (blynyddoedd) | 7.7 | 5.7 | 3.6 | 3.2 |

4.13 Gwneir cais am gyllid o’r gronfa cynllun hinsawdd o £416,617 er mwyn ariannu’r Cynllun Peilot Uwchraddio Goleuadau.

**Cynllun Pympiau Gwresogi**

4.14 Gan ddilyn yr un egwyddor o redeg cynllun peilot, fe wnaethom ymgeisio am grant gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru er mwyn gosod pympiau gwresogi ar dri safle – dwy safle Ysgol Gynradd a Chanolfan Hamdden. Erbyn hyn, rydym wedi cael cadarnhad o’r cynnig grant o £1,754,776.

4.15 Er mwyn hawlio’r grant yma, bydd angen i ni fuddsoddi 10% o arian cyfatebol.

4.16 Mae hwn yn gyfle euraidd i ni dreialu’r dull gwresogi carbon isel hwn a’n galluogi i ddysgu gwersi cyn ystyried uwchraddio gweddill ein stad.

4.17 Gwneir cais am gyllid o’r gronfa cynllun hinsawdd o £175,478 er mwyn denu’r grant o £1,754,776 i ariannu’r 3 cynllun i ddatgarboneiddio gwresogi.

**Prosiectau eraill**

4.18 Mae cyfleon eraill wedi amlygu eu hunain i arbrofi a threialu nifer o bethau yn y maes, er enghraifft er mwyn annog teithiau carbon isel wrth i fwy o staff gymudo i’r gweithle yn unol â’r Polisi Gweithio’n Hybrid,

- prynu beic trydan i staff fenthyca i gymudo i’r gwaith
- hurio cerbyd trydan i’w logi i staff gael ei dreialu i gymudo i’r gwaith
- annog staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus drwy gynnig tocyn tymor yn rhatach
- annog staff i rannu ceir

4.20 Mae’r Bwrdd Hinsawdd a Natur wedi datgan ei gefnogaeth i fod yn arbrofi ac arloesi yn y maes er mwyn gweithio tuag at y nod o gyrraedd net sero a bwriedir symud ymlaen i fuddsoddi’n rhesymol yn y cynlluniau hyn.

**5 Cronfa Cynllun Hinsawdd**

5.1 Ers sefydlu’r Gronfa Hinsawdd yn 2022, mae £214,928 wedi ei glustnodi ar gyfer materion megis cyllido swydd Rheolwr Rhaglen, hyfforddiant llythrennedd carbon, arian cyfatebol i ddenu grant i uwchraddio goleuadau’r Ganolfan Tenis, ac astudiaethau dichonolrwydd caffael a dadgarboneiddio gwres.

5.2 Mae £2,785,072 o'r £3M yn weddill o'r gronfa.

5.3 Pe byddai'r Cabinet yn cytuno i ariannu'r prosiectau a nodir yn yr adroddiad hwn, byddai'r swm yma yn lleihau i £1,144,577.

5.4 Mae'r Bwrdd Hinsawdd a Natur yn arwain ar y maes hwn o fewn y cyngor ac felly mae'n synhwyrol i'r bwrdd ddylanwadu ar sut i flaenoriaethu gwariant y gronfa hon o hyn ymlaen.

5.5 I'r perwyl hwn, ac er mwyn galluogi'r gweithredu ar flaenoriaethau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur fel mae cyfleon yn codi, gofynnir i ddirprwyo'r hawl i benderfynu ar ddyraniad gweddill y Gronfa Hinsawdd i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.

**6 Camau nesaf ac amserlen**

6.1 Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet, byddwn yn symud ymlaen i

- Archebu'r ceir fflyd trydanol
- comisiynu'r gwaith uwchraddio goleuadau mewn 6 safle
- comisiynu'r gwaith datgarboneiddio gwres mewn 3 safle er mwyn hawlio'r arian grant perthnasol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Rhoddwyd cadarnhad i'r cabinet ym Mawrth 2022 wrth fabwysiadu y Cynllun Argyfwng Hinsawdd y byddai adroddiad pellach ar ddefnydd y gronfa yn cael ei gyflwyno iddynt. Mae'r adroddiad yma yn cyflawni hyn ac yn rhoi cyfle i ddidoli adnoddau i'r prosiectau penodol. Mae'r penderfyniad a'r dirprwyo yn briodol.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Gallaf gadarnhau cywirdeb y ffigyrau sydd yn yr adroddiad. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

---

**ADRODDIAD I'R CABINET**
12 MAWRTH 2024

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor

**Pwnc:** Bidiau Un Tro/Cronfa trawsffurfio 2024/25

**Swyddog cyswllt:** Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo y bidiau un-tro o £6,508,260 ar gyfer 2024/25 sydd i'w cyllido o'r gronfa Trawsffurfio a'r gronfa Strategaeth Ariannol.

## 2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad

Mae'r bidiau am adnodd un-tro yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ar wahân i adroddiad y Gyllideb gan nad yw dyrannu adnodd un tro yn cael effaith ar osod ein cyllideb refeniw flynyddol nac yn ystyriaeth wrth orfod pennu cyfradd y Dreth Cyngor. Cyflwynir yr adroddiad hwn cyn dechrau y flwyddyn ariannol 2024/25 fel bod modd gweithredu o 1 Ebrill 2024.

## 3. Cyflwyniad / Cefndir

3.1 Yn flynyddol gwahoddir adrannau'r Cyngor i gyflwyno bidiau am adnodd un tro ar gyfer materion megis ymdopi gyda phwysau dros dro, cyflawni prosiectau Cynllun y Cyngor, trawsffurfio gwasanaethau neu arbrofi cyn dod i gasgliad os yw'n synhwyrol darparu cyllideb barhaol.

3.2 Er fod nifer o fidiau wedi eu cyflwyno gan yr adrannau, rhaid oedd blaenoriaethu a chyfyngu ar y bidiau oedd i dderbyn cymeradwyaeth i sicrhau nad oes defnydd gormodol o'r cronfeydd yn cael eu gwneud.

3.3 Yn arferol Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor sydd yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r bidiau un-tro. Mae balans o £3.53 miliwn heb ymrwymiad yn y gronfa, felly ar gael i gyllido'r bidiau o £6.51 miliwn yn rhannol. Bwriedir defnyddio y £2.97 miliwn sydd yn weddill i'w ariannu o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

3.4 Yn dilyn dyrannu y bidiau un-tro uchod, nid oes yna unrhyw arian ar ôl yn y Gronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor. Os am ariannu bidiau dros dro yn y dyfodol bydd angen ystyried sut i ail gyflenwi y gronfa yma pan fydd cyfleon yn codi.

3.5 Argymhellir cymeradwyo swm uwch na'r arfer ar gyfer bidiau un tro 2024/25 gan nad ydym mewn sefyllfa i ddarparu refeniw parhaol ar eu cyfer. O ganlyniad, argymhellir eu cyllido am gyfnod yn hytrach na'n barhaol. Mae rhai o'r bidiau hyn yn mynd at feysydd sy'n gorwario e.e. digartrefedd, yn y gobaith y byddwn yn gallu dod a'r gorwariant hynny dan reolaeth

| | Balans 31.3.23 £000 | Cyllido'r Bidiau un tro £000 | Balans Diwygiedig £000 |
|---|---|---|---|
| Balansau | 7,912 | | 7,912 |
| Cronfa Strategaeth Ariannol | 9,024 | (2,974) | 6,050 |
| Cronfa Trawsffurfio (heb ymrwymo) | 3,534 | (3,534) | - |
| | **20,470** | **(6,508)** | **13,962** |

**Cronfa Strategaeth Ariannol - yn dilyn adolygiad cyllideb refeniw Awst a Tachwedd bydd arian ychwanegol yn cael ei roi yn y Gronfa Strategaeth Ariannol, sydd yn deillio o danwariant Corfforaethol, bydd yr union ffigwr yn ddibynnol ar swm y gorwariant adrannol sydd angen ei ariannu ar ddiwedd 2023/24.*

## 4. Bidiau Un-tro 2024/25

4.1 Mae'r bidiau a dderbyniwyd wedi eu hasesu gennyf i, y ddau gyfarwyddwr a'r Pennaeth Cyllid a cyflwynir yn **Atodiad 1** fanylion y bidiau un-tro a argymhellir i dderbyn cefnogaeth ariannol ar gyfer 2024/25.

4.2 Argymhellir cymeradwyo 22 o fidiau gwerth £6,508,260 fel sydd wedi eu rhestru yn **Nhabl 1** isod, gyda gwybodaeth fanylach am y bidiau unigol wedi eu cynnwys yn **Atodiad 2**. Mae'r gronfa trawsffurfio sydd ar gael i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor, ynghyd â'r gronfa strategaeth ariannol, i'w defnyddio fel ffynhonnell i gyllido'r bidiau yma.

**Tabl 1 Bidiau Refeniw Un-tro 2024/25**

| | Teitl y Bid | Swm a argymhellir (£) |
|---|---|---|
| **Adran Economi a Chymuned** | | |
| Un Tro 1 | Adfywio Canol Trefi | 145,000 |
| Un Tro 2 | Swydd Cymhorthydd Twristiaeth Cynaliadwy | 46,040 |
| **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** | | |
| Un Tro 3 | Profion ar hap alcohol a chyffuriau | 15,380 |
| Un Tro 4 | Cronfa i dalu am wiriadau diogelwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | 50,000 |
| Un Tro 5 | Hygyrchedd y wefan gorfforaethol | 41,960 |
| Un Tro 6 | Cwrdd â materion Iaith statudol | 79,920 |
| Un Tro 7 | Strategaeth Iaith – gweithredu ar gyflawni | 85,080 |
| Un Tro 8 | Parhau gyda'r Cynllun Prentisiaethau a'r Cynllun Graddedigion. Sefydlu Cynllun Profiad Gwaith newydd ac Academi Gofal - Plant ac Oedolion | 2,383,500 |

| | | |
|---|---|---|
| **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | | |
| Un Tro 9 | Swydd Rheolwr Masnachol, Prosiectau a Chytundebau | 198,150 |
| Un Tro 10 | Parhau i gyflogi Pwynt Cyswllt Sengl | 48,300 |
| Un Tro 11 | Buddsoddi mewn technoleg talu di-gyffwrdd – toiledau cyhoeddus | 80,000 |
| Un Tro 12 | Moderneiddio a gwella’r gwasanaeth Glanhau Strydoedd | 88,610 |
| Un Tro 13 | Cynllun Peilot - Casglu Sbwriel Canol Tref | 181,000 |
| **Adran Amgylchedd** | | |
| Un Tro 14 | Cludiant Cyhoeddus | 400,000 |
| Un Tro 15 | Strwythur Gwastraff ac Ailgylchu | 45,100 |
| Un Tro 16 | Camera Teledu Cylch Cyfyng ar y Cerbydau | 196,970 |
| **Adran Tai ac Eiddo** | | |
| Un Tro 17 | Costau llety argyfwng Digartrefedd | 1,200,000 |
| **Adran Addysg** | | |
| Un Tro 18 | Aildendro Bysus Ysgolion | 486,000 |
| Un Tro 19 | Cludiant Tacsis a Trenau Ysgolion | 409,610 |
| **Adran Plant** | | |
| Un Tro 20 | Gweithwyr ychwanegol yn sgil derbyn Ceiswyr Lloches Heb Rieni fel rhan o’r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol | 115,000 |
| **Adran Oedolion a Phlant ar y Cyd** | | |
| Un Tro 21 | Cyflogau Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol | 212,640 |
| **CYFANSWM** | | **6,508,260** |

**6. Casgliad**

6.1 Yn dilyn cymeradwyaeth i’r bidiau a nodir yn Rhan 1 o’r adroddiad, bydd yr arian yn cael ei ddyrannu i’r Adrannau perthnasol fel eu bod yn gallu gweithredu i wario ar y gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25.

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agos gydag awdur yr adroddiad, a gallaf gadarnhau cywirdeb y ffigyrau sydd wedi ei gynnwys ynddo.  Rwyf yn fodlon fod adnoddau digonol wedi eu hadnabod, fel sydd wedi ei ddangos yn rhan 3.5,  i ariannu'r bidiau un-tro a welir yn Tabl 1

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Crynodeb Bidiau Un-tro
Atodiad 2 – Bidiau Refeniw Un-tro

**ATODIAD 1 - CRYNODEB BIDIAU UN TRO**

| | Teitl y Bid | Un Tro (£) |
|---|---|---|
| | **Adran Economi a Chymuned** | |
| Un Tro 1 | Adfywio Canol Trefi | 145,000 |
| Un Tro 2 | Swydd Cymhorthydd Twristiaeth Cynaliadwy | 46,040 |
| | **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** | |
| Un Tro 3 | Profion ar hap alcohol a chyffuriau | 15,380 |
| Un Tro 4 | Cronfa i dalu am wiriadau diogelwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | 50,000 |
| Un Tro 5 | Hygyrchedd y wefan gorfforaethol | 41,960 |
| Un Tro 6 | Cwrdd â materion Iaith statudol | 79,920 |
| Un Tro 7 | Strategaeth Iaith – gweithredu ar gyflawni | 85,080 |
| Un Tro 8 | Parhau gyda’r Cynllun Prentisiaethau a’r Cynllun Graddedigion. Sefydlu Cynllun Profiad Gwaith newydd ac Academi Gofal - Plant ac Oedolion | 2,383,500 |
| | **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | |
| Un Tro 9 | Swydd Rheolwr Masnachol, Prosiectau a Chytundebau | 198,150 |
| Un Tro 10 | Parhau i gyflogi Pwynt Cyswllt Sengl | 48,300 |
| Un Tro 11 | Buddsoddi mewn technoleg i godi ffi am ddefnyddio toiledau cyhoeddus | 80,000 |
| Un Tro 12 | Moderneiddio a gwella’r gwasanaeth Glanhau Strydoedd | 88,610 |
| Un Tro 13 | Cynllun Peilot - Casglu Sbwriel Canol Tref | 181,000 |
| | **Adran Amgylchedd** | |
| Un Tro 14 | Cludiant Cyhoeddus | 400,000 |
| Un Tro 15 | Strwythur Gwastraff ac Ailgylchu | 45,100 |
| Un Tro 16 | Camera Teledu Cylch Cyfyng ar y Cerbydau | 196,970 |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adran Tai ac Eiddo** | |
| Un Tro 17 | Costau llety argyfwng Digartrefedd | 1,200,000 |
| | **Adran Addysg** | |
| Un Tro 18 | Aildendro Bysus Ysgolion | 486,000 |
| Un Tro 19 | Cludiant Tacsis a Trenau Ysgolion | 409,610 |
| | **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | |
| Un Tro 20 | Gweithwyr ychwanegol yn sgil derbyn Ceiswyr Lloches Heb Rieni fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol | 115,000 |
| | **Adran Oedolion a Phlant ar y Cyd** | |
| Un Tro 21 | Cyflogau Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol | 212,640 |
| | | **6,508,260** |

# ATODIAD 2 - BIDIAU REFENIW UN TRO 2024/25 ARGYMELL CYMERADWYO

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm a argymhellir (£) |
|---|---|---|---|
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | |
| Un Tro 1 | Adfywio Canol Trefi | Mae bygythiad a dirywiad canol trefi ar droed ers blynyddoedd, gyda siopa ar-lein ac archfarchnadoedd ar ymylon trefi yn ffactorau sydd wedi cyfrannu at y dirywiad. Mae'r cyfnod Covid wedi cyflymu'r dirywiad gan adael nifer o drefi yn dioddef o siopau wedi cau, eiddo yn wag am gyfnodau tymor hir a diffyg bwrlwm.<br><br>Mae'r bid hwn ar gyfer costau Rheolwr Rhaglen Adfywio Bangor, Rheolwr Rhaglenni Adfywio a Rheolwr Prosiectau Adfywio Canol Trefi ar gyfer y cyfnod 2025/26. | 145,000 |
| Un Tro 2 | Swydd Cymhorthydd Twristiaeth Cynaliadwy | Sicrhau cyllid i ariannu swydd am ddwy flynedd, sy'n allweddol i'n ymdrechion i wireddu strategaeth twristiaeth cynaliadwy newydd ar y cyd gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd yr adnodd ychwanegol yn sicrhau bod cefnogaeth allweddol ar gael i gefnogi blaenoriaethau ac allbynnau Cynllun Strategol Twristiaeth Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, cynllun sy'n flaenoriaeth yn Cynllun y Cyngor. | 46,040 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | | |
| Un Tro 3 | Profion ar hap alcohol a chyffuriau | Ers sefydlu'r polisi Alcohol a Chyffuriau rai blynyddoedd yn ôl, sy'n caniatáu profi aelodau staff pan mae amheuaeth eu bod dan ddylanwad, mae yna nifer o staff wedi profi yn bositif i lefel uchel o alcohol ac / neu gyffuriau anghyfreithlon yn eu system. Mae hyn yn peri pryder i reolwyr gwasanaethau sydd â gwaith risg uchel yn digwydd ynddynt e.e. gweithio ar ffordd fawr, gyrru cerbydau trwm ayyb.<br><br>Bwriad y bid yw ariannu cynllun peilot am flwyddyn gan weithio yn benodol gyda gweithwyr sydd wedi eu hadnabod fel bod yn gwneud gwaith sydd ac elfennau 'risg uchel iawn' iddo. | 15,380 |
| Un Tro 4 | Cronfa i dalu am wiriadau diogelwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (*DBS*) | Cais am arian un tro i ailgyflenwi cronfa ar gyfer ariannu gwariant gwiriadau dioglewch ar gyfer staff y Cyngor sydd uwchlaw'r gyllideb. | 50,000 |
| Un Tro 5 | Hygyrchedd y wefan gorfforaethol | Ym mis Awst 2021, cynhaliodd Swyddfa Cabinet asesiad o'r wefan gan ddatgelu 10 problem gyda hygyrchedd oedd yn effeithio ar nifer helaeth o'r wybodaeth ar y wefan. Un mater penodol oedd y nifer sylweddol o ddogfennau PDF – 2,500 - ar y wefan sydd ddim yn hygyrch. Yn ychwanegol i hyn mae miloedd o ddogfennau PDF mewn systemau trydydd parti.<br><br>Cyflwynir cais ar gyfer ariannu Swyddog Hygyrchedd y Wefan er mwyn<br>1. Gwaredu / cywiro 2,500 o ddogfennau sydd ar y wefan;<br>2. Sefydlu canllawiau/hyfforddiant i staff sut i greu dogfennau PDF hygyrch cyn eu hanfon i'w gosod ar y wefan yn unol â'r ymrwymiad;<br>3. Sefydlu cyfres o fideos BSL (Iaith Arwyddo Prydain) ar gyfer prif wasanaethau, e.e. cais am fathodyn glas, cysylltu â'r Cyngor mewn argyfwng/tu allan i oriau a gwybodaeth cofrestru. | 41,960 |
| Un Tro 6 | Cwrdd â materion Iaith statudol | Cais i ariannu Swyddog Iaith Cynorthwyol am ddwy flynedd.<br><br>Mae galw am wasanaeth ac arbenigedd cynllunio ieithyddol yr uned iaith wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Byddai ariannu'r swydd uchod yn sicrhau digon o gapasiti i ymdopi gyda'r gwaith ac yn rhyddhau'r Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu a'r Ymgynghorydd Iaith i ganolbwyntio ar faterion eraill yn y maes.<br><br>Mae'r swyddog yn gyfrifol yn benodol am:<br>• gasglu data a monitro cynnydd y Strategaeth Iaith yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg<br>• ddelio a'r asesiadau effaith a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio, a chyflwyno sylwadau yn unol a'r amserlen heriol | 79,920 |
| Un Tro 7 | Strategaeth Iaith – gweithredu ar gyflawni | Ym mis Rhagfyr 2023, cymeradwyodd y Cyngor Llawn Strategaeth Iaith newydd y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023 – 2033. Mae disgwyliadau uchel gan y cyhoedd a gwleidyddion Gwynedd i'r Strategaeth fynd i'r afael â phrosiectau penodol i hybu a hyrwyddo'r Iaith yng Ngwynedd. Yn y gorffennol, nid oes unrhyw fuddsoddiad wedi ei wneud tuag at wireddu'r Strategaeth Iaith, sy'n groes i ddisgwyliadau'r Comisiynydd Iaith. Ariannu un swydd am ddwy flynedd. | 85,080 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Un Tro 8 | Parhau gyda'r Cynllun Prentisiaethau a'r Cynllun Graddedigion. Sefydlu Cynllun Profiad Gwaith newydd ac Academi Gofal - Plant ac Oedolion | <u>Cynllun Prentisiaeth, Cynllun Graddedigion a Sefydlu Cynllun Profiad Gwaith</u><br>Parhau i ariannu'r cynlluniau prentisiaethu a graddedigion am 3 mlynedd. Prif bwrpas y gwariant fydd i annog adrannau i sefydlu swyddi newydd drwy gyfrannu tuag at gostau cyflog a datblygiad yr unigolion ar y gwahanol gynlluniau.<br><br>Bydd yr arian hefyd yn talu am gyflogau'r Tîm Talent a Phrentisiaethau sydd yn gweithio gyda'r adrannau i adnabod a sefydlu swyddi addas, hyrwyddo ac ymgysylltu gyda gwahanol budd-ddeiliaid, rhoi trefniadau recriwtio a phenodi addas yn eu lle, cefnogi'r unigolion o ddydd i ddydd a sicrhau ansawdd y profiadau a'r darparwyr.<br><br><u>Sefydlu Academi Gofal (Plant ac Oedolion ar y cyd)</u><br>Mae recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol yn sialens ers rhai blynyddoedd a'r pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa. Nifer o fylchau swyddi yn arwain at bwysau cynyddol ar y staff sydd yn gweithio a nifer yn gadael swyddi. Felly, mae angen sefydlu cynllun i weithwyr ddilyn llwybr gyrfa gofal cymdeithasol at swyddi fel rheolwyr sefydliadau / gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol ac yn gweithio mewn sefydliadau / cymuned fel rhan o'r broses datblygu. | 2,383,500 |
| **PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC** | | | |
| Un Tro 9 | Swydd Rheolwr Masnachol, Prosiectau a Chytundebau | Wedi cyfnod o adolygu Gwasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd, mae'r rôl hon yn hanfodol i sicrhau tyfiant y Gwasanaeth gan warchod swyddi a chynnal cyflogaeth yn yr ardal. Bydd y rôl yn arwain ar elfennau masnachol ynghyd ag ail-gyflwyno gwasanaeth prisio gwaith allanol o fewn y gwasanaethau canlynol (maes cynnal priffyrdd, cynnal tiroedd, toiledau cyhoeddus a glanhau stryd). Mae'r gwasanaethau yma eisoes yn cynnal gwaith sydd yn denu incwm ond hefyd yn gwynebu problemau gorwariant ar hyn o bryd. Bydd y swydd hon yn cynnig cyfleon i allu prisio gwaith o'r newydd a hyn yn gystadleuol gan fanteisio ar arbenigedd y gwasanaethau pan ddaw at gystadlu am waith. Bydd y swydd yn hunan-gyllidol ar ddiwedd blwyddyn 4. | 198,150 |
| Un Tro 10 | Parhau i gyflogi Pwynt Cyswllt Sengl | Parhau i gyflogi Pwynt Cyswllt Sengl i weithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer systemau gwyliadwriaeth (CCTV), er mwyn:<br>• Cydgordio gwybodaeth ynglŷn â'r holl systemau sy'n cael eu defnyddio ar draws bob adran<br>• Sicrhau bod gweithlu'r Cyngor sy'n gweithredu technoleg gwyliadwriaeth wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn dilyn polisïau corfforaethol<br>• Diweddaru a chyflwyno polisïau offer gwyliadwriaeth corfforaethol<br>• Cyflwyno gweithdrefnau camerâu gwyliadwriaeth a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth<br>• Llunio cofrestr asedau lawn a manwl o'r holl gamerâu ac offer cysylltiedig o fewn yr awdurdod<br>• Cynnal adolygiad blynyddol<br>• Sicrhau bod bygythiadau seiber yn cael eu hystyried er mwyn pennu a chofnodi pa wiriadau sydd ar waith i ddiogelu data | 48,300 |
| Un Tro 11 | Buddsoddi mewn technoleg i godi ffi am ddefnyddio Toiledau Cyhoeddus | Cynllun i gyflwyno technoleg talu di-gyffwrdd mewn 5 toiled cyhoeddus sy'n codi ffi am fynediad - Caernarfon x2, Dolgellau, Porthmadog a Phwllheli. | 80,000 |
| Un Tro 12 | Moderneiddio a gwella'r gwasanaeth Glanhau Strydoedd | Costau meddalwedd, caledwedd (i gerbydau) a thrwyddedau.<br><br>Bwriad y cais yw defnydd o dechnoleg newydd i foderneiddio systemau rheoli gwaith er mwyn gwella effeithlonrwydd ac ansawdd y gwasanaeth. Byddai'r system yma hefyd yn adnodd i gyrraedd targedau arbedion. Mae'r adolygiad diweddar o'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd wedi adnabod bod systemau rheoli gwaith presennol yn cynnwys cylchdeithiau a rhaglenni casgliadau, yn bell ar ôl eu hoes ac yn rhwystr i gyflawni gwelliannau. | 88,610 |
| Un Tro 13 | Cynllun Peilot - Casglu Sbwriel Canol Tref | 2 swydd Glanhawr Stryd ychwanegol.<br><br>Amlygodd adolygiad diweddar o'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd yr angen i godi proffil y timau yng ngolwg ein trigolion yn ogystal â moderneiddio eu dull o weithio.<br><br>Bwriad y cynllun peilot fyddai i leoli un glanhawr strydoedd gyda chert / sugnydd sbwriel trydan newydd mewn ardal drefol amlwg ym mhob un o'r 3 ardal weithredol a newid eu horiau gwaith o rhwng 05:00 a 13:00 ar hyn o bryd i 08:00 - 16:00 fel eu bod yn weladwy i'r cyhoedd.<br>I gyd-fynd â'r cynllun, byddai ymarfer brandio i atgyfnerthu'r neges fod cadw ein cymunedau'n lân ac yn daclus yn flaenoriaeth gan y Cyngor. Y gost yn cyfrannu at 3 cert / sugnydd ysbwriel trydan a 2 swydd glanhawr stryd ychwanegol am 2 flynedd. | 181,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AMGYLCHEDD** | | | |
| Un Tro 14 | Cludiant Cyhoeddus | Amcan gorwariant oddeutu £400,000 yn 2023/24.<br><br>Cais am adnoddau ychwanegol er mwyn medru cynnal gwasanaethau, a pharhau gyda phrosiectau i wneud gwelliannau arloesol i'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd.<br><br>Byddai'r adnoddau ychwanegol yn dod a'r gwariant o dan reolaeth ar gyfer 2024/25 ac yn rhoi cyfle i'r Adran a'r Cyngor ddod i drefniant mwy sefydlog gyda Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn gynaliadwy, dibynadwy a chost effeithiol. | 400,000 |
| Un Tro 15 | Strwythur Gwastraff ac Ailgylchu | Cyllido'r newidiadau i swyddi pan oedd y gwasanaeth yn rhan o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, yn ogystal â'r newidiadau sydd wedi eu gwneud ers trosglwyddo'r gwasanaeth. | 45,100 |
| Un Tro 16 | Camera Teledu Cylch Cyfyng ar y Cerbydau | Gosod camerâu ar gerbydau gwaith, er mwyn hyrwyddo ymddygiadau iechyd a diogelwch da ymysg gweithwyr, lleihau'r risg i weithwyr sy'n gweithio ar ben eu hunain, gwella diogewlch o amgylch peiriannau a chasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad e.e. biniau yn cael eu methu, difrod i eiddo neu ddamwain. | 196,970 |
| **TAI AC EIDDO** | | | |
| Un Tro 17 | Costau llety argyfwng Digartrefedd | Mae costau cynyddol cyson dros y pedair blynedd diwethaf yn sgil cynnydd yn y galw sydd am lety i unigolion a theuluoedd digartref Gwynedd. Hefyd mae cost noson mewn llety argyfwng wedi codi o oddeutu £50 ym Medi 2022 i £85 bellach. Mae'r pwysau yma uwchlaw y £3m sydd wedi'i glustnodi o'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer y maes. | 1,200,000 |
| **ADDYSG** | | | |
| Un Tro 18 | Aildendro Bysus Ysgolion | Bu i'r Uned Gludiant gynnal proses o ail-dendro Bysus Dwyfor ym Mawrth 2023. Canlyniad y broses oedd fod costau'r contractau newydd yn sylweddol uwch. Ymhellach, mae rhai contractau Meirionydd yn destun ail-dendro yn Chwefror / Mawrth 2024.<br><br>Mae Panel Adolygiad Cludiant wedi ei sefydlu i adnabod cyfleoedd effeithlonrwydd posib yn y maes er mwyn ceisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant. Er hynny, mae gweithredu addasiad yn y contractau bysus yn un anodd, yn enwedig yn y tymor byr. | 486,000 |
| Un Tro 19 | Cludiant Tacsis a Trenau Ysgolion | Gorwariant ar sail cytundebau Medi 2023. Yn gysylltiedig â -<br>• Diffyg yn y bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2023/24.<br>• Tŵf gwirioneddol yn y 12 mis diwethaf yn bennaf ar gytundebau cludiant i Ysgolion Arbennig a chytundebau cludiant Addysg Bellach. | 409,610 |
| **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | | |
| Un Tro 20 | Gweithwyr ychwanegol yn sgil derbyn Ceiswyr Lloches Heb Rieni fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol | Mae cefnogi Ceiswyr Lloches Heb Rieni yn gosod pwysau ar y tîm o safbwynt capasiti a gwaith ychwanegol. Mae'r gwaith statudol sydd angen ei gyflawni gyda'r pobl ifanc hyn yn fwy cymhleth oherwydd natur eu sefyllfa personol. Maent yn blant mewn gofal hyd nes yn 18 oed, ac felly angen cyflawni ymweliadau o leiaf bob 6 wythnos, cynnal adolygiadau statudol, rhoi trefniadau addysg yn eu lle a monitro cynnydd y bobl ifanc yn gyffredinol. Mae'r tîm wedi wynebu cynnydd mewn galw ar lefel gyffredinol yn ogystal â'r garfan yma o bobl ifanc.<br><br>Bid am arian i greu capasiti i gyfarch yr angen ychwanegol.<br>1. Arweinydd Ymarfer – i gario llwyth gwaith ac i gynorthwyo'r Rheolwr Tîm drwy ddatblygu cysylltiadau / arbenigedd / rhoi cyngor / mynychu cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol yn ôl yr angen.<br>2. Un swydd Gweithiwr Cymdeithasol. | 115,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **OEDOLION & PHLANT AR Y CYD** | | | |
| Un Tro 21 | Cyflogau Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol | Bid un tro er mwyn gwarchod hawliau cyflogau gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol wrth newid i'r strwythur staffio newydd. | 212,640 |
| | | **CYFANSWM BIDIAU REFENIW UN TRO** | **6,508,260** |

| | |
|---|---|
| **CYFANSWM TRAWSFFURFIO / FFORDD GWYNEDD** | **3,712,290** |
| **CYFANSWM CYNNYDD YN Y GALW** | **2,795,970** |

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Pryniant Swyddfeydd y Goron, Penrallt, Caernarfon |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| **Swyddog perthnasol:** | Carys Fon Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 12fed o Fawrth 2024 |

### 1. Penderfyniad a Geisir:

Gofynnir i'r Cabinet awdurdodi pryniant Swyddfeydd y Goron ym Mhenrallt, Caernarfon, ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

### 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Mabwysidodd y Cyngor Gynllun Gweithredu Tai ym mis Chwefror 2021. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn ymgorffori 33 o gynlluniau, gyda'r nod o sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at gartrefi addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.

Byddai awdurdodi pryniant safle Swyddfeydd y Goron yn galluogi i'r Cyngor fynd ati i ddatblygu un o gynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai.

### 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

**Cefndir/ Cyflwyniad**

Mae Swyddfeydd y Goron yn eiddo sylweddol wedi ei leoli yng nghanol tref Caernarfon.

Byddai prynu ac ail bwrpasu'r eiddo, yn galluogu i'r Cyngor ddarparu hyd at 46 o gartrefi, a darpariaeth cefnogaeth i arfogi preswylwyr i fyw yn annibynol. Mae maint a gosodiad presennol y safle hefyd yn cynnig cyfle i ymgorffori HWB Tai ar gyfer darapru gwasanaethu cefnogaeth tai i drigolion y sir yn ehangach.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Mae'r Swyddfeydd y Goron yn wag ers rhai blynyddoedd bellach, gyda'u cyflwyr yn dirywio, a'r safle yn destyn pryder o ran ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Ar hyn o bryd mae 2300 o geisiadau, sydd gyfystyr a bron i 5000 o bobl, ar restr aros am dai Cymdeithasol yng Nghwynedd. Ers Ebrill 2023, mae 885 o bobl wedi cyflwyno yn ddigartref yn y sir ac mae bron i 250 o aelwydydd ar hyn o bryd yn byw mewn llety argyfwng anaddas,

gydag opsiynau i symud ymlaen i lety parhaol yn gyfyngedig iawn oherwydd diffyg stoc dai o addas.

**Cyfleon**

Byddai trosi adiladau'r Goron, yn cynnig y potensial i ddarparu 46 o gartrefi, gan leihau'r ddibyniaeth ar lety argyfwng anaddas, a galluogi'r Cyngor i gartrefu trigolion mewn cartrefi safonol tra'n disgwyl am lety parhaol.

Yr uchelgais yw y bydd y datblygiad hefyd i ymgorffori HWB Tai ar gyfer darapru gwasanaethu a cefnogaeth dai aml asiantaethol i drigolion y sir yn ehangach, ac mae gosodiad yr eiddo yn caniatáu ar gyfer ymgorffori darpariaeth o'r math yma.

Bydd y gwaith o ddatblygu'r safle yn darparu cyfleon cyflogaeth ym maes adeiladu yn yr ardal, a'r datblygiad ar ei Newydd wedd yn rhoi bywyd newydd i adeilad segur, gan annog twf cymunedol yng nghanol tref Caernarfon.

Mae astudiaeth dichonoldeb eisoes wedi ei baratoi ar gyfer y Gwaith trosi arfaethedig, ac archwiliadau cychwynnol o'r adeiladu yn awgrymu na fydd rhwystrau ymarferol neu gostau anarferol yn gysylltiedig â'r Gwaith o drosi'r adeiladau i ddarparu cartrefi.

**Risgiau a mesurau i'w lliniaru**

Nid yw'r datblygiad arfaethedig heb ei risgiau, a dylid cydnabod y bydd gallu'r Cyngor i wireddu ei uchelgais o drosi'r safle yn ddibynnol ar sicrhau ffynonellau ariannu digonol i gyfarch y costau datblygu, ac ar sicrhau hawl cynllunio ar gyfer gwireddu'r datblygiad.

I liniaru ar y risgiau uchod, mae arian o gronfa'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro eisoes wedi ei sicrhau i gyfarch costau prynu'r safle yn amodol ar gwblhau'r pryniant erbyn diwedd y flwyddyn Ariannol hon.

Mae gwaith dichonoldeb cychwynnol yn amcannu y bydd costau'r datblygu'r safle yn ei gyfanrwydd rhwng oddeutu £12 miliwn ac £14 miliwn.

Rhagwelir y bydd arian grant o £50k ar gael o gronfa adfywio Trefi ar gyfer gwaith datblygol paratoadol, ac mae swm o £6 miliwn wedi ei ddynodi o'r premiwm ail gartrefi fel cyfraniad tuag at y datblygiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mewn trafodaethau cychwynnol y byddent yn fodlon cefnogi'r Cyngor ar yr elfen breswyl trwy naill ai cronfa'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro neu'r Grant Tai Cymdeithasol a rhagwelir y bydd y swm fydd ar gael fel cyfraniad tuag at yr elfen breswyl yn oddeutu £6 miliwn.

Mae trafodaethau cadarnhaol hefyd wedi cymryd lle gyda'r Llywodraeth mewn cyswllt ac argaeledd ffynonell ariannu o gronfeydd Adfywio Canol Trefi i gyfarch costau Datblygu'r Hwb Tai arfaerthiedig, a fe ragwelir y gallai'r gronfa yma yn cyfranu swm o oddeutu £1 miliwn tuag at y datblygiad.

Er nad yw'r holl ffynonellau ariannu wedi eu sicrhau, mae trafodaethau cadarnhaol yn parhau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cyfarch y bwlch ariannol fydd ei angen er mwyn gwireddu'r datblygiad, ac mae ymholiadau cyn cynllunio yn awgrymu y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cyfarch gofynion polisi Cynllunio.

Pe bai'r penderfyniad i brynu'r safle yn cael ei awdurdodi, mae'n anorfod y bydd yr eiddo yn sefyll yn wag am gyfnod tra bo'r gwaith o ddatblygu'r cynllun a sicrhau hawl cynllunio yn cymryd lle. Byddai costau diogelu a chynnal yr eiddo yn ystod y cyfnod hwn i gael ei gyfarch o'r premiwm ail gartrefi.

Gan nad oes bwriad talu mwy na gwerth y farchnad am y safle, mae modd lliniaru'r risgiau uchod ymhellach, gan y byddai modd i'r Cyngor werthu'r safle yn ei flaen pe na bai cyllideb i wireddu'r datblygiad, a chaniatâd cynllunio yn cael eu gwireddu.

Pe na bai'r Cyngor yn symud ymlaen i brynu'r eiddo, y tebygrwydd yw y byddai'r safle yn cael ei werthu i ddatblygwr preifat, a'i ddatblygu fel tai marchnad agored.

**Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Holl bwrpas y Cynllun Gweithredu Tai yw sefydlu prosiectau penodol i roi cyfle teg i drigolion Gwynedd sicrhau cartrefi addas. Mae'n dilyn felly fod materion cydraddoldeb yn greiddiol i'r holl gynllun. Yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fe gwblhawyd asesiad effaith cydraddoldeb o'r Cynllun Gweithredu Tai yn ei gyfanrwydd, a bu i'r asesiad hwnnw hysbysu ac atgyfnerthu'r cynlluniau o fewn y Cynllun.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Roedd egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ystyriaeth ganolog wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu Tai. Mae'r egwyddorion a'r 'Pum dull o weithio' yn rhan annatod o'r gynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai gan ymateb a diwallu anghenion tai pobl Gwynedd, mewn ffordd gynaliadwy a heb danseilio llesiant pobl i'r dyfodol.

Mae'r datblygiad arfaethedig ar gyfer trosi'r swyddfeydd yn gartrefi gyda chefnogaeth, a darparu cefnogaeth gysylltiedig mewn cyswllt a materion tai, yn cynnig cyfle i weithio mewn ffordd arloesol ac ataliol er mwyn ceisio lleihau ac osgoi problemau rhag esblygu i'r dyfodol. Byddai cymeradwyo'r penderfyniad hefyd yn golygu atal y broblem o gael eiddo gwag yn y dref am gyfnod estynedig, a'r heriau fyddai'n gysylltiedig â hynny.

**Casgliadau**

O weithredu'r penderfyniad a geisir, bydd y Cyngor yn hwyluso:

a. Datblygiad hyd at 46 o gartrefi safonol gan gyfarch anghenion pobl Gwynedd ar gyfer cartrefi addas, a lleihau'r ddibyniaeth ar argyfwng anaddas.

b. Darpariaeth gwasanaethau cefnogol i breswylwyr y datblygiad i fyw yn annibynnol
c. Darpariaeth gwasanaethau cefnogol tai i drigolion y sir yn ehangach.
d. Buddion economaidd a chymdeithasol cysylltiedig.

Mae sicrhau hawl cynllunio a chyllid digonol i wireddu'r datblygiad yn darparu elfen o'r risg, ond fel a amlygir uchod, mae camau wedi eu cymryd i sicrhau fod modd lliniaru'r risgiau yma.

Gofynnir felly i'r Cabinet gloriannu'r cyfleoedd uchod, yn erbyn y risgiau cyn dod i gasgliad.

**4. Camau nesaf**

Pe bydd y Penderfyniad a geisir yn cael ei gymeradwyo, byddwn yn symud ymlaen i gwblhau'r pryniant ac ymgymryd a gwaith paratoadol i ddatblygu'r safle.

**5. Barn yr Aelod Lleol**

**Y Cynghorydd Cai Larsen**

"Fel aelod mewn ardal fel Caernarfon lle ceir nifer sylweddol o bobl ar restrau aros, a lle mae'n gyffredin i bobl gael eu hunain yn ddigartref, rwyf yn croesawu unrhyw fesur i baratoi darpariaeth a chefnogaeth i'r sawl sydd mewn angen tai ac yn croesawu unrhyw gamau i liniaru costau ar gyllidebau'r Cyngor.  Rwyf hefyd wedi bod yn poeni am y safle -mae'n flêr ac yn dirywio ac mae'n achosi problemau i bobl sy'n byw yn yr ardal oherwydd ymddygiad gwrth gymdeithasol a phroblemau efo'r system 'larwm.

Rwyf felly'n croesawu'r datblygiad, ond yn hyderu y bydd ystyriaeth drylwyr yn cael ei roi i anghenion trigolion sydd eisoes yn byw yn yr ardal wrth uwchraddio'r adeilad ac wedi i'r sefydliad ddod yn weithredol. Mae'r mynediad i'r ardal yn gyfyng, ceir problemau parcio sylweddol yn yr ardal, fel yng ngweddill canol y dref, ac mae rhai o'r tai cyfagos yn lletya pobl sydd ag anawsterau dysgu dwys. "

**6. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Prif Swyddog Cyllid**

"Fel mae'r adroddiad yn nodi, mae risgiau arwyddocaol yn bodoli gyda'r fenter yma ond rwyf o'r farn fod modd lliniaru'r risgiau hyn i lefelau derbyniol.  Rwyf yn fodlon fod trefniadau yn eu lle gan yr Adran Tai ac Eiddo i hawlio cyllid o'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) – sydd yn gynllun grant Llywodraeth Cymru – i ariannu pryniant yr adeilad.  Bydd pris y pryniant yn cael ei osod gan gorff annibynnol.  Gallaf gadarnhau hefyd fod adnoddau yn y Gronfa Premiwm Treth Cyngor i gychwyn y gwaith o ddatblygu'r adeilad, a deallaf fod ffynonellau ariannol eraill hefyd yn cael eu dilyn.  Fodd bynnag, yn unol â threfniadau arferol y Cyngor, gellir disgwyl i'r Adran danysgrifio

unrhyw fwlch ariannol fyddai’n parhau i fodoli hyd nes byddai penderfyniad ffurfiol i’r gwrthwyneb.

Fel gydag unrhyw gynllun o’r math yma, bydd angen cadw’r risgiau (gan gynnwys risgiau ariannol, ond nid rheini’n unig) dan adolygiad parhaus fel bod y trefniadau lliniaru yn parhau’n addas. O safbwynt y risg ariannol mae’n bosib bydd angen gofyn i’r Adran danysgrifio unrhyw fylchau ariannol petai’r angen am hynny yn amlygu ei hun. Bydd llwyddiant y prosiect hwn yn dod â budd amlwg i’r Cyngor a phobl Gwynedd.”

**Swyddog Monitro**

“Mae’r penderfyniad a geisir yn seiliedig ar gloriannu risgiau sydd yn ynghlwm a datblygu prosiect o’r math yma. Yn amlwg mae cyfle i ddatblygu adeilad sylweddol yng Nghaernarfon i gyfarch amcanion y Strategaeth Dai . Esbonnir y risgiau sydd dan sylw yn yr adroddiad. Mae mesurau eisoes mewn lle i gyfarch y risgiau yma a rheoli ardrawiadau posib. Amlygir y rhain mewn ffordd briodol i’r Cabinet.”